Dogfen ir Cyhoedd

Mrs Annwen Morgan
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| **CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)** | **STANDING ADVISORY COUNCIL FOR RELIGIOUS EDUCATION (SACRE)** |
| **DYDD MAWRTH, 15 HYDREF 2019 AM 2.00 O'R GLOCH** | **TUESDAY, 15 OCTOBER 2019 AT 2.00 PM** |
| **YSTAFELL BWYLLGOR 1 SWYDDFEYDD Y CYNGOR LLANGEFNI** | **COMMITTEE ROOM 1 COUNCIL OFFICES LLANGEFNI** |

| Swyddog Pwyllgor | Shirley Cooke 01248 752514 | Committee Officer |
|---|---|---|

**AELODAU / MEMBERS**

**Cynghorwyr / Councillors:-**

Glyn Haynes, Gwilym O Jones, Alun Mummery, Dylan Rees, Alun Roberts,
Sedd Wag/Vacant Seat

**Yr Enwadau Crefyddol/Religious Denominations**

Anest Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Christopher Thomas (Yr Eglwys Babyddol/The Catholic Church), Parch/Rev Kate McClelland (Yr Eglwys Fethodistaidd/The Methodist Church), Mrs Catherine Jones (Undeb y Bedyddwyr/The Baptist Union of Wales), Parch/Rev Jim Clarke (Undeb yr Annibynnwyr Cymraeg/Union of Welsh Independents), Sedd Wag/Vacant Seat (Yr Eglwys Bresbyteraidd/Presbyterian Church of Wales)

**Athrawon/Teachers**

Amanda Earnshaw (Ysgol Cybi), Mefys Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones), Manon Morris Williams (Ysgol Santes Dwynwen), Heledd Hearn (Ysgol Uwchradd Bodedern)

**Aelodau Cyfetholedig/Co-Opted Members**

Rheinallt Thomas

# R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION - 9 GORFFENNAF 2019** (Tudalennau 1 - 8)

- Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfod blaenorol o'r CYSAG a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf 2019.

- I drafod unrhyw faterion sy'n codi o'r cofnodion.

3 **CYNRYCHIOLAETH GAN ENWADAU CREFYDDOL AR Y CYSAG**

- Cadarnhau derbyn Crynwyr fel enwad crefyddol ar y CYSAG.

- Cadarnhau penodi Mr Gerald Hewitson, aelod o'r Crynwyr i CYSAG Môn.

4 **CYNLLUN GWEITHREDU CYSAG MÔN AR GYFER 2019/22** (Tudalennau 9 - 12)

Ystyried Cynllun Gweithredu CYSAG ar gyfer 2019/22.

5 **ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG YNYS MÔN 2018/19**

Ystyried Adroddiad Blynyddol CYSAG Ynys Môn ar gyfer 2018/19.

6 **HUNANARFARNIADAU YSGOLION** (Tudalennau 13 - 38)

Cyflwyno adroddiadau hunanarfarnu AG gan yr ysgolion canlynol:-

- Ysgol Gynradd, Bodedern
- Ysgol Gymuned Llannerch-y-medd
- Ysgol Gymraeg Morswyn

7 **SAFONAU ADDYSG GREFYDDOL** (Tudalennau 39 - 100)

Cyflwyno arolygiadau Estyn a gynhaliwyd yn yr ysgolion canlynol:-

- Ysgol Gynradd, Bodedern
- Ysgol Gymuned Llannerch-y-medd
- Ysgol Gymraeg Morswyn

8 **CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU (CYSAGAUC)** (Tudalennau 101 - 118)

Cyflwyno cofnodion drafft cyfarfod y Gymdeithas a gynhaliwyd yng Nghonwy ar 28 Mehefin 2019, er gwybodaeth.

9 **GOHEBIAETH**

Trafod Ymgynghoriad gan Llywodraeth Cymru ar gynnig sy'n cynnwys yr hawl i dynnu plant allan o AG ac ACR, a newid enw Addysg Grefyddol (dolenni ynghlwm).

https://llyw.cymru/sicrhau-mynediad-ir-cwricwlwm-llawn

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-sicrhau-y-gall-pob-dysgwr-fanteisio-ar-y-cwricwlwm-llawn

## 10 CYFARFOD NESAF

Dydd Mawrth, 18 Chwefror 2019 am 2.00 o’r gloch yp.

This page is intentionally left blank

# CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

## Cofnodion y cyfarfod ar 9 Gorffennaf 2019

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)

**Yr Awdurdod Addysg**

Y Cynghorwyr Gwilym O Jones, Alun W Mummery

**Yr Enwadau Crefyddol**

Mrs Anest Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru)
Mrs Catherine Jones (Undeb Bedyddwyr Cymru)
Mr Christopher Thomas (Yr Eglwys Gatholig Rufeinig)

**Cynrychiolwyr Athrawon**

Mrs Amanda Earnshaw (Ysgol Cybi)
Mrs Mefys Jones-Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones, Amlwch)

**WRTH LAW:** Mrs Helen Bebb (Ysgol Uwchradd Porthaethwy) (Cydlynydd AG)
Mrs Gwyneth M Hughes (Uwch Reolwr Safonau a Chynhwysiad, Addysg) (Clerc i'r CYSAG)
Mrs Shirley Cooke (Swyddog Pwyllgor)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Glyn Haynes, Aled Morris Jones, Alun Roberts
Mrs Heledd Hearn (Ysgol Uwchradd Bodedern)
Mrs Manon Morris Williams (Ysgol Santes Dwynwen)
Mr Rheinallt Thomas (Aelod Cyfetholedig – Cyngor Ysgolion Sul)

**HEFYD YN BRESENNOL:** Mr Gerald Hewitson (Y Crynwyr)

---

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol, a rhoddodd groeso arbennig i Mrs Amanda Earnshaw a Mr Gerald Hewitson i'w cyfarfod cyntaf o CYSAG Ynys Môn. Mae Mrs Earnshaw wedi'i phenodi'n gynrychiolydd athrawon ar y CYSAG.

### 1. DATGAN DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

## 2. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y CYSAG a gynhaliwyd ar 19 Chwefror 2019 ac fe'u cadarnhawyd fel cofnod cywir.

**Materion yn codi o'r cofnodion:-**

- Gan gyfeirio at gais y Cadeirydd i fynychu cyfarfod o'r Fforwm Ysgolion Cynradd, mae Grŵp Cyswllt y Penaethiaid wedi cymeradwyo'r cais, a bydd gwahoddiad yn cael ei anfon at y Cadeirydd a'r Cydlynydd AG i fynychu cyfarfod o'r Fforwm yn fuan.
- Cadarnhawyd fod nifer yr adroddiadau Estyn a restrir yn y tabl yn Adran 2.3.3 a Adroddiad Blynyddol 2017/18 yn gywir.
- Nodwyd fod newidiadau i Gyfansoddiad y CYSAG mewn perthynas ag aelodaeth y Pwyllgor hwn yn cael eu trafod ar ddyddiad diweddarach.
- Mae Cadeirydd a Chlerc y CYSAG wedi cael trafodaeth gyda Mr Arwyn Williams, y Pennaeth Dysgu, ynglŷn â'r diffyg arbenigedd proffesiynol sydd ar gael i'r CYSAG allu ymgymryd â'i swyddogaeth statudol. Roedd Mr Williams yn cydnabod bod y CYSAG angen cefnogaeth ac arweiniad proffesiynol, nid dim ond gan yr Awdurdod hwn, ond hefyd gan GwE ac Estyn, sy'n ymwybodol o'r sefyllfa.
- Adroddodd y Clerc i'r CYSAG ei bod yn aros am ateb gan Ysgrifennydd Undeb Annibynwyr Cymru i gais y CYSAG i'r Eglwys enwebu cynrychiolydd i fod yn aelod ar CYSAG Ynys Môn.
- Mewn perthynas â phryderon y CYSAG ynglŷn â'r diffyg adnoddau dysgu dwyieithog, fe godwyd y mater mewn cyfarfod o Fforwm Iaith y Cyngor Sir. Cadarnhawyd fod Cadeirydd y Fforwm Iaith wedi ysgrifennu at Mr Mark Drakeford, Prif Weinidog Cymru, yn mynegi pryderon y Fforwm.
- Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod wedi anfon e-bost at Mr Richard Speight o Grŵp Dyneiddwyr Bangor yn rhoi gwybod iddo am benderfyniad y CYSAG i beidio penodi aelod o'r Grŵp Dyneiddwyr ar y Pwyllgor hwn.
- Mewn perthynas ag adroddiadau hunan-arfarnu yr ysgolion, **awgrymwyd a mabwysiadwyd fod ysgolion yn y 5 dalgylch yn cael eu targedu yn eu tro, sy'n golygu gofyn am 8 o adroddiadau bob tymor. Byddai unrhyw ysgolion sydd heb ddarparu adroddiad yn cael eu hamlygu ar y 6ed tymor dilynol.**

**PENDERFYNWYD:-**

- **Bod y Clerc i'r CYSAG yn adolygu'r opsiynau sydd ar gael, gan gynnwys aelodaeth o enwadau crefyddol eraill ar y CYSAG.**
- **Bod y Clerc i'r CYSAG yn gweithredu'r cynnig uchod mewn perthynas ag adroddiadau hunan-arfarnu ysgolion.**

## 3. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG YNYS MÔN 2017/18

- Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y CYSAG am 2017/18 i'r Pwyllgor i'w gymeradwyo.

Dywedodd aelod o'r CYSAG fod tabl heb ei gyfieithu yn Adran 2.3.2 y fersiwn Gymraeg o'r Adroddiad Blynyddol.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu Adroddiad Blynyddol y CYSAG 2017/18, gyda'r cywiriad a nodir uchod.**

- Cyflwynwyd Cynllun Gweithredu y CYSAG am 2019/22 i'w ystyried ac er mwyn derbyn sylwadau, a chyfeiriwyd yn benodol at yr hyn mae'r Pwyllgor wedi'i gyflawni yn erbyn y blaenoriaethau a'r deilliannau sydd wedi eu rhestru yn y Cynllun, a fydd yn cael eu monitro gan y CYSAG yn flynyddol.

Adroddodd y Cydlynydd AG fod y Cynllun Gweithredu yn seiliedig ar wybodaeth a gasglwyd o Adroddiad Blynyddol y CYSAG, y Cwricwlwm Newydd i Gymru 2022, ac adroddiad Estyn (Mehefin 2018) yn trafod AG yng CA2 a CA3. Pwysleisiodd fod angen i athrawon a disgyblion fod yn ymwybodol o'r newidiadau a ddaw yn sgil y cwricwlwm.

Canolbwyntiodd y drafodaeth ar p'un a fyddai'r sectorau cynradd ac uwchradd yn cydweithio mewn perthynas â'r cwricwlwm newydd? Nodwyd nad oes unrhyw gydweithio ar hyn o bryd, ond y bydd yna yn y dyfodol. Nodwyd ymhellach fod y term 'osgoi dyblygu' yn cael ei ddefnyddio yn y cwricwlwm newydd, a bydd angen i ysgolion sicrhau eu bod yn gweithio gyda'i gilydd yn y sector cynradd ac uwchradd i gynnal y parhad mewn AG fel pwnc.

Cyfeiriwyd at y Fframwaith Cefnogi AG, a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2020, a bydd yn cynorthwyo athrawon i ddatblygu'r cwricwlwm ar gyfer dysgwyr. **Awgrymwyd a chytunwyd i gynnwys y Fframwaith yn y Cynllun Gweithredu at ddibenion monitro**.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cydlynydd AG am ei gwaith yn paratoi'r Cynllun Gweithredu, a gafodd dderbyniad da gan y CYSAG.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Cynnwys y Fframwaith Drafft ar gyfer AG fel pwynt gweithredu yn y Cynllun Gweithredu 2019/22.**
- **Bod y CYSAG yn mabwysiadu Cynllun Gweithredu 2019/22.**

**Gweithredu: Fel y nodir uchod.**

## 4. Y CWRICWLWM NEWYDD I GYMRU 2022, A SUT BYDD HYN YN EFFEITHIO AR AG?

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y canllaw i'r Cwricwlwm Drafft i Gymru 2022, a anfonwyd ymlaen at y pwyllgor gan Mr Rheinallt Thomas, yn gofyn i'r CYSAG roi adborth ar y cwricwlwm newydd. Adroddodd y Cadeirydd y byddai'n rhannu'r canllaw gyda'r CYSAG yn electronig.

Ychwanegodd y Clerc i'r CYSAG y byddai'r cyfnod ymgynghori yn dod i ben ar 19 Gorffennaf 2019, yna byddai'r adborth yn cael ei ystyried gan swyddogion addysg sydd ynghlwm â'i ddatblygiad. Bydd y canllawiau yn cael eu mireinio, a'u cyflwyno yn 2022 ar gyfer yr holl grwpiau blwyddyn yn y sector cynradd a Blwyddyn 7 yn y sector uwchradd, ac wedyn i Flwyddyn 8 yn 2023, ac i bob blwyddyn ddilynol hyd at 2026.

Nodwyd y bydd yna amseroedd heriol i ddod i athrawon yn y sector uwchradd yn ystod y cyfnod trosiannol. Bydd ysgolion yn cael eu heffeithio'n fawr, gan y bydd angen i athrawon a staff gyflwyno'r hen gwricwlwm a'r cwricwlwm newydd ar yr un pryd. Mae canmoliaeth i'r cwricwlwm newydd am ei fod yn fwy cyfoes ac yn bositif o ran ei ddull thematig.

Codwyd pryderon ei bod yn hawdd colli'r agweddau AG o'r Dyniaethau yn y cwricwlwm newydd, gan fod angen i'r fanyleb gael ei datblygu. Gobeithir y bydd y fframwaith cefnogi yn cael ei gyflwyno a'i fonitro i'r safonau uchaf.

Adroddodd y Cadeirydd y bydd ef a'r Cydlynydd AG yn mynychu cyfarfod o CYSAGau Gogledd Cymru yng Nghonwy ddydd Iau, i drafod ymatebion gan GYSAGau trwy Ogledd Cymru i'r cwricwlwm newydd.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd mewn perthynas â'r Cwricwlwm Newydd i Gymru 2022.**
- **Bod y Cadeirydd a'r Cydlynydd AG yn darparu adborth i'r CYSAG ar ôl mynychu cyfarfod CYSAGau Gogledd Cymru.**

**Gweithredu: Fel y nodir uchod.**

## 5. SAFONAU ADDYSG GREFYDDOL

### Arolygon Ysgolion Estyn – Gaeaf 2018 a Gwanwyn 2019

Cafodd adroddiadau arolwg Estyn a wnaed yn Ysgol Gynradd Amlwch, Ysgol y Graig, Llangefni ac Ysgol Gymunedol Pentraeth eu cyflwyno i'r CYSAG i'w hystyried.

Adroddodd y Clerc i'r CYSAG ei bod wedi darparu'r adroddiad arolwg llawn gan Estyn ar gyfer pob ysgol, yn hytrach na darnau o'r adroddiadau, er mwyn rhoi gwell blas a darlun o'r gwaith a wnaed yn yr ysgolion.

Adroddwyd nad oedd unrhyw faterion yn codi o'r arolygon Estyn a bod pob un o'r tair ysgol yn cwrdd â'r gofynion. Nodwyd fod yr ethos, y ddarpariaeth AG ac Addoli ar y Cyd yn dda ym mhob un o'r ysgolion.

Tynnwyd sylw gan aelod o'r CYSAG at y ffaith fod Estyn yn anghyson yn eu defnydd o'r Gymraeg h.y. yn adroddiad Ysgol Gymuned Pentraeth, mae Estyn yn cyfeirio at 'Collective Worship' fel 'Cyd Addoli', yn hytrach na'r cyfieithiad cywir 'Addoli ar y Cyd'.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd yn adroddiadau arolwg Estyn*.***

**Gweithredu: Dim**

## 6. ADRODDIADAU HUNAN ARFARNIADAU YSGOLION

Cafodd yr adroddiadau hunan-arfarnu gan Ysgol Y Talwrn, Ysgol Gymunedol Pentraeth ac Ysgol Gynradd Amlwch eu cyflwyno i'r CYSAG i'w hystyried.

Nodwyd fod safon y dysgu a gyrhaeddwyd mewn AG yn yr ysgolion hyn naill ai'n ddigonol neu'n dda.

Mynegodd y CYSAG bryder nad yw adroddiadau hunan-arfarnu yn cael eu gwirio gan gorff proffesiynol, ac nid oes unrhyw fath o gefnogaeth i ysgolion a allai fod angen cymorth i wella a chodi safonau.

Cynigiodd y Cadeirydd ei fod yn ymweld ag Ysgol Y Talwrn i arsylwi Addoli ar y Cyd, ac i weld y gwaith sy'n cael ei wneud gan ddisgyblion yn yr ysgol.

Rhoddodd Mrs Mefys Jones-Edwards adroddiad llafar ar yr adroddiad hunan-arfarnu roedd hi wedi'i baratoi ar gyfer Ysgol Syr Thomas Jones, yn dwyn y teitl Y Gyfadran Dyniaethau. Tynnodd sylw at y 5 pwynt allweddol isod o'i hadroddiad mewn perthynas ag AG:-

1. Safonau

   - Mae canlyniadau CA4 a CA5 yn dda iawn, gyda phob disgybl yn ennill cymhwyster yn y pwnc;
   - Mae canlyniadau CA3 yn ddigonol i dda, gan eu bod yn amrywio ymhlith gwahanol grwpiau;
   - Mae safonau mewn perthynas â bechgyn angen gwella, gan fod bechgyn ar hyn o bryd yn tanberfformio ar draws yr ynys;
   - Mae angen i safonau CA5 wella yn yr Uned Athroniaeth;
   - Mae llythrennedd yn dda iawn, oherwydd y gwaith cynllunio sydd wedi digwydd i wella sgiliau llafar ac ysgrifenedig.
   - 'Does ond angen datblygu sgiliau rhifedd a TG fel bo raid.

2. Llesiant ac Agwedd at Ddysgu

   - Mae cyfranogiad disgyblion mewn gwersi yn dda iawn; maent yn mwynhau'r pwnc;
   - Mae gan athrawon a phlant berthynas dda mewn gwersi AG;
   - Mae angen datblygu agwedd y disgyblion at ddysgu'n fwy annibynnol, ac mae'n un o'r 12 maes yn y cwricwlwm newydd.

3. Addysgu a Phrofiadau Dysgu

- Mae'r ddarpariaeth AG o ran gwersi, llyfrau a siarad gyda dysgwyr yn dda;
- Mae'r disgyblion yn elwa o brofiadau trwy ymweliadau;
- Mae sgiliau a gwybodaeth ar ddeall Cristnogaeth a chredoau eraill yn cael eu teilwra'n dda yn y cynlluniau gwaith.

4. Gofal, Cymorth ac Arweiniad

- Mae athrawon yn cwestiynu dysgwyr pan fyddant yn darparu adborth i ddisgyblion, lle mae angen ymatebion craff, ac mae hynny yn ei dro yn gwella safon y gwaith yn yr ystafell ddosbarth;
- Mae'r deialog rhwng athrawon a disgyblion wedi gwella;
- Mae sesiynau addoli ar y cyd yn cael eu cynnal yn ddyddiol yn Ysgol Syr Thomas Jones.

5. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

- Mae cydweithio strategol yn digwydd gydag ysgolion eraill yng nghyswllt TGAU a Lefel A, sy'n arwain at weithio ar y cyd yn well;
- Mae hunan-arfarnu yn digwydd yn flynyddol yn yr ysgol, ac mae Cynllun Gwella y flwyddyn ganlynol yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd yn adroddiad hanan-arfarnu yr ysgol;
- Mae gan bob aelod o staff yn yr ysgol y cyfle i ddatblygu'n broffesiynol;
- Mae angen rhannu arfer dda fel ffordd o baratoi at y cwricwlwm newydd, gan y bydd yna newidiadau amlwg.

Diolchodd y Cadeirydd i'r athrawon a fu ynghlwm â pharatoi a chyflwyno'r adroddiadau hunan-arfarnu i'r CYSAG.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r adroddiadau hunan-arfarnu AG fel y cawsant eu cyflwyno.**
- **Bod y Cadeirydd yn cysylltu â Phennaeth Ysgol Y Talwrn i drefnu ymweliad i'r ysgol i arsylwi sesiwn Addoli ar y Cyd a'r gwaith sy'n cael ei wneud gan ddysgwyr yn yr ysgol.**

**Gweithredu: Fel y nodir uchod.**

**7. CYMDEITHAS CYSAGau CYMRU (CCYSAGauC)**

Cyflwynwyd cofnodion drafft y cyfarfod blaenorol o CCYSAGauC a gynhaliwyd ar 26 Mawrth 2019, er gwybodaeth.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at Eitem 8 ar yr agenda – Cefnogaeth AG broffesiynol ar gyfer CYSAGau.

Adroddodd y Cadeirydd fod CCYSAGauC nawr wedi derbyn ymateb gan Kirsty Williams, y Gweinidog Addysg, i bryderon a godwyd ynglŷn â'r diffyg cefnogaeth broffesiynol i GYSAGau ar draws Cymru. Yn ei hymateb, roedd y

Gweinidog wedi amlinellu'r trefniadau a oedd wedi cael eu rhoi mewn lle ar gyfer cyfarfodydd rhwng CCYSAGauC a Llywodraeth Cymru.

Nodwyd ymhellach fod Libby Jones a Paula Webber ar hyn o bryd mewn trafodaethau gyda'r Gweinidog a Llywodraeth Cymru, a'u bod wedi pwysleisio er mwyn gallu symud ymlaen a mabwysiadu'r cwricwlwm newydd, bod rhaid buddsoddi mewn adnoddau. Maent wedi argymell bod Llywodraeth Cymru yn buddsoddi arian mewn sefydlu ymgynghorwyr yn rhanbarthol i ddarparu cefnogaeth angenrheidiol, ac mae'r cynnig hwn wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Mynegodd y CYSAG bryder ynglŷn â datganiad yr Gweinidog bod y mater o ddarparu arbenigedd yn un y dylid ei ddatrys rhwng Awdurdodau Lleol, ysgolion a ChYSAGau unigol. Roedd y CYSAG yn siomedig gyda'r datganiad hwn, a theimlent gan fod CYSAGau wedi eu sefydlu trwy gyfraith, mai Llywodraeth Cymru ddylai fod â'r cyfrifoldeb am ddarparu cefnogaeth, anogaeth a chyllid i GYSAGau.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd yng nghofnodion CCYSAGauC.**
- **Bod athrawon AG yn dod â samplau o gwestiynau arholi TGAU a Lefel A i gyfarfod nesaf y CYSAG.**
- **Bod y Clerc i'r CYSAG yn cynnwys eitem ar raglen cyfarfod nesaf y Pwyllgor i drafod canlyniadau TGAU a Lefel A.**

**Gweithredu: Fel y nodir uchod.**

**8. GOHEBIAETH**

Adroddodd y Cadeirydd fod Dr Peter Hemming o Brifysgol Caerdydd wedi anfon nodyn atgoffa ato ynglŷn ag e-bost blaenorol yr oedd Dr Hemming wedi ei rannu gyda'r CYSAG, ynglŷn ag arolwg gwerthuso mae'n ei gynnal ar Ganllawiau a Phecyn Adnoddau ar Amrywiaeth Crefydd a Chred.

Adroddodd y Clerc i'r CYSAG fod ymatebion wedi eu derbyn oddi wrth yr ysgolion, ond nid y CYSAGau.

**PENDERFYNWYD fod y Clerc i'r CYSAG yn ail-anfon e-bost Dr Peter Hemming at aelodau CYSAG Ynys Môn.**

**Gweithredu: Fel y nodir uchod.**

.

**7. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nodwyd fod cyfarfod nesaf y CYSAG wedi'i drefnu ar gyfer 2.00pm ar ddydd Mawrth, 8 Hydref 2019.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.30pm

**Y CYNGHORYDD DYLAN REES**
**CADEIRYDD**

**Cynllun Gweithredu CYSAG Ynys Môn 2019 - 2022**

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn seliedig ar y dogfenau canlynol:

- Adroddiad blynyddol CYSAG
- Cwricwlwm Newydd i Gymru 2022
- Adroddiadau ESTYN, Mehefin 2018 Addysg Grefyddol yng nghyfnod alweddol 2 a chyfnod allweddol 3

| **Blaenoriaeth** | **Camau Gweithredu** | **Cyfrifoldeb** | **Tystiolaeth** | **Deilliannau** | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Addysg Grefyddol ac Addoli ar y cyd yn weithredol a chadarn dda mewn bob un ysgol.**<br><br>**Cynllunio'n fwriadus i godi delwedd y pwnc.** | • Codi proffil a photensial Addysg Grefyddol yn yr ysgolion uwchradd a chynradd. | **Aelodau CYSAG** | • Adnoddau Addysg Grefyddol a chyd addoli yn y blwch ar fforwm Addysg Môn. | • Pob ysgol yn cydymffurfio a'r disgwyliadau am addoliad ar y cyd yn ddyddiol.<br>• Addysg Grefyddol ac Addoli ar y cyd yn cael ei flaenoriaethu'n fwriadus ga bod ysgol. | |
| | • Adolygu a monitor ansawdd addoli ar y cyd yn yr uwchradd a'r cynradd . | **Aelodau CYSAG [Cydgysyllwtwy AG Uwchradd]** | • Adroddiadau llafar aelodau'r CYSAG. | • Perthnasu pwysigrwydd Addysg Grefyddol yn ein bywyd bob dydd trwy lesiant, myfyrdodau a chymuned drwy addoli ar y cyd. | |
| | • Adnabod a sicrhau bod gan pob ysgol person arweiniol Addysg Grefyddol, a bod cyfrifoldeb o gyflwyno Addoli ar y cyd yn glir ac yn weithredol. | **Ysgolion ac Aelodau CYSAG** | • Hyfforddiant penodol wedi ei drefnu drwy Gwe yn dilyn adnabyddiaeth o'r angen | • Bywyd ysbrydol y dysgwyr yn cael eu meithrin. | |
| | • Darparu hyfforddiant / sesiynau ar sut i gyflwyno addoli ar y cyd o ansawdd. | **GwE/ Cydgysylltwyr AG Uwchradd** | • Cyfeiriadau tuag at addoli ar y cyd yn adroddiadau ESTYN. | • Hyfforddiant perthnasol wedi ei gynllunio a'i gyflwyno. | |
| | • Codi lefel atebolrwydd Aelodau | **Awdrdod** | | • Aelodau CYSAG yn gweithredu'n llawn i | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | o'r CYSAG.<br><br>• Rhaglen waith ar gyfer yr aelodau iddynt arsylwi sesiynau addoli ar y cyd mewn ysgolion.<br><br>• Adroddiadau craffu yn sicrhau bod continiwm o ddysgu. | **Pwyllgor CYSAG** | | ymgyfarwyddo gwaith ysgolion o fewn y maes drwy ymweldiadau a chynnal adroddiadau tymhorol | |
| **Gwybodaeth athrawon am eu cyfrifoldebau mewn AG yn gyfoes er mwyn eu galluogi i addysgu gofynion y CNiG gyda hyder.** | • Sicrhau bod peneithiaid, athrawon ac aelodau o'r CYSAG yn wybodus am ofynion y Addysg Grefyddol fel rhan o'r Maes Dysgu a Phrofiad Dyniaethau o fewn y Cwricwlwm Newydd.<br><br>• Sicrhau bod cyfleoedd i rannu arferion da rhwng ysgolion drwy edrych ar waith dysgwyr, cynlluniau gwaith ac arsylwadau gwersi anffurfiol.<br><br>• Sicrhau bod cysylltiad rhwng athrawon cynradd ac athrawon MDaPh Dyniaethau er mwyn rhannu arferion da. | **Ymgynghorydd Pwnc ac Arweinwyr o ysgolion arloesi.** | • Enghreifftiau o arferion da.<br><br>• Gwaith dysgwyr yn adlewyrchu gofynion y CNiG o safon uchel.<br><br>• Cofnodion o gyfarfodydd. | • Gwaith AG pob dysgwr yn adlewyrchu y pedwar diben.<br><br>• Dysgwyr yn cael profiadau gwerthfawr o'r dysgu ac addysgu.<br><br>• AG yn rhan naturiol o'r dysgu ac yn cael sylw cyfartal o fewn y MDaPh. | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Creu platfform i rannu adnoddau er mwyn rhannu arferion da o fewn AG ac addoli ar y cyd.** | • Ychwanegu blwch Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd yn ar fforwm HWB  Addysg Môn. | **Ymgynghorydd Pwnc.** | • Y blwch ar wefan HWB.<br><br>• Enghreifftiau o arferion da ynddo. | • Lleihau llwyth gwaith athrawon wrth gynllunio gwaith AG ac ac addoli ar y cyd.<br>• Hwyluso creu sesiynau cydaddoli I ysgolion.<br>• Banc o wersi da ac ardderchog yn cael eu rhannu rhwng athrawon er mwyn codi safon addysgu AG mewn ysgolion. | |

This page is intentionally left blank

**Enw'r Ysgol:** **Ysgol Gynradd Bodedern**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

**Maes arolygu 1: Safonau Addysg Grefyddol**
***Pa mor dda y mae disgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd dros amser?***

Yn y Cyfnod Sylfaen mae bron bob un o'r disgyblion wedi cael cyfleodd i archwilio i gredoau ac arferion crefyddol. Mae gallu'r disgyblion i ymdrin â chwestiynau sylfaenol yn datblygu ac erbyn cyrraedd brig y Cyfnod Sylfaen mae bron pob un o'r disgyblion yn gallu gofyn cwestiynau, trafod ac ymateb yn effeithiol. Gall bron pob un o'r disgyblion drafod eu teimladau gan fynegi barn yn syml. Erbyn cyrraedd brig y CS mae rhai disgyblion yn trafod safbwyntiau, arferion a chredoau eraill yn llwyddiannus. Ar draws y Cyfnod Sylfaen datblygir gallu'r disgyblion i wneud defnydd effeithiol o eirfa crefyddol addas yn briodol. Mae llawer o'r disgyblion yn siarad yn hyderus am eu gwaith gan ddangos deallusrwydd cynhwysfawr am y cynnwys.

Yng Nghyfnod Allweddol 2 mae bron bob un disgybl yn gallu trafod Cristnogaeth gan gyfeirio at storiau o'r Beibl ac arferion crefyddol, yn ogystal â thrafod credoau, dysgediaethau ac arferion crefyddol hyderus.Yng ngwaelod Cyfnod Allweddol 2 mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ymateb gan alw i gof ac ymdrin â chredoau ac arferion crefyddol sylfaenol yn briodol. Yn syml maent yn disgrifio pam mae agweddau a chredoau yn bwysig i rhai pobl gan wneud cysylltiadau syml rhwng wahanol gredoau. Ym mrig Cyfnod Allweddol 2 mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn hyderus wrth ymateb i arferion a dysgeidiaethau gyda rhai disgyblion yn trafod sut mae rhai agweddau yn effeithio ar fywydau credinwyr. Llwydda'r rhan fwyaf o'r disgyblion wneud cysylltiadau rhwng credoau, dysgeidiaeth ac arferion gan nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol o fewn crefyddau yn effeithiol. Bydd y disgyblion yn defnyddio eu medrau llythrennedd yn llwyddiannus i ymchwilio am wybodaeth mewn llyfrau cyfeiriol ac ar y we a thrafod eu darganfyddiadau yn drwyadl mewn grwpiau gan gofnodi ar ffurf nodiau cychwynol yn ogystal â gwneud tasgau ysgrifennu mwy estynedig.

Gall llawer o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 ddisgrifio a thrafod eu teimladau yn aeddfed ac yn bwrpasol. Llwydda'r mwyafrif i drafod eu gweithredoedd a'u barn gan drafod safbwyntiau eraill yn llwyddiannus. Yng ngwaelod CA2 mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dechrau adnabod a deall ystyr symbolau crefyddol gan ddechrau defnyddio geirfa berthnasol yn addas.
Ym mrig Cyfnod Allweddol 2 mae rhai disgyblion yn gallu trafod sut mae teimladau a'u barn yn effeithio ar eu bywydau eu hunain ac sut mae safbwyntiau eraill yn yr un modd yn effeithio arnynt hwythau. Defnyddia'r mwyafrif o'r disgyblion eirfa addas ac mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion ddealltwriaeth dda o iaith symbolaidd. Mae bron bob un o'r disgyblion yn siarad yn hyderus am eu gwaith gan ddangos deallusrwydd am y cynnwys. Mae'r rhan fwyaf yn mynegi barn yn effeithiol ar ôl ymchwilio gan wneud defnydd da o'r hyn maent wedi ei ddarganfod a'i ddysgu.

Yng Ngyfnod Allweddol 2 mae bron pon un o'r disgyblion yn llwyddo i siarad a gofyn cwestiynau addas am eu profiadau personol. Gall llawer o'r disgyblion ym mrig Cyfnod Allweddol 2 drafod y byd o'u cwmpas a chynnig sylwadau a thrafod cwestiynau sy'n codi gan fynegi eu barn. Ym mrig Cyfnod Allweddol 2 gall y lleafrif o ddisgyblion fynegi barn a chyfiawnhau eu syniadau am gwestiynau sylfaenol yn dilyn eu hymchwiliadau a'u profiadau eu hunain.

**<u>Camau Gweithredu:</u>**

- Datblygu dealltwriaeth pob disgybl o effaith crefydd ar fywydau pobl.
- Ymestyn a herio sgiliau'r disgyblion wrth iddynt ofyn ac ateb cwestiynau mawr.

**Mae safonau addysg grefyddol ein disgyblion yn: Dda**

**Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu am Addysg Grefyddol?**
***Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi addysg grefyddol?***

Yn y Cyfnod Sylfaen mae bron pob un o'r disgyblion yn mwynhau Addysg Grefyddol ac yn ymateb yn gadarnhaol tuag at y tasgau. Mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn llwyddo i drafod eu teimladau hwy a theimladau eraill yn llwyddiannus yn ystod y gwersi Addysg Grefyddol. Gall y mwyafrif o ddisgyblion brig y Cyfnod Sylfaen fynegi barn yn syml gan egluro sut mae gwerthoedd crefyddol a gweithredoedd yn effeithio ar eu lles ac ar les eraill. Yng Nghyfnod Allweddol 2 mae gan bron pob un o'r disgyblion agwedd dda tuag at ddysgu am Addysg Grefyddol. Dengys holiadur disgyblion Cyfnod Allweddol 2 fod 87% o'r disgyblion yn mwynhau gwersi a thasgau Addysg Grefyddol. Mae'r mwyafrif o'r disgyblion yn datgan eu bod yn gweld gwerth mewn dysgu am grefyddau a chredoau eraill. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu trafod effaith gwerthoedd crefyddol ar eu lles ac ar les eraill.

Mae'r disgyblion yn cael profiadau cadarnhaol wrth ddysgu am yr hyn sy'n digwydd mewn gwledydd eraill yn y byd heddiw gyda'r disgyblion wedi gwneud gweithgareddau sy'n eu dysgu am Fasnach Deg a chael cyfle i ddysgu a chyfrannu at waith elusen Teams 4U drwy anfon bocsys anrhegion Nadolig i blant mewn gwledydd eraill. Mae bron pob un disgybl yn gallu dangos empathi at eraill mewn sefyllfaoedd yn ogystal maent yn uniaethu gyda cymeriadau mewn storiau. Mae bron pob un disgybl yng Nghyfnod Allweddol 2 yn ymwybodol o'u hawliau a'r hyn sy'n dderbyniol ac annerbyniol o fewn cymdeithas. Mae disgyblion CS yn cael cyfleoedd cyfoethog mewn cyfnodau amser cylch i drafod cwestiynau yn ymwneud ac addysg grefyddol. O ganlyniad i hyn mae'r rhan fwyaf yn ennill gwell dealltwriaeth o sut i ymdrin â sefyllfaoedd a diwylliannau eraill.

**Camau Gweithredu:**

- Sicrhau digon o gyfleoedd i ddisgyblion a grwpiau o ddisgyblion drafod a mynegi barn am Addysg Grefyddol yn yr ysgol.
- Creu holiadur syml ar gyfer Disgyblion Blwyddyn 1 a 2 gael cyfle i fynegi barn yn syml.
- Gwahodd Llywodraethwr Cysylltiol i fynd ar daith dysgu ac i drafod gyda disgyblion ymhob un o'r dosbarthiadau er mwyn cael trosowlg o farn disgyblion am Addysg Grefyddol yn yr ysgol.

**Mae agweddau disgyblion tuag at addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: Dda**

**Maes arolygu 3: Addysgu ac phrofiadau dysgu mewn Addysg Grefyddol?**
***Pa mor dda yw'r cynllunio a'r addysgu mewn addysg grefyddol? Rhowch enghreifftiau o brofiadau addysg grefyddol cyfoethog***

Caiff sesiwn yr wythnos ei glustnodi yn amserlen yr ysgol ar gyfer yr holl ddosbarthiadau. Addysgir Addysg Grefyddol gan athrawes CPA i ddisgyblion yn y ddau ddosbarth Cyfnod Allweddol 2. Mae gan athrawon y Cyfnod Sylfaen ddealltwriaeth dda o'r Cwricwlwm a'r fframwaith gan adnabod a datblygu'r sgiliau sy'n ymwneud â phobl, credoau a chwestiynau drwy'r meysydd Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd a Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth Diwylliannol. Dengys Cynlluniau gwaith athrawon y Cyfnod Sylfaen a llyfrau gwaith 'Taith Ddysgu' y disgyblion eu bod yn cael amrywiaeth dda o brofiadau sy'n rhoi'r cyfle iddynt ffynnu a gwneud cynnydd. Gwneir defnydd effeithiol o adnoddau gan gynnwys llyfrau, arteffactau, ymweliadau ag addoldai lleol ac ymwelwyr i'r ysgol i ennyn diddordeb ac i gynnig darpariaeth gyfoethog i'r disgyblion. Caiff disgyblion gyfle i ddysgu parchu llyfrau a gwrrthrychau sanctaidd a dysgu am bwysigrwydd ac arwyddocas digwyddiadau a chredoau arbennig.

Mae'r athrawon yn cynllunio unedau Addysg Grefyddol bob hanner tymor sy'n rhoi cyfle i ddisgyblion ymchwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arferion Cristnogaeth a chrefyddau eraill yn ogystal a cheisio ateb chwestiynau mawr bywyd. Mae Cynlluniau Gwaith llawer o'r dosbarthiadau yn fanwl ac yn sicrhau dilyniant a datblygiad. Bellach mae cynlluniau gwaith Addysg Grefyddol Cyfnod Allweddol 2 yn sicrhau fod disgyblion yn cael cyfle i archwilio cwestiynau mawr er enghraifft 'Pwy ydw i?' 'Beth sy'n iawn?' 'Gofalu am Ein Byd' 'Beth ydy arwyddocâd man addoli?' gan ddatblygu eu sgiliau ymholi ac ymchwilio.

Mae gan yr ysgol adnodau addas er enghraifft llyfrau ac arteffactau sy'n symbylu y disgyblion wrth ddysgu ac mae'r disgyblion yn ymateb yn frwdfrydig wrth eu defnyddio.

Rydym yn manteisio ar gyfleoedd i fynd a disgyblion ar ymweliadau i addoldai lleol. Bydd y disgyblion yn cymryd rhan yn flynyddol mewn Gwasanaeth Diolchgarwch, Gwasanaeth Cofio a Gwasanaeth Nadolig yn y Capel a'r Eglwys leol. O ganlyniad mae'r disgyblion yn cael cyfle i ddysgu am bwysigrwydd addoldai ac am drefn ac arferion mewn gwasanaethau capel ac eglwys.

Mae'r athrawon yn gosod tasgau er mwyn asesu cyrhaeddiad y disgyblion gan sicrhau cyfleoedd iddynt adeiladu'n llwyddiannus ar ddysgu blaenorol. Mae cynnydd y disgyblion yn gael ei dracio ar system Incerts.

**Camau Gweithredu:**

- Parhau i gynnig profiadau diddorol a gwerthfawr gan ddatblygu sgiliau dysgwyr gan sicrhau cysondeb yn y cynlluniau
- Trafod gyda athrawon eraill gan rannu arferion da yn yr ysgol a'r dalgylch gan ymweld ag ysgolion sydd ag arfer dda o addysgu Addysg Grefyddol.
- Gosod a llunio MPLl gan rhoddi cyfle i'r disgyblion fyfyrio ar y dysgu.
- Cyflwyno tasgau heriol ac ymestynnol ar gyfer disgyblion mwy abl.

**Maes safonau addysgu addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: Boddhaol**

**Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad mewn Addysg Grefyddol?**
***I ba raddau mae gwersi/gweithgareddau addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain? Sut mae addysg***

| |
|---|
| ***grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol? I ba raddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol?*** |
| Mae gwersi Addysg Grefyddol ar draws yr ysgol yn cynnig cyfleodd i ddisgyblion fyfyrio ar gwestiynau sylfaenol ac i drafod eu credoau a'u gwerthoedd eu hunain. Yn ogystal â gwersi Addysg Grefyddol darperir cyfnodau addoli ar y cyd yn ddyddiol boed hynny yn addoliad ysgol gyfan neu'n addoliad yn y dosbarth. Mae'r gwasanaethau o natur Gristnogol sy'n cynorthwo ac yn arwain disgyblion i fyfyrio ar eu credoau a'u gwerthoedd eu hunain sy'n arwain a ddatblygu gwerthoedd sicr a credoau ysbrydol a moesegol iddynt fel unigolion. Mae'r addoli ar y cyd yn gyfle i feithrin datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol pob un o'r disgyblion. Mae'n hyrwyddo ethos a gwerthoedd. O ganlyniad i hyn mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn deall materion yn ymwneud â hawliau a dewisiadau cywir ac anghywir. Fel rhan o'r addoliad bydd y disgyblion yn cael cyfle i ganu emynau traddodiadol a modern, gweddio ac i ddarllen. Yn eu tro bydd pob dosbarth yn cynllunio ac yn cynnal gwasanaeth yn ogystal bydd pob disgybl yn rhan o Wasanaeth Diolchgarwch a Nadolig yn yr Eglwys ac yn y Capel yn y pentref.<br><br>Drwy wersi, sesiynau Amser Cylch a chyfnodau addoli ar y cyd rydym yn rhoi'r cyfle i'r disgyblion ddatblygu agweddau ar ABaCh a Dinasyddiaeth Fyd Eang. Bydd siaradwyr gwadd yn dod i gyflwyno neges neu sgwrs i'r disgyblion. Yn fisol bydd y ficer lleol yn ymweld i gynnal gwasanaeth ac mae cyfle i'r disgyblion gymryd rhan flaenllaw a gweithredol yn yr anerchiad er enghraifft drwy actio rhannau o storiau'r Beibl. Mae'r disgyblion yn cael eu hannog i drin ei gilydd gyda chwrteisi a pharch.<br><br>Fel ysgol rydym yn meithrin ysbryd cymunedol ac yn hyrwyddo gwerthoedd da a gofalu am eraill drwy gefnogi gwahanol elusennau ar sawl achlysur yn ystod y flwyddyn addysgol. Drwy gefnogi a chasglu arian at wahanol elusennau daw disgyblion i ddysgu am eu gwaith ac am bwysigrwydd a gwerthoedd moesol ac ysbrydol. Yn ogystal daw'r disgyblion i weld eu cyfrifoldeb wrth helpu eraill llai ffodus yn lleol, cenedlaethol ac yn rhyngwladol sy'n arwain at eu datblygu i fod yn ddinasyddion gweithredol. |
| **<u>Camau Gweithredu:</u>**<br>• Sicrhau fod amrywiaeth eang o siaradwyr ac ymwelwyr i'r ysgol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ydy'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd?** | **Ydy** | **√** | **Nac ydy** | |
| **Mae cyfraniad addysg grefyddol i ddatblygiad personol disgyblion a chydlyniad cymunedol yn: Dda** | | | | |

| |
|---|
| **Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth mewn Addysg Grefyddol?**<br>***A oes gan yr arweinydd pwnc addysg grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol? Sut ydych yn gwybod?*** |
| Yn dilyn absenoldeb tymor hir y cyd-lynydd rydym wedi penodi cyd-lynydd newydd (Medi 2019). Mewn byr amser mae'r cyd-lynydd newydd wedi dechrau cydweithio gyda cydlynwyr eraill yn yr ysgol i sicrhau cynlluniau gwaith Addysg Grefyddol trawsgwricwlaidd. Sicrheir cyfle i athrawon drafod a rhannu eu cynlluniau mewn cyfarfodydd staff er mwyn rhannu arferion gorau ac arbenigeddau yn yr ysgol.<br>Ceir adnoddau gan gynnwys llyfrau ac arteffactau yn yr ysgol er hynny mae angen buddsoddi yn yr adnoddau diweddaraf.Mae'r cydlynydd wedi dechrau cydweithio gyda staff yr ysgol er addasu a diweddaru cynllun gwaith tymor hir yr ysgol er mwyn cynnwys cwestiwn mawr ac is-gwestiynau ar gyfer bob hanner tymor.<br><br>Mae Addysg Grefyddol wedi bod yn cael ei fonitro yn yr ysgol yn flynyddol, fodd bynnag mae angen creu amserlen bendant a sicrhau cyfleoedd cyson i'r Llywodraethwr dynodedig ymweld i graffu ar wahanol agweddau. |
| **<u>Camau Gweithredu:</u>**<br>• Cwblhau y gwaith o addasu a diweddaru cynlluniau tymor hir yr ysgol.<br>• Creu amserlen fonitro Addysg Grefyddol.<br>• Trefnu cyfleoedd gweithio ysgol i ysgol. |
| **Mae arweinyddiaeth a rheolaeth mewn addysg grefyddol yn: Foddhaol** |

| Agweddau i gael sylw | Camau gweithredu | Pwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|
| | | Nid oes rhaid rhannu'r manylion hyn gyda CYSAG ond mae angen i gofnodion yr ysgol sicrhau bod atebolrwydd yn glir i staff a llywodraethwyr | |
| Datblygu dealltwriaeth pob disgybl o effaith crefydd ar fywydau pobl. | • Cynllunio bwriadus yn sicrhau cyfle i ddisgyblion archwilio effaith crefydd ar fywydau pobl. | | |
| Ymestyn a herio sgiliau'r disgyblion wrth iddynt ofyn ac ateb cwestiynau mawr. | • Sicrhau fod cwestiwn mawr yn cael ei gynllunio ar gyfer pob hanner tymor.<br>• Rhoi cyfle i'r disgyblion drafod pynciau sydd yn bwysig iddynt hwy.<br>• Sicrhau digon o gyfleoedd i'r disgyblion ymchwilio ac ystyried gahanol gredoau a safbwyntiau. | | |
| Sicrhau digon o gyfleoedd i ddisgyblion a grwpiau o ddisgyblion drafod a mynegi barn am Addysg Grefyddol yn yr ysgol. | • Casglu barn disgyblion y CS drwy gyfrwng holiadur syml.<br>• Rhoi holiadur i ddisgyblion CA2 ar ddiwedd y flwyddyn i gymharu ac i weld os oes cynnydd.<br>• Sicrhau cyfle i ddisgyblion fynegi barn am Addysg Grefyddol yn y Cyngor Ysgol ac yn y Cyngor dosbarth. | | |
| Sicrhau amserlen fonitro gynhwysfawr. | • Creu amserlen yn monitro agweddau gwahanol yn dymhorol.<br>• Gwahodd Llywodraethwr Cysylltiol i fynd ar daith dysgu ac i drafod gyda disgyblion ymhob un o'r dosbarthiadau er mwyn cael trosowlg o farn disgyblion am Addysg Grefyddol yn yr ysgol. | | |
| Rhannu a mabwysiadu arferion da . | • Craffu ar gynlluniau a gwaith disgyblion yn ystod cyfarfodydd staff gan adnab<br>• Trafod gyda athrawon eraill gan rannu arferion da yn yr ysgol a'r dalgylch gan ymweld ag ysgolion sydd ag arfer dda o addysgu Addysg Grefyddol. | | |
| Cyflwyno tasgau heriol ac ymestynnol ar gyfer disgyblion mwy abl. | • Sicrhau fod cyfleodd i'r disgyblion mwyaf abl i gwblhau tasgau heriol sydd yn eu hymestyn.<br>• Sicrhau rhyddid i'r disgyblion mwyaf abl ddewis sut i ymateb ac ymchwilio i gwestiynau, | | |

**Arfarniad crynodol a fydd yn cyfrannu at arfarniad yr ysgol o 'Ddatblygiad Personol (4.2)'**

Caiff y disgyblion gyfleoeddd cyfoethog i ddatblygu eu sgiliau drwy wersi a gweithgareddau Addysg Grefyddol. Drwy waith elusenol cyson datblygir agweddau moesol y disgyblion. Mae cynlluniau a themâu diddorol yn eu lle sydd yn cael eu hadolygu a'u diweddaru gan y cyd- lynydd a'r staff er mwyn ennyn diddordeb y disgyblion. Ceir lle blaenllaw i lais y plentyn wrth gynllunio o fewn y maes.

**Enw'r pennaeth: Nia Wyn Efans**
**Llofnod y pennaeth:** *N.W.Efans*
**Dyddiad: 27/9/19**

This page is intentionally left blank


# Ysgol Gymuned Llannerch y Medd.




# Hunan Arfarnu Addysg Grefyddol.

# Medi 2019.

YSGOL GYMUNED LLANERCHYMEDD




| **Maes Arolygu 1: Safonau.** | **Tystiolaeth.** |
|---|---|
| • Mae safonau Addysg Grefyddol ar draws yr ysgol yn foddhaol. Mae’r ysgol eisoes wedi adnabod hyn a bellach mae codi statws a safonau yn y pwnc yn un o flaenoriaethau ein CDY 2019-2020.<br>• Mae lle i gredu fod safonau Addysg Grefyddol yn y  Cyfnod Sylfaen ychydig yn well na CA2 gan fod yr adran wedi wedi bod hefo cyd –lynnydd oedd yn addysgu’r pwnc yn wythnosol ac felly roedd Addysg Grefyddol yn cael ei amserlennu yn gadarn. Serch hyn, roedd diffyg amser yn effeithio ar ansawdd y gwaith oedd yn cael ei gyflawni.<br>• Bellach, mae gennym gyd lynnydd newydd yn y Cyfnod Sylfaen a CA2 ble mae’r pwnc yn cael ei amserlennu yn gadarn wythnosol gyda chynlluniau o flaen llaw  yn cael eu paratoi.<br>• Mae disgyblion CS wedi cael cyfle i archwilio i’r grefydd Sikiaeth a Christnogaeth a disgyblion CA2 wedi archwilio i grefydd Bwdhaeth a Christnogaeth.<br>•  Mae taith ddysgu o gwmpas yr ysgol yn dangos fod arddangosfeydd  lliwgar a deniadol yn dangos tystiolaeth o |  |


| | |
|---|---|
| ddisgyblion yn astudio y grefydd Sikiaeth,Bwdhaeth a gweithgareddau sydd yn datblygu eu medrau meddwl, au creadigrwydd.<br>• Mae adroddiadau craffu ar lyfrau yn dangos fod disgyblion yn datblygu eu medrau ar draws y cwricwlwm wrth gyflawni gweithgareddau Addysg Grefyddol ond mae angen sicrhau fod hyn yn digwydd yn gyson ac ar draws yr ysgol.<br><br>**BARN :DA.** |    |
| **<u>Materion Gweithredu:</u>** | |
| • **<u>Sicrhau fod Addysg Grefyddol yn cael ei amserlennu yn gadarn wythnosol.</u>**<br>• **<u>Sicrhau fod unedau o waith Addysg Grefyddol yn cael eu cynllunio o flaen llaw.</u>** | |
| **<u>Maes Arolygu 2 : Lles ac agweddau at ddysgu.</u>** | **<u>Tystiolaeth.</u>** |
| • Mae disgyblion yn mwynhau dysgu am gredoau gwahanol a sesiynau myfyrdod. Maen't yn cael eu hannog a'u harwain i feddwl am bobl eraill, sefyllfaoedd gwahanol ac ymateb i gwestiynau mawr y byd. | |

| | |
|---|---|
| • Mae adroddiad Craffu ar lyfrau yn nodi fod Cwestiynau Mawr y Byd yn cael eu trafod yn bennaf yn CA2 ac fod lle i ffrydio hyn yn is i lawr yr ysgol.<br>• Mae cyfleoedd myfyrdod yn digwydd yn wythnosol yn y dosbarth mewn amser cylch ac yn y gwasanaethau. Bydd disgyblion yn cael cyfle i fyfyrio yn dawel ac ystyried eu teimladau, gwerthoedd, digwyddiadau ac ati.<br>• Mae canlyniad trafodaethau dosbarth a rhwng staff yn nodi fod angen ymestyn profiadau dysgu Addysg Grefyddol yn ehangach na gweithgareddau crefyddol o'r beibl yn unig ac fod angen amserlennu y pwnc yn fwy effeithiol. Mae adroddiad ymweliad thematig Estyn ar Iechyd a LLes yn Tachwedd 2018 yn dynodi fod y maes yma yn dda iawn gyda elfennau rhagorol.<br>•<br>**BARN : DA IAWN** |      |
| **<u>Materion Gweithredu:</u>** | |
| • Mae angen codi gwell statws a dealltwriaeth i'r pwnc yma i bron pob un aelod o staff er mwyn sicrhau fod meddylfryd positif yndigwydd wrth addysgu'r maes.<br>• Sicrhau fod Addysg Grefyddol yn cael lle amlwg mewn holiadur Lles. | |
| **Maes Arolygu 3 : Addysgu a phrofiadau dysgu mewn Addysg Grefyddol.** | |

- Mae’r ysgol  yn bodloni gofynion statudol Addysg Grefyddol ond mae’r ysgol yn cydnabod fod  lle i wella ar hyn ymhellach.
- Bellach mae dau wasanaeth Ysgol Gyfan un ar gychwyn yr wythnos ac un ar ddiwedd yr wythnos. Bydd un gwasanaeth o dan arweiniad athrawes CS a llall o dan arweiniad ficer y plwyf. Mae ymweliad wythnosol gan y ficer yn drefniant effeithiol sydd yn bodoli ers 3 mlynedd yn yr ysgol. Bydd hefyd gwasanaethau Cyfnod Sylfaen ac Adran Iau yn digwydd yn ogystal ac amser cylch neu sesiynau trafodaethau i ymateb digwyddiadau’r byd.
- Mae’r disgyblion yn cymryd rhan mewn gwasanaeth Diolchgarwch, Nadolig a Pasg a gynhelir yn eglwys y plwyf.
- Bellach mae addysg grefyddol wedi ei amserlennu yn wythnosol ar draws yr ysgol gyda cynlluniau yn eu lle ar gyfer y gwersi a gwasanaethau.
- Mae’r gweithgareddau a gynhelir yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o gredoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol yn ogystal a’u medrau pwnc a’u medrau trawsgwricwlaidd yn effeithiol.
- Mae’r ysgol yn hyrwyddo egwyddorion sy’n helpu disgyblion i wahaniaethu rhwng da a drwg.
- Mae amser cylch a thrafodaethau dosbarth yn rhoi cyfleoedd i ddatblygu gallu’r disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu gwerthoedd eu hunain.
- Mae asesu ar gyfer dysgu yn cael sylw blaengar ar draws yr ysgol felly mae’r adborth i waith y disgyblion yn ganmoladwy dros ben gyda camau nesaf i symud y dysgu ymlaen yn hollol amlwg.








| | |
|---|---|
| • Bellach mae Addysg Grefyddol yn flaenoriaeth y CDY 19-20 ac yn cael ei gynllunio fel pwnc arwahan ond o fewn y meysydd dysgu ac yn ateb gofynion y 4 diben.<br><br>**BARN: DA.** | |
| **Materion Gweithredu.** | |
| • **Sicrhau fod pob athro yn ymwybodol o ofynion Fframwaith Addysg Grefyddol.** | |
| **Maes Arolygu 4 : Gofal, Cymorth ac Arweiniad.** | |
| • Mae cyfleoedd addoli ar y cyd yn effeithiol iawn gyda'r cyfnodau wedi eu cynllunio o flaen llaw gan yr athrawes. Ceir cyfle i drafod a chodi ymwybyddiaeth am wasanaeth y Groes Goch, Barnados, di gartref, ail gylchu, cyflwyno moeswersi, chwedlau Aesop a gweddi gwahanol i bob gwasanaeth. Bydd ficer y plwyf hefyd yn cynnal gwasanaeth ysgol gyfan. Er fod y gwasanaethau yn cael eu cynllunio o flaen llaw, mae'r ysgol yn annog llais y disbybl ac weithiau bydd materion yn codi ganddynt hwy er mwyn trafodaeth, myfyrdod yn y gwasanaeth.Bydd y cyfnodau addoli ar y cyd yma yn helpu ac annog y disgyblion i ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol. |   |


- Mae gan pob dosbarth focs bwrw bol petai gan unrhyw ddisgybl breeder yna mae'n gallu rhannu ei bryder a aelod o staff.
- Mae canlyniadau holiadur lles yn nodi fod mwyafrif or disgyblion yn teimlo yn hapus a diogel yn yr ysgol ac eu bod yn teimlo fod ganddynt rhywun i droi ato petai'r angen.
- Bydd yr ysgol gyfan yn ymweld ar Capel neu'r Eglwys ddwy waith y tymor i gael gwasanaeth gan ficer y plwyf neu i gynnal gwasanaeth i aelodau'r gymuned.
- Yr ysgol yw calon y gymuned ac mae hyn yn bwysig iawn. Gwneir pob ymdrech i wahodd aelodau o'r gymuned i'r ysgol i fwynhau noson siopa, cyngherddau, bore coffi ac ati. Yn ogystal bydd criw o ddisgyblion yn ymweld a thai pensiynwyr yn y pentref i ganu carolau adeg y nadolig.
- Mae'r Cyngor eco yn sicrhau fod grwpiau o ddisgyblion yn mynd o gwmpas y pentref yn casglu sbwriel a gosodwyd posteri atal baw ci o gwmpas y pentref gyda chyd weithrediad y cyngor cymuned. Mae gan yr ysgol gyswllt agos gyda ficer y plwyf, swyddog lles yr ysgol yn ogystal ar gwasanaeth heddlu pcso fydd yn cynnal gweithdai i hyrwyddo agweddau gwahanol o ddiogelwch i'r disgyblion.
- Mae'r holl weithredoedd yma yn dylanwadu yn effeithiol ar y disgyblion  i fagu dealltwriaeth o'u diwylliant, cymuned ac i fod yn ddinasyddion gweithredol yn eu cymuned.


**BARN: DA IAWN.**












| | |
|---|---|
| • **Materion Gweithredu.** | |
| • **Dim byd penodol.** | |
| • **Maes Arolygu 5 :Arweinyddiaeth a Rheolaeth.** | |
| • Mae cyd lynnwyr yn monitro y pwnc yn gyson gyda arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau ganddynt hwy a’r panel cwricwlwm yn digwydd yn dymhorol. Bydd y wybodaeth yn cael ei rannu mewn adroddiad ar lafar ac yn ysgrifenedig gyda holl rhanddeiliad yr ysgol.<br>• Mae lle amlwg yng nghynlluniau wythnosol y staff ar gyfer lleisio llais y plentyn fel eu bod yn dylanwadu ar y dysgu, gwneud penderfyniadau ac yn rhan o’r arfarnu a gweithredu pellach.<br>• Mae £1000.00 yn cael ei ddyrannu i gyllido y flaenoriaeth yma 2019-2020. Bydd hy yn cynnwys buddsoddi mewn adnoddau a rhyddhau cyd lynnwyr.<br>• Prin iawn yw’r hyfforddiant sydd wedi bod ar gyfer datblygu arweinwyr yn y maes yma.<br><br>**BARN : BODDHAOL.** |  |
| • **Materion Gweithredu** | |
| • Sicrhau fod staff yn mynychu pob cyfle posib ar gyfer hyfforddiant i ddatblygu dealltwriaeth angenrheidiol er mwyn arwain y pwnc yn effeithiol. | |

**Sut y gall CYSAG fonitro safonau?**

**Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)**

Prif swyddogaeth CYSAG yw monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd a chynghori'r awdurdod lleol ar faterion sy'n ymwneud ag addysg grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae Cymdeithas CYSAGau Cymru yn credu y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol. Mae llawer o CYSAGau yn monitro safonau trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunanarfarniad Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd ag aelodau CYSAG.

**Gwybodaeth bellach:**

- Cymdeithas CYSAGau Cymru: www.wasacre.org.uk
- Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd: Cylchlythyr 10/94 (Swyddfa Gymreig)
- Felly rydych yn ymuno â'ch CYSAG lleol: llawlyfr ar gyfer aelodau CYSAGau yng Nghymru (Cym. CYSAGau C)
- Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, 2012);
- Adolygiad o Adroddiadau CYSAG (Llywodraeth Cymru, 2011 and 2013)

**Adran Addysg a Sgiliau Cymru (AdAS)**

Mae'r rhan fwyaf o CYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu'r 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3-19 oed yng Nghymru' neu'i addasu fel eu maes llafur cytûn. Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi addysg grefyddol yng Nghymru trwy ddarparu canllawiau i gefnogi athrawon, penaethiaid ac aelodau CYSAG. Maent yn cynnig gwybodaeth ddefnyddiol am ddulliau addysgu, adnoddau ac asesu. Roedd proses gymedroli allanol genedlaethol 2010 -12 yn gyfle i adrannau AG mewn ysgolion uwchradd ddangos eu dealltwriaeth o lefelau cyrhaeddiad Addysg Grefyddol.

**Gwybodaeth bellach**

- http://cymru.gov.uk > chwiliwch am Addysg Grefyddol
- Y Maes Llafur Cytûn (neu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011)
- Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng NghA 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed(2009)
- Pobl, Cwestiynau a Chredoau: Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (2013)
- Addysg Grefyddol: Adroddiad y Prif Safonwr 2012 (http://cbac.co.uk)

**ESTYN**

Mae arolygiadau ESTYN yn seiliedig ar bump maes arolygu:

1. Safonau
2. Lles ac agweddau ddysgu
3. Addysgu a phrofiadau dysgu
4. Gofal, cymorth ac arweiniad
5. Arweinyddiaeth a rheolaeth





Prin yw'r adroddiadau arolygiadau ysgol sy'n cynnwys sylwadau ar safonau Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Cyhoeddwyd adolygiad thematig o Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd ym mis Mehefin 2013 ac mae'n cynnig argymhellion i awdurdodau lleol, ysgolion a CYSAGau.

**Gwybodaeth bellach:**

- www.estyn.org.uk
- Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd (ESTYN, Mehefin 2013)
- Addysg grefyddol a moesol yng nghyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 (ESTYN, Haf 2018)
- Arweiniad atodol : addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (Hydref 2017)


DRAFT

**Pa dystiolaeth a ddefnyddir gan ysgolion wrth ddod i farn?**

| | |
|---|---|
| **Craffu ar lyfrau**<br> | Mae athrawon yn casglu sampl o waith disgyblion, (*e.e. amrediad o allu, oed, bechgyn a merched*) er mwyn helpu'r cydlynydd i ateb cwestiynau megis:<br>• Pa gynnydd a wneir gan ddisgyblion yn eu sgiliau AG? A oes grwpiau o ddisgyblion yn tangyflawni?<br>• I ba raddau y mae'r gwaith yn adlewyrchu gofynion y Maes Llafur Cytûn?<br>• I ba raddau y mae gwaith y dysgwyr yn datblygu'r medrau a nodir yn y Fframweithiau Llythrennedd, Rhifedd, a Chymhwysedd digidol Cenedlaethol<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu addysg grefyddol? |
| **Arsylwadau gwersi**<br> | Mae athrawon ac arweinwyr ysgol yn arsylwi gwersi er mwyn helpu'r cydlynydd i ateb cwestiynau megis:<br>• Pa gynnydd a wneir gan ddisgyblion yn eu sgiliau AG? A oes grwpiau o ddisgyblion yn tangyflawni?<br>• A yw'r dysgwyr yn dangos cymhelliant uchel? A ydynt yn cyfrannu i'w dysgu?<br>• I ba raddau y mae gwaith y dysgwyr yn adlewyrchu gofynion y Maes Llafur Cytûn?<br>• I ba raddau y mae gwaith y dysgwyr yn datblygu'r medrau a nodir yn y Fframweithiau Llythrennedd, Rhifedd a Chymhwysedd digidol Cenedlaethol?<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu addysg grefyddol? |
| **Holiaduron a chyfweliadau**<br> | Gall ysgolion ddadansoddi canlyniadau holiaduron a ddefnyddiwyd i ganfod barn disgyblion, athrawon a rhieni i gwestiynau megis:<br>• Beth yw eu barn am 'gynnwys' y gwersi AG? A oes grwpiau arwyddocaol o ddisgyblion/rhieni sy'n cynnig barnau gwahanol?<br>• Pa gynnydd a wneir ganddynt yn eu sgiliau Addysg Grefyddol?<br>• Beth yw eu rhagdybiaethau/barnau/agweddau tuag at Addysg Grefyddol?<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu addysg grefyddol? |
| **Data**<br><br> | Gall ysgolion ddefnyddio data asesiadau athro neu ganlyniadau arholiadau allanol (uwchradd yn unig) er mwyn adnabod tueddiadau neu batrymau?<br>• Pa mor dda y mae bechgyn/merched/grwpiau o ddisgyblion yn perfformio dros gyfnod? (*pob ysgol*)<br>• Pa mor dda y mae disgyblion ein hysgol/adran ni yn perfformio mewn cymhariaeth ag ysgolion/adrannau eraill? (*ysgolion uwchradd yn unig*)<br>• A oes grwpiau o ddisgyblion sy'n tangyflawni? (*pob ysgol*)<br>• Pa welliannau sydd angen i ni eu gwneud wrth i ni gynllunio, darparu ac asesu mewn addysg grefyddol? |
| **Eraill**<br><br>RE Quality Mark GOLD<br>Newyddion **Addysg Grefyddol**<br>**Religious Education** News | Gall barn ysgolion hefyd fod yn seiliedig ar dystiolaeth arall megis:<br>• Llwyddiant mewn cystadlaethau AG lleol neu genedlaethol;<br>• Cyfrannu tuag at ddigwyddiadau/cynadleddau/prosiectau/cyhoeddiadau lleol neu genedlaethol;<br>• Adroddiadau monitro gan aelodau eraill o'r staff *e.e. cydlynwyr llythrennedd rhifedd neu TGCh;*<br>• Cofnodion cyfarfodydd gyda staff, llywodraethwyr neu ymwelwyr CYSAG;<br>• Ymchwil gweithredu gan aelod o Gymuned Ddysgu Broffesiynol;<br>• Achrediad allanol, *e.e. Marc Ansawdd Addysg Grefyddol http://www.reqm.org/wales* |

## Canllawiau CYSAG (tudalennau 3, 4, 5 a 6)

**I ba raddau y mae ddarpariaeth yr ysgol yn hyrwyddo datblygiad personol y disgyblion? (Maes arolygu 4.2)**
Bydd arfarnu safonau a'r ddarpariaeth ar gyfer addysg grefyddol yn gymorth i'r ysgol arfarnu maes arolygu 4.2 sef 'Datblygiad personol (gan gynnwys datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol).

Mae arweiniad arolygu ESTYN (Medi 2017) ar gyfer datblygiad ysbrydol a moesol yn nodi:

> *"Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn hyrwyddo egwyddorion sy'n helpu disgyblion i wahaniaethu rhwng da a drwg. Dylent ystyried pa mor dda y mae'r ysgol yn datblygu gallu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain. Dylent ystyried i ba raddau y mae'r ysgol yn meithrin gwerthoedd sy'n cael eu rhannu, fel gonestrwydd, tegwch, cyfiawnder a chynaliadwyedd, ac yn helpu disgyblion i ddeall anghenion a hawliau pobl eraill yn lleol, ac fel aelodau o fyd eang ac amrywiol."*

O fewn amserlen cylch hunan arfarnu'r ysgol bydd angen ystyried pa dystiolaeth fydd yn helpu'r ysgol ddod i farn ar maes arolygu 4.2. Mae gan addysg grefyddol ac addoli ar y cyd gyfraniad pwysig i'r maes hwn.

Mae'r cwestiynau enghreifftiol canlynol yn seiliedig ar Fframwaith Arolygu Cyffredinol ESTYN (Medi 2017) a'r cwestiynau a defnyddiwyd gan ESTYN yn ystod arolygiad thematig ar addysg grefyddol yn ystod tymor yr Hydref 2017. Nid oes disgwyl i ysgol ateb pob cwestiwn, ond o drafod rhain gyda staff, llywodraethwyr, disgyblion ac ymgynghorydd cefnogi gwelliant bydd ysgol yn gallu adnabod cryfderau a meysydd gwella fydd yn eu galluogi i gynllunio gwelliannau.

### Maes Arolygu 1: Safonau

Cofiwch gynnwys geirfa feintiol ac arfarnol ac enghreifftiau o waith 'go iawn'!

- Beth yw eich barn am safonau addysg grefyddol yn eich ysgol? *(Disgyblion CS, CA2, CA3, CA4, CA5)*
- Pa mor dda y mae disgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol?
- I ba raddau mae grwpiau o ddisgyblion yn gwneud cynnydd mewn addysg grefyddol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd?
- I ba raddau mae disgyblion yn defnyddio'u medrau siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu, rhifedd a TGCh yn briodol mewn addysg grefyddol?
- Rhowch enghraifft o sut mae'r disgyblion wedi datblygu eu medrau meddwl, eu creadigrwydd a'u medrau corfforol mewn gweithgareddau addysg grefyddol yn yr ystafell ddosbarth a thu allan?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

### Maes Arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu

Cofiwch gynnwys geirfa feintiol ac arfarnol ac enghreifftiau o waith 'go iawn'!

- A yw'r disgyblion yn dangos diddordeb mewn addysg grefyddol?
- Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi addysg grefyddol?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

### Maes Arolygu 3: Addysgu a phrofiadau dysgu

Cofiwch gyfeirio at enghreifftiau o'r darpariaeth. Amser i'r pwnc? % sy'n dewis fel opsiwn Ast. Cref? % sy'n cael achrediad am AGref statudol.

- Sut ydych yn gwybod bod eich ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addysg grefyddol?
- Sut mae addysg grefyddol yn cael ei haddysgu yn eich ysgol?
- A yw'r addysg grefyddol yn llwyddo i ennyn ddiddordeb y disgyblion?
- Pa mor dda y mae'r gwersi/gweithgareddau yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o gredoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol yn ogystal a'u medrau pwnc a'u medrau trawsgwricwlaidd?



DRAFT

- Beth yw ansawdd y cynllunio ar gyfer addysg grefyddol? (adeiladu ar wybodaeth, dealltwriaeth a medrau blaenorol? amcanion clir? dulliau addysgu? adnoddau?)
- Pa mor dda y mae'r adborth mewn addysg grefyddol yn helpu disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn ei wneud a beth mae angen iddynt ei wneud i wella?
- Ym mha ffyrdd ydych chi'n asesu ac yn olrhain cynnydd disgyblion mewn addysg grefyddol?
- Sut mae'r cynllunio ar gyfer addysg grefyddol yn helpu'r disgyblion i fod yn unigolion uchelgeisiol, hyderus, dyheadol a gwybodus? A ydych wedi dechrau ymateb i argymhellion 'Dyfodol Llwyddiannus'?
- I ba raddau y mae'r ysgol yn rhoi ystod eang a phriodol o brofiadau, tu fewn a thu allan i'r dosbarth, er mwyn datblygu diddordeb a medrau'r disgyblion mewn addysg grefyddol?
- A yw'r ysgol yn trefnu unrhyw deithiau neu ymweliadau sy'n gysylltiedig ag addysg grefyddol? Pa grwpiau blwyddyn, pa mor aml, a sut mae'r teithiau hyn yn cyfoethogi'r cwricwlwm?
- A yw'r addysg grefyddol yn adlewyrchu natur cyd-destun yr ysgol? A yw'n adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol, ieithyddol ac ethnig Cymru ac ardal leol yr ysgol?
- I ba raddau mae'r gweithgareddau addysg grefyddol yn rhoi cyfleoedd cynyddol pwrpasol i ddisgyblion ymarfer a datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh i'r safon briodol?'
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?


**Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad**

- I ba raddau mae gwersi/gweithgareddau addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol?
- Sut mae'r disgyblion yn dylanwadau ar yr hyn y maent yn ei ddysgu mewn addysg grefyddol?
- A yw'r ysgol yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgareddau cymunedol neu a oes ganddi gysylltiadau ag unrhyw arweinwyr neu sefydliadau ffydd?
- Beth yw cyfraniad addysg grefyddol i ddealltwriaeth disgyblion o'u diwylliant, y gymuned leol a'r byd ehangach?
- Rhowch enghreifftiau o sut mae addysg grefyddol wedi helpu disgyblion i ddeall materion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, ystrydebau neu eithafiaeth crefyddol, hawliau dynol?
- I ba raddau mae'r ysgol yn helpu disgyblion i ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol?
- Pa mor dda mae'r ysgol yn datblygu gallu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain?
- A yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol parthed addoli ar y cyd?
- Beth yw ansawdd yr addoli ar y cyd? Pa mor dda y mae'r ysgol yn ei gynllunio dros gyfnod?
- Sut mae'r ysgol yn cadw disgyblion yn ddiogel rhag peryglon radicaleiddio, *e.e. deunydd eithafol naill ai drwy siaradwyr gwadd neu siaradwyr ar ymweliadau a safleoedd*?
- Sut ydych chi'n sicrhau y caiff pryderon ynghylch sylwadau a wneir gan ddisgyblion yn ystod gwersi addysg grefyddol eu hystyried yn briodol?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

**Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth**

- A oes gan yr arweinydd pwnc addysg grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol?
- A yw'r staff yn gallu manteisio ar ddatblygiad proffesiynol mewn addysg grefyddol?
- Sut ydych yn dyrannu adnoddau i gynorthwyo i addysgu addysg grefyddol?
- Sut caiff rhieni eu hysbysu am eu hawl i dynnu disgyblion o wersi addysg grefyddol? Sawl disgybl sy'n cael eu tynno o wersi addysg grefyddol gan eu rhieni ac a oes gan yr ysgol drefniadau da i ddarparu ar eu cyfer yn ystod gwersi addysg grefyddol? A yw'r nifer hon wedi cynnydd/gostwng/aros yr un fath dros y 5 mlynedd diwethaf? O ba grwpiau y daw'r disgyblion hyn? A ydych yn cael sgwrs a rhieni ynghylch eu penderfyniad?
- Ym mha ffyrdd y mae darpariaeth eich ysgol ar gyfer addysg grefyddol yn helpu i hyrwyddo cydlyniad cymunedol gwell?
- Pa mor aml ydych chi'n monitro addysg grefyddol? Sut caiff y wybodaeth hon ei rhannu a staff perthnasol eraill?
- A ydych yn ystyried safbwyntiau disgyblion yn yr adroddiad hunan-arfarnu a'r cynlluniau gweithredu?
- A ydych yn cydweithio gydag athrawon sy'n addysgu addysg grefyddol mewn ysgolion eraill? Beth yw effaith hyn?
- Beth yw'r 'enghraifft gorau o addysg grefyddol' y gallwch ei rannu gyda'ch CYSAG lleol neu gydag athrawon eraill?
- Pa faterion gwella sydd angen sylw yn ystod y flwyddyn nesaf?

**Sut y gall CYSAGau fonitro safonau?**




**Sut y gall CYSAG gywain gwybodaeth?**

- trwy ofyn i ysgolion gyflwyno gwybodaeth a hunanarfarniad;
- trwy gomisiynu 'arbenigwr' i ymweld â sampl o ysgolion a darparu adroddiad tymhorol;
- trwy drefnu bod yr aelodau yn ymweld ag ysgolion;
- trwy ofyn i ddisgyblion, staff a llywodraethwyr mewn sampl o ysgolion gwblhau holiadur ar-lein;
- trwy edrych ar ganlyniadau arholiadau allanol ac asesiadau athro CA3 (ysgolion uwchradd yn unig)

**Pa ffynonellau sydd ar gael yn eich hardal chi?**

- Dadansoddiad o adroddiadau hunan arfarnu ysgolion;
- Dadansoddiad o bolisïau, cynlluniau gwaith, cynlluniau datblygu ysgolion;
- Data perfformiad ysgolion: asesiadau athrawon CA3, canlyniadau TGAU, Safon UG/A;
- Adroddiadau ymweliadau ysgol gan aelodau CYSAG;
- Dadansoddiad o holiaduron ysgol, arolygon ar-lein (disgyblion, staff, llywodraethwyr) wedi'u cyflwyno gan benaethiaid, cydlynwyr neu CYSAG/Cymdeithas CYSAGau Cymru;
- Cyflwyniadau gan gydlynwyr, athrawon, penaethiaid, disgyblion;
- Llwyddiant mewn cystadleuaethau, achrediadau allanol.

**Rhifau - meintiau a chyfrannau**

| | | |
|---|---|---|
| bron bob un | = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf | = | 90% neu fwy |
| llawer | = | 70% neu fwy |
| mwyafrif | = | dros 60% |
| tua hanner | = | agos at 50% |
| lleiafrif | = | o dan 40% |
| ychydig | = | o dan 20% |
| ychydig iawn | = | llai na 10% |

**Pwy sy'n cyfrannu tuag at y monitro?**

- athrawon ac aelodau o UDRh ysgolion
- aelodau CYSAG
- swyddogion Awdurdod Lleol/GwE
- athrawon a nodwyd fel athrawon neilltuol
- disgyblion
- llywodraethwyr
- rhieni

| | |
|---|---|
| **Rhagorol**<br>**Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig**<br>arbennig, da iawn, cryf iawn, eithriadol, yn rhagori ar, arbennig, ardderchog, gwych, safon uchel iawn, ansawdd uchel iawn, ymestynnol, creadigol iawn, ymhell uwchlaw'r disgwyliadau, effeithiol iawn, hyfedr, meistrolgar | **Da**<br>**Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau**<br>llwyddiannus, cryf, cadarn, medrus, buddiol, gwerthfawr, cadarnhaol, trwyadl, defnyddiol, nerthol, grymus, cynhwysfawr, defnydd da, cyson dda, effeithiol, pwrpasol |
| **Digonol ac angen gwelliant**<br>**Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella**<br>boddhaol, priodol, addas, effeithlon, cymwys, perthnasol, digonol, digon, dilys, cadarn, diogel, canolig, cyson, cymedrol, anghyson, | **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys**<br>**Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau**<br>annigonol, aneffeithlon, dim, amhriodol, aneffeithiol, anaddas, methu, gwan, gwael, cyfyngedig. |

**Geiriau/ymadroddion defnyddiol**

Mae xxx wedi arwain at....
O ganlyniad i xxx mae safonau xxx wedi codi xx% er xx
Yn dilyn cyflwyno xxx mae xxx wedi gwella, fel y dangosir gan ...
Dengys xxx fod safonau xxx wedi...
Gwelir effaith xxx yn xxx sy'n dangos bod....
Gellir gweld gwelliant mewn xxx yn ....
Gellir gweld dylanwad xxx yn y gwelliant/cynnydd...
Dengys XXXXX bod x% o'r disgyblion yn gallu/bod gan x% o'r disgylion ...
Dengys xxx bod x% o'r rhieni/staff/llywodraethwyr yn....

**Beth ddylid ei gynnwys?**

- **Effaith ymyrraeth** ar (safonau, lles, addysgu, agweddau, gwerthoedd)
- **Tueddiadau** dros gyfnod
- **Cymhariaeth** ag ysgolion eraill (?)
- **Barn** - defnyddio termau arfarnol
- **Meintioli** pa bryd bynnag y bo'n bosibl

**Enw'r Ysgol: GYMRAEG MORSWYN**

**Addysg Grefyddol**

**Maes arolygu 1: Safonau Addysg Grefyddol**
***Pa mor dda y mae disgyblion yn ymdrin â'r cwestiynau sylfaenol, yn archwilio i gredoau, dysgeidiaethau ac arfer(ion) crefyddol ac yn mynegi ymatebion personol i gredoau, dysgeidiaethau, arferion, a chwestiynau sylfaenol? Beth welwch chi yn eu gwaith sy'n dangos eu cynnydd dros amser?***

- Defnyddiwch: gwaith y disgyblion, asesiadau athrawon, teithiau dysgu, arsylwadau gwersi i lunio barn.
- I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, adroddiadau arholwyr CBAC.

Nodiadau:

CYFNOD SYLFAEN
Mae gallu'r disgyblion i drafod a galw i gof yn datblygu ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen ac erbyn brig y Cyfnod Sylfaen mae bron pob un yn gallu trafod a gofyn cwestiynau.
Gall bron pob un siarad am eu teimladau eu gweithrediadau a'u barnau erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen ac y mae rhai yn disgrifio a chynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill.
Datblygir gallu y plant i ddefnyddio geirfa grefyddol syml ar draws y Cyfnod Sylfaen a bydd ambell un yn dechrau dod i gydnabod fod ystyr ddyfnach i symbolau crefyddol.

CYFNOD ALLWEDDOL 2
Yng ngwaelod Cyfnod Allweddol 2 mae rhan fwyaf yn gallu galw i gof, ymateb a chyfathrebu'n syml rai o'r credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol sylfaenol yr ymchwilir iddyn nhw. Byddan nhw'n awgrymu mewn termau syml pam y mae 'r agweddau hyn ar grefydd yn bwysig i rai pobol. Mae rhai yn dechrau gwneud cysylltiadau rhwng y credoau.
Ym mrig Cyfnod Allweddol 2 mae rhai o'r disgyblion yn gallu disgrifio credoau neilltuol, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol a sut mae rhai o'r agweddau hyn ar grefydd yn effeithio ar fywydau credinwyr. Gall ambell un o'r disgyblion wneud cysylltiadau rhwng credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol gan ddisgrifio'r effaith ar fywydau credinwyr ac yn nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol o fewn ac ar draws y crefyddau.

Yng ngwaelod Cyfnod Allweddol 2 mae y rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu disgrifio eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain ac yn cynnig sylwadau syml ar safbwyntiau pobl eraill. Mae y rhan fwyaf yn dechrau cydnabod bod ystyr i symbolau crefyddol a byddan nhw'n defnyddio geirfa crefyddol syml yn addas.
Ym mrig Cyfnod Allweddol 2 mae rhai o'r disgyblion yn gallu esbonio sut mae eu teimladau, eu gweithrediadau a'u barnau eu hunain yn effeithio ar eu bywydau, ac yn disgrifio sut mae safbwyntiau pobl eraill yn yr un modd yn effeithio ar eu bywydau nhw. Maent yn defnyddio ystod o eirfa grefyddol yn addas ac yn dangos dealltwriaeth sylfaenol o iaith symbolaidd. Mae cynnydd arbennig o dda gan

Yng ngwaelod Cyfnod Alweddol 2 mae'r disgyblion yn gallu siarad a gofyn cwestiynau am eu profiadau eu hunain, y byd o'u cwmpas ac agweddau ar grefydd. Maent yn gallu trafod y cwestiynau sy'n codi o'u profiadau eu hunan gan gynnig eu barn eu hunain.
Ym mrig Cyfnod Allweddol 2 mae llawer o'r disgyblion yn gallu trafod eu hymatebion hwy ac eraill i gwestiynau am fywyd, y byd o'u cwmpas a chrefydd. Gellir gweld gwelliant yn nealltwriaeth a gwaith Blwyddyn 6 Haf 2019 yn arbennig wrth drafod safbwyntiau a dealltwriaeth am grefyddau amrywiol. Mae lleiafrif o'r disgyblion yn gallu mynegi a chyfiawnhau eu syniadau a barnau am gwestiynau sylfaenol yn ôl eu hymchwiliadau a'u profiadau eu hunain.

Datblygwyd creadigrwydd bron bob un o disgyblion ar frig yr ysgol wrth greu gwasanaeth arbennig ar gyfer DIolchgarwch yn y capel lleol. Datblygwyd sgiliau siarad a gwrando llawer o ddisgyblion CA2 wrth berfformiadau gwasanaeth Diolcharwch a Nadolig yn y capel ac eglwys lleol i amrywiol gynulleidfaoedd. Adroddiadau a presenoldeb aeoldau C.Ll yn cadarnhau hyn ac ei fod yn gryfder o fewn yr ysgol.

**Materion i gael sylw**
**CYFNOD SYLFAEN**

- Parhau i ddatblygu geirfa grefyddol.
- Datblygu dealltwriaeth o effaith crefydd ar fywydau credinwyr.

**CYFNOD ALLWEDDOL 2**

- Cynllunio cyfleoedd dysgu addas sydd yn ymestyn a herio sgiliau'r disgyblion.

**Mae safonau addysg grefyddol ein disgyblion yn: Dda**

**Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu am Addysg Grefyddol?**
***Beth ydych chi'n teimlo y mae disgyblion yn ei ennill o wersi addysg grefyddol?***

- Defnyddiwch: gwaith disgyblion, dadansoddiad o holiadur addysg grefyddol, cofnodion grwp ffocws/Cygnor Ysgol
- I'ch helpu mae: Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017),

Nodiadau:

Y rhan fwyaf o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn dangos diddordeb da mewn addysg grefyddol. Braon bob un o ddisgyblion ar frig y CS wedi mwynhau ac ennill llawer o'r profiad o berfformio seremoni bedydd yn yr Eglwys lleol. Y rhan fwyaf o ddisgyblion ar frig yr ysgol yn gallu gofyn cwestiynau diddordol ac addas wrth holi gweinidog lleol am ei rol a'i waith.

Y rhan fwayf o ddisgyblion yn CA2 yn datblygu sgiliau gwrando, parch at eraill a diddordeb yng nghrefyddau eraill o fod mewn gwersi addysg grefyddol.

Yn CA2 Annogir y disgyblion i ddod wyneb yn wyneb a chwestiynau mawr bywyd. Pwy wyf fi? Beth sy'n iawn? er mwyn datblygu eu sgiliau ymholi. Datblygir ochr ysbrydol a moesol drwy : feithrin ysbryd gymunedol, hyrwyddo gwerthoedd da a gofalu am eraill. Yn ystod y flwyddyn bydd sawl cyfle i gefnogi gwahanol elusennau.

Gwaith cyngor ysgol yn cyd blethu ag addysg grefyddol gyda cyfleodd niferus i holl ddisgyblion yr ysgol fod yn ran o weithgareddau casglua arian at nifer o achosion da lleol, cenedlaethol ac ar draws y byd.

**Materion i gael sylw**
**CYFNOD SYLFAEN**

- Parhau i ddatblygu geirfa grefyddol.

**CYFNOD ALLWEDDOL 2**

- Cynllunio cyfleoedd dysgu addas sydd yn ymestyn agweddau a profiadau am grefyddau ar draws y byd

**Mae agweddau disgyblion tuag at addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: Dda**

**Maes arolygu 3: Addysgu ac phrofiadau dysgu mewn Addysg Grefyddol?**
***Pa mor dda yw'r cynllunio a'r addysgu mewn addysg grefyddol? Rhowch enghreifftiau o brofiadau addysg grefyddol cyfoethog***

- Defnyddiwch: teithiau dysgu, arsylwadau gwersi, gwaith disgyblion, holi disgyblion
- I'ch helpu mae: Maes Llafur Cytûn Lleol (Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol); Arweiniad Llywodraeth Cymru: Pobl, Cwestiynau a Chredoau (2013), Canllawiau a Phroffiliau Enghreifftiol CA2 a CA3 (2011), 14-19 (2009), Canllawiau CYSAG, Addysg grefyddol mewn ysgolion uwchradd (ESTYN, Haf 2013), Addysg grefyddol a moesol yng NghA2 a ChA3 (ESTYN, Haf 2018)

Nodiadau:

**CYFNOD SYLFAEN**

- Neilltuir sesiwn ar gyfer Addysg Grefyddol yn y cyfnod sylfaen. Addysgir y maes gan yr athrawon dosbarth.
- Mae athrawon y Cyfnod Sylfaen yn gyfarwydd â'r fframwaith enghreifftiol cenedlaethol ar gyflwyno Addysg Grefyddol gan adnabod y sgiliau penodol sy'n ymwneud â phobl, credoau a chwestiynau drwy'r meysydd Gwybodaeth a

DRAFT

Dealltwriaeth o'r Byd a datblygiad Personol a Chymdeithasol Lles ac Amrywiaeth Ddiwylliannol.

- Mae'r plant yn cael amrywiaeth o brofiadau sy'n rhoi cyfle iddynt wneud cynnydd mewn gwybodaeth a dealltwriaeth a sgiliau trafod a rhesymu.
- Mae adnoddau storïol, llyfrau gwybodaeth, llyfrau mawr, arteffactau, adnoddau TGCh, ymweliadau/ymwelwyr i'r ysgol i gyd yn creu diddordeb ac yn cyfoethogi'r ddarpariaeth yn y maes.
- Annogir y plant i ddysgu parchu llyfrau a gwrthrychau sanctaidd a dod yn gyfarwydd â rhai o'r hanesion ynghlwm â hwy ynghyd â dysgu am arwyddocad digwyddiadau crefyddol arbennig.

Mae'r agweddau Crefyddol o fewn y meysydd yn cael eu darparu yn dda yn y Cyfnod Sylfaen.

**CYFNOD ALLWEDDOL 2**

- Neilltuir sesiwn o leiaf awr ar gyfer Addysg Grefyddol ar draws Cyfnod Allweddol 2. Addysgir y maes gan yr athrawon dosbarth.
- Mae'r ddarpariaeth yn dda ar draws y cyfnod gyda'r cynlluniau yn sicrhau dilyniant a datblygiad.
- Annogir y disgyblion i ddod wyneb yn wyneb a chwestiynau mawr bywyd. Pwy wyf fi? Beth sy'n iawn? er mwyn datblygu eu sgiliau ymholi. Datblygir ochr ysbrydol a moesol drwy : *feithrin ysbryd gymunedol, hyrwyddo gwerthoedd da a gofalu am eraill. Yn ystod y flwyddyn bydd sawl cyfle i gefnogi gwahanol elusennau*.
- Mae addysg grefyddol yn ennyn diddordeb disgyblion CA2 – wrth wneud taith ddysgu Ionawr 2019 gyda aeoldau C.Ll gwelwyd brwdfrydedd mawr wrth ymchwilio i grefyddau a chreu cyflwyniadau digidol ohonynt. Mae eu sgiliau trawsgwricwlaidd yn datblygu'n dda. Wrth arsylwi gwersi Mawrth 2019 gwelwyd cynnydd arbennig o dda yn gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o gredoau gwahanol ac eu dealltwriaeth o arteffactau crefyddol.
- Manteisir ar gyfleoedd i fynd a plant allan ar ymweliadau â addoldai. Yn flynyddol bydd y plant yn paratoi gwasanaeth Diolchgarwch yn un o'r capeli lleol. Mae gwasanaethau Nadolig hefyd yn cael eu paratoi o fewn yr ysgol a hefyd perffomiadau noferus Nadoligaidd mewn sawl gwasanaeth coffa ac mewn cartrefi henoed lleol. Cafwyd croeso arbennig am waith a perfformiadau yng nghartref Penucheldre Nadolig 2018 gyda sylwadau fod y prynhawn wedi codi ysbryd a teimlad o hapusrwydd i nifer oedd yn cael yr amser o'r flwyddyn yn anodd.

**Materion i gael sylw**
**CYFNOD SYLFAEN**

- Sicrhau mwy o deithiau addysgol i addoldai
- Parhau i ddatblygu tasgau ymestynnol ar gyfer disgyblion mwy galluog

**CYFNOD ALLWEDDOL 2**

- Datblygu cydweithio presennol gyda Ysgol Gaelscoil Thaobh na Coille yn Dun Laoghaire i gynnwys gwaith trawsgwricwlaidd addysg grefyddol gan gymharu gwahaniaethau yn yr amrywiaeth diwylliannol i gyd fynd a'r gwaith sy'n cael ei wneud yn bresennol.
- Sicrhau ymweliadau i addoldai yn yr Iwerddon i gymharu a cyfoethogi yr hyn sydd yn cael ei wneud ganddo i ddatblygu eu dealltwriaeth o grefydd mewn gwlad gyfagos.
- Parhau i ddatblygu tasgau ymestynnol ar gyfer disgyblion mwy galluog.

**Maes safonau addysgu addysg grefyddol yn ein hysgol ni yn: Dda**

**Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad mewn Addysg Grefyddol?**
***I ba raddau mae gwersi/gweithgareddau addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fyfyrio ar ymatebion crefyddol ac anghrefyddol i gwestiynau sylfaenol ac i fyfyrio ar eu credoau neu eu gwerthoedd eu hunain? Sut mae addysg grefyddol yn helpu disgyblion i fod yn ddinasyddion gweithredol? I ba raddau y mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd sicr a sefydlu eu credoau ysbrydol a moesegol?***

- Defnyddiwch: teithiau dysgu, cyfweliadau gyda disgyblion, rhaglen addoli ar y cyd yr ysgol, cylchlythyr ysgol, cofnodion yr ysgol o unrhyw troseddau casineb/bwlio.
- I'ch helpu mae: Canllawiau CYSAG, Canllawiau ynglyn â addoli ar y cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru), Arweiniad atodol: addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (ESTYN, Hydref 2017), Arweiniad atodol: gwrando ar ddysgwyr (ESTYN, Medi 2017)



DRAFT

Nodiadau:

Darperir addoli ar y cyd yn ddyddiol ar lefel dosbarth ac ysgol. Mae'r addoliad yn gyfan gwbwl o natur Gristnogol. Mae gan rieni hawl i eithrio eu plant os dymunant.

Mae'r addoli ar y cyd yn gyfle i feithrin datblygiad moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Mae'n hyrwyddo ethos a gwerthoedd.
Mae'r plant yn cael eu hannog i wrando, gwylio a myfyrio ar yr addoliad.
Fel rhan o'r addoliad bydd y plant yn cael cyfle i ganu, gweddio ac i ddarllen. Hefyd manteisir ar y cyfle yma i ddatblygu agweddau ar ABaCh a Dinnasyddiaeth Fyd Eang.

Yn achlysurol bydd siaradwyr gwadd yn dod i gyflwyno neges neu sgwrs i'r plant. Bydd cyfle iddynt gymryd rhan flaenllaw yn y gweithgareddau ac actio rhannau o storiau'r Beibl.

Mae gweithgareddau cymunedol niferus yn digwydd gan gynnwys darparu gwasnaethau Diolchgarwch a Nadolig yn y Capel, Eglwys a chartrefi henoed lleol. Mae cyswllt gyda gweinidog lleol ac o ardal Caernarfon sydd yn ymweld yn dymhorol. Perfformwy gwasanaeth hefyd i henod o Gaernarfon a fu'n ymweld a'r ysgol gyda canmoliaeth mawr am agweddau, ymdrech a safon y canu a darlleniadau. Casglir bwyd at y banc bwyd lleol gyda nifer arbennig o dda yn cael ei gasglu adeg Nadolig 2018.

**Materion i gael sylw**
**CYFNOD SYLFAEN**

- Sicrhau mwy o deithiau addysgol i addoldai
- Parhau i ddatblygu tasgau ymestynnol ar gyfer disgyblion mwy galluog

**CYFNOD ALLWEDDOL 2**

- Datblygu mwy o waith ar gadw disgyblion yn ddiogel rhag radicaleiddio
- Datblygu dealltwriaeth y disgyblion o eithafiaeth crefyddol mewn modd addas ond effeithiol
- Efelychu yr arferion rhagorol ymhob gwasanaeth

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ydy'r ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ar gyfer addoli ar y cyd?** | **Ydy** | **/** | **Nac ydy** |
| **Mae cyfraniad addysg grefyddol i ddatblygiad personol disgyblion a chydlyniad cymunedol yn: Dda** | | | |

**Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth mewn Addysg Grefyddol?**
***A oes gan yr arweinydd pwnc addysg grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol? Sut ydych yn gwybod?***

- Defnyddiwch: cynlluniau gwaith, adroddiadau monitro ac hunan arfarnu, arfarniad o ddata, cyfweliadau gyda'r cydlynydd a'r llywodraethwr dynodedig/ymwelydd CYSAG, cofnodion cyfarfodydd staff, cynllun gwella, arfarniad cynnydd, astudiaeth achos yn dilyn cydweithio ysgol-i-ysgol.
- I'ch helpu mae: canllawiau CYSAG

Nodiadau:

- Mae gan yr arweinydd pwnc addysg grefyddol y medrau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i arwain y pwnc yn effeithiol. Gwelir hyn yn gallu a hyder yr athrawon wrth gyflawni y gwaith ac yn rol yr arweinydd o rannu arbennigedd ac adnoddau yn effeithiol.
- Mae'r staff yn cynllunio ar y cyd, rhannu syniadau ac yn eu cyd weithio ysgol i ysgol yn rhoi cyfran addas o'r amser i addysg grefyddol sydd felly yn rhoi datblygiad proffesiynol mewn addysg grefyddol iddynt.
- Mae bron bod gwers yn defnyddio adnoddau yn arbennig o dda wrth addysgu addysg grefyddol. Gwneir defnydd o adnoddau gan gapeli ac eglwysi lleol a hefyd o wenud defnydd o weinidog lleol sydd yn rhannu amser ei ymweliadau yn addas rhnwg y CS a CA2.
- Dim ond un disgybl sydd wedi ei thynnu o wersi addysg grefyddol ar gais y teulu. Gwneir defnydd effeithiol o'r amse ryma iddi gan ddarparu gwaith arall sydd yn rhoi cyfle i barhau i welld ei sgiliau rhifedd a llythrennedd. Nifer hyn wedi aros yn gyson, plentyn yn Bl 5 erbyn hyn a'r trefniant mewn lle ers Bl Meithrin.
- Mae'r ysgol yn chwarae rhan bwysig yn ein cymuned lleol gyda nifer fawr o wahoddiadau i berfformio a paratoi

gwasanaethau / cyngherddau lleol. Nifer fawr o'r disgyblion yn ran o hyn yn ogystal a chor yr ysgol sydd wedi cyrraedd lefel cenedlaethol a llwyfan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd am y bum mlynedd diwethaf.

- A.g. yn cael ei fonitro yn flynyddol gyda teithiau dysgu ac arsylwi gwersi. Trafodir canfyddiadau gyda staff mewn modd proffesiynol sydd yn arwain at wella darpariaeth a chynnydd o fewn y maes.
- A ydych yn ystyried safbwyntiau disgyblion yn yr adroddiad hunan-arfarnu a'r cynlluniau gweithredu?
- Ystyrir perfformiadau canu / llafar y disgyblion, eu agweddau tuag at eraill a safon gwasanaethau diolchgarwch a Nadolig fel cryfder mawr o fewn yr ysgol.

Materion i gael sylw

- Sichrau mwy o gyfle i staff dysgu i gyd gael monitro ac arsylwi gwersi addysg grefyddol eu gilydd
- Gwneud mwy o ddefnydd o safbwynt y disgyblion o fewn addysg grefyddol yn yr AHA.

**Mae arweinyddiaeth a rheolaeth mewn addysg grefyddol yn: Dda**

| Agweddau i gael sylw | Camau gweithredu | Pwy? | Erbyn pryd? |
|---|---|---|---|
| | | Nid oes rhaid rhannu'r manylion hyn gyda CYSAG ond mae angen i gofnodion yr ysgol sicrhau bod atebolrwydd yn glir i staff a llywodraethwyr | |
| Datblygu dealltwriaeth o effaith crefydd ar fywydau credinwyr. | Athrawon i weithredu ar hyn yn y tasgau sy'n cael eu gosod. | CS | Nadolig 2019 |
| Cynllunio cyfleoedd dysgu addas sydd yn ymestyn a herio sgiliau'r disgyblion. | Athrawon i weithredu ar hyn yn y tasgau sy'n cael eu gosod. | CA2 | Nadolig 2019 |
| Cynllunio cyfleoedd dysgu addas sydd yn ymestyn agweddau a profiadau am grefyddau ar draws y byd | Nadolig 2019 | CA2 | Nadolig 2019 |
| Datblygu cydweithio presennol gyda Ysgol Gaelscoil Thaobh na Coille yn Dun Laoghaire i gynnwys gwaith trawsgwricwlaidd addysg grefyddol gan gymharu gwahaniaethau yn yr amrywiaeth diwylliannol i gyd fynd a'r gwaith sy'n cael ei wneud yn bresennol | Disgyblion Bl 5 a 6 i gymharu tasgau gyda'r Iwerddon a cyd weithio a chysylltu drwy 'Facetime' | CA2 | Mehefin 2020 |
| Sicrhau ymweliadau i addoldai yn yr Iwerddon i gymharu a cyfoethogi yr hyn sydd yn cael ei wneud ganddo i ddatblygu eu dealltwriaeth o grefydd mewn wla dgyfagos. | Athrawon Bl 5 a 6 YGM a YGTC Iwerddon i drefnu | CA2 | Mehefin 2020 |
| Parhau i ddatblygu tasgau ymestynnol ar gyfer disgyblion mwy galluog | Athrawon i weithredu ar hyn yn y tasgau sy'n cael eu gosod. | CA2 | Nadolig 2019 |
| Sicrhau mwy o deithiau addysgol i addoldai | Athrawon i drefnu i gyd fynd a themau | Staff CS | Mehefin 2020 |
| Parhau i ddatblygu tasgau ymestynnol ar gyfer disgyblion mwy galluog | Athrawon i weithredu ar hyn yn y tasgau sy'n cael eu gosod. | Staff CS | Nadolig 2019 |
| Datblygu mwy o waith ar gadw disgyblion yn ddiogel rhag radicaleiddio | Athrawon i weithredu ar hyn yn y tasgau sy'n cael eu gosod. | Staff CA2 | Nadolig 2019 |
| Datblygu dealltwriaeth y disgyblion o eithafiaeth crefyddol mewn modd addas ond effeithiol | Athrawon i weithredu ar hyn yn | Staff CA2 | Pasg 2020 |



DRAFT

| | | | |
|---|---|---|---|
| | y tasgau sy'n cael eu gosod. | | |
| Efelychu yr arferion rhagorol ymhob gwasanaeth | Staff i arsylwi a cyd weithio wrth gynllunio gwasanaethau | Staff CA2 | Nadolig 2019 |
| Sichrau mwy o gyfle i staff dysgu i gyd gael monitro ac arsylwi gwersi addysg grefyddol eu gilydd | Trefnu amserlen i gyd fynd ag amserlen arsylwi AHA | MR | Mehefin 2020 |
| Gwneud mwy o ddefnydd o safbwynt y disgyblion o fewn addysg grefyddol yn yr AHA. | Athrawon i weithredu ar hyn yn y tasgau sy'n cael eu gosod. | Staff CS a CA2 | Nadolig 2019 |

**Arfarniad crynodol a fydd yn cyfrannu at arfarniad yr ysgol o 'Ddatblygiad Personol (4.2)'**

Mae darpariaeth a safonau Rhagorol o fewn Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd yn holl bwysig o fewn ethos a nodau yr ysgol. Mae adnabod cryfderau a meysydd gwella fydd yn ein galluogi i gynllunio gwelliannau yn holl bwysig o fewn A G ac addoli ar y cyd.

**Enw'r pennaeth : Medwyn Roberts**
**Llofnod y pennaeth :** *M Roberts*
**Dyddiad: 27/9/19**

DRAFT

This page is intentionally left blank

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Bodedern
# Bodedern
# Caergybi
# Ynys Môn
# LL65 3TZ

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/01/2017**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Bodedern yn ysgol gynradd, naturiol ddwyieithog sy’n derbyn disgyblion o 3 i 11 oed.  Mae wedi ei lleoli ym mhentref Bodedern, o fewn awdurdod lleol Ynys Môn, gan wasanaethu’r pentref a’r ardal wledig o’i chwmpas.

Mae 114 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol, sy’n cynnwys 15 oed meithrin rhan-amser.  Maent yn cael eu haddysgu mewn 4 dosbarth oed cymysg. Derbynnir disgyblion i’r ysgol yn rhan-amser yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed, ac yn amser llawn yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Mae tua 16% o’r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy’n is na’r cyfartaledd sirol a chenedlaethol.  Mae tua 13% o’r disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ac mae ychydig iawn o ddisgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig.  Ychydig iawn o’r disgyblion sydd o dan ofal yr awdurdod lleol.

Mae bron pob disgybl o gefndir ethnig gwyn Prydeinig a daw tua 75% ohonynt o gartrefi lle siaredir y Gymraeg.

Arolygwyd yr ysgol ym mis Tachwedd 2009.  Penodwyd y pennaeth presennol i’w swydd yn Ionawr 2000.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gynradd Bodedern yn 2015-2016 yw £3,920.  Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn Ynys Môn yw £6,763 a'r lleiafswm yw £2,889.  Mae Ysgol Gynradd Bodedern yn y 36ain safle  o'r 47 ysgol gynradd yn Ynys Môn o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd addas wrth iddynt symud drwy'r ysgol
- medrau siarad a gwrando da gan ran fwyaf y disgyblion
- llawer o ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu
- medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn gadarn
- medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) llawer o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn
- safon ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion yn dda ac maent yn gwrtais tuag at ei gilydd ac oedolion, gan ddangos parch, gofal a chonsyrn

Fodd bynnag:

- ar draws yr ysgol, ychydig o'r disgyblion sy'n defnyddio strategaethau penodol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd a phennu ystyr yn addas, ac yng nghyfnod allweddol 2, dim ond lleiafrif sy'n defnyddio uwch fedrau darllen yn hyderus
- yng nghyfnod allweddol 2, mae cywirdeb ieithyddol a chystrawen lleiafrif y disgyblion yn wallus ac mae ychydig o adegau ble mae gorddefnydd o daflenni gwaith yn llesteirio ysgrifennu rhydd ac estynedig y disgyblion gan amharu ar eu cynnydd

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r ysgol sydd wedi ei seilio ar ddatblygu medrau bywyd, ac ar gynnal ethos gofalgar yr ysgol a'i lle o fewn y gymuned leol
- yr arweinwyr a'r staff yn canolbwyntio'n gynyddol ar godi a chysoni safonau ar draws y dosbarthiadau
- y llywodraethwyr yn cwestiynu a dwyn yr ysgol i gyfrif ynghylch ei pherfformiad yn gynyddol effeithiol
- y cynllun datblygu yn ddogfen briodol sy'n llywio gwaith yr ysgol yn ddefnyddiol; mae'n cynnwys nifer hylaw o flaenoriaethau, gyda meini prawf llwyddiant clir, gan adnabod cyfrifoldebau ar gyfer eu cyflawni a'r adnoddau sydd eu hangen i'w gwireddu
- ganddi nifer o bartneriaethau sy'n cyfrannu'n fuddiol at y ddarpariaeth a chefnogi safonau cyflawniad a lles y disgyblion yn dda

Fodd bynnag:

- nid yw'r arweinwyr yn canolbwyntio'n ddigon penodol ar osod cyfeiriad strategol effeithiol i'r ysgol
- ni roddir digon o bwyslais ar ganfod barn dysgwyr a rhieni, nac i gynnwys staff ategol o fewn y gweithdrefnau hunanarfarnu
- er bod yr adroddiad hunanarfarnu yn cynnwys sylwadau arfarnol, nid yw'r rhain yn cael eu cefnogi digon gan dystiolaeth uniongyrchol
- nid yw'n glir sut y mae blaenoriaethau'r cynllun datblygu yn deillio'n uniongyrchol o'r gweithdrefnau hunanarfarnu

## Argymhellion

A1 Gwella medrau darllen y disgyblion

A2 Gwella medrau ysgrifennu disgyblion cyfnod allweddol 2, yn enwedig eu medrau ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm

A3 Rhannu arferion gorau'r addysgu ar draws pob dosbarth a sicrhau bod yr addysgu a'r cynllunio yn herio disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu

A4 Sicrhau bod adborth yr athrawon yn galluogi disgyblion i wybod beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella safon eu gwaith

A5 Sicrhau bod yr arweinyddiaeth yn effeithiol wrth roi cyfeiriad strategol i'r ysgol

A6 Sicrhau bod y weithdrefn hunanarfarnu yn gadarn ac yn seiliedig ar dystiolaeth briodol, a bod y deilliannau yn cysylltu'n glir â'r blaenoriaethau a strategaethau gwella

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Wrth iddynt gychwyn yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn meddu ar fedrau sy'n briodol i'w hoed, neu ychydig yn is na'r disgwyl. Mae rhan fwyaf ohonynt yn gwneud cynnydd addas wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd graddol a phriodol o'u mannau cychwyn.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwrando'n astud. Maent yn mynegi barn yn glir ac yn darparu atebion priodol i gwestiynau. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae medrau siarad a gwrando da gan ran fwyaf y disgyblion, ac maent yn trafod o'u gwirfodd gydag oedolion a'i gilydd yn hyderus yn y ddwy iaith. Er enghraifft, maent yn chwarae rôl yn synhwyrol gan leisio barn am ffordd osgoi ddychmygol yn lleol ac yn trafod mewn pâr neu grŵp am eu brofiadau pobl yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn dewis deunyddiau darllen yn annibynnol gan roi rhesymau dros eu dewisiadau, ond nid yw'r dewis bob amser yn cyfateb yn llawn i'w gallu. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn esbonio cynnwys eu testunau darllen ac yn mynegi barn am wybodaeth gan ddefnyddio manylion perthnasol. Gall y mwyafrif ddarllen ar goedd yn briodol gan roi sylw i'r atalnodi ac amrywio goslef llais a chyflymder yn addas. Er hyn, ar draws yr ysgol, ychydig o'r disgyblion sy'n defnyddio strategaethau penodol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd a phennu ystyr yn addas. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn gynyddol gywir yn y ddwy iaith, gan gynnwys darllen testunau heb fawr o gliwiau gweledol ynddynt. Fodd bynnag, dim ond lleiafrif sy'n defnyddio uwch fedrau darllen yn hyderus, er enghraifft wrth ddefnyddio ystod o strategaethau fel llithr ddarllen i ddod o hyd i wybodaeth benodol yn gyflym.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn defnyddio'u medrau llythrennedd yn llwyddiannus gan gyflwyno darnau dychmygus a datblygu ac ymestyn eu syniadau yn briodol. Gallant ysgrifennu ystod gynyddol o frawddegau syml gan sillafu'n gywir ac atalnodi'n bwrpasol rhan amlaf. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu hyfedredd i ddefnyddio geirfa ac iaith amrywiol i ysgrifennu darnau ar draws y cwricwlwm.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae ansawdd ysgrifennu llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol yn y ddwy iaith. At ei gilydd, maent yn ysgrifennu'n ddeallus mewn ystod o ffurfiau ysgrifenedig ac yn dangos ymwybyddiaeth addas o atalnodi a pharagraffu, gan sillafu geiriau cyfarwydd yn gywir gan amlaf. Fodd bynnag, mae cywirdeb ieithyddol a chystrawen lleiafrif y disgyblion yn wallus. Erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer ohonynt yn ysgrifennu darnau dychmygus mewn gwaith ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ysgrifennu dyddiadur am brofiad person yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Fodd bynnag, mae ychydig o adegau ble mae

gorddefnydd o daflenni gwaith yn llesteirio ysgrifennu rhydd ac estynedig y disgyblion gan amharu ar eu cynnydd.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd yn llwyddiannus i ddatrys problemau mathemategol mewn ystod eang o weithgareddau ar draws y cwricwlwm. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn defnyddio eu medrau mesur a chyfrifo yn hyderus mewn ymchwiliadau gwyddonol, er enghraifft wrth gyfrifo pa ddefnydd sydd orau i wneud ymbarél i gadw dynion o'r gofod yn sych. Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn ystod gwersi mathemateg yn gadarn. Maent yn defnyddio amrywiaeth briodol o strategaethau i ddatrys problemau rhif. Mae llawer o ddisgyblion hŷn yn ymgymryd â gweithgareddau datrys problemau yn systematig ac ar lefel briodol ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau TGCh llawer o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn creu a chyflwyno gwybodaeth drwy ddefnyddio meddalwedd i greu stori ar ffurf cartŵn deniadol. Maent yn creu graffiau syml yn gywir er mwyn cofnodi eu hoff ffrwythau a chasglu a dehongli data syml am drychfilod ar ffurf pictogram. Mae llawer yn dod yn fwy cyfarwydd ag argraffu ac arbed eu gwaith yn hyderus. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu gallu i ddefnyddio TGCh ar gyfer cyflwyno data ar ffurf graffiau gwahanol yn dda. Maent yn cyflwyno eu gwaith ysgrifenedig yn drefnus a deniadol gan ddefnyddio prosesydd geiriau, er enghraifft wrth ffurfio llythyr ffurfiol. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn defnyddio taenlenni i gynhyrchu tablau a graffiau i atgyfnerthu eu gwaith ar draws y cwricwlwm yn effeithiol. Mae enghreifftiau nodedig o hyn yn cynnwys ymchwiliadau gwyddonol ac ymchwilio i'r mathau o awyrennau a gynhyrchwyd yn ystod yr Ail Ryfel Byd mewn gwaith hanes.

Yn y Cyfnod Sylfaen dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad yr ysgol mewn llythrennedd ar y deilliant disgwyliedig gan amlaf wedi bod yn yr 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad yr ysgol mewn datblygiad mathemategol gan amlaf yn y 50% is dros yr un cyfnod. Mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant uwch, dros y pedair blynedd ddiwethaf, wedi bod yn amrywiol mewn llythrennedd, ond gan amlaf yn uwch na'r canolrif. Mewn datblygiad mathemategol, mae'r perfformiad wedi bod yn gyson uwch na'r canolrif o gymharu ag ysgolion tebyg dros y pedair blynedd.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig ac uwch dros y pedair blynedd ddiwethaf wedi amrywio. Yn gyffredinol, ar y lefel ddisgwyliedig, mae perfformiad yr ysgol wedi bod yn is na'r canolrif mewn Cymraeg a gwyddoniaeth. Mae perfformiad yr ysgol mewn Saesneg a mathemateg wedi amrywio rhwng y 25% isaf a'r 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Ar y lefelau uwch, mae perfformiad yr ysgol mewn Cymraeg a Saesneg wedi bod yn uwch na'r canolrif dros y cyfnod, tra bod perfformiad mewn mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod yn fwy amrywiol, ac wedi ei gosod rhwng yr 50% is a'r 25% uchaf.

Nid oes patrwm o wahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad merched a bechgyn yn y Cyfnod Sylfaen dros amser. Fodd bynnag, mae bechgyn yn tanberfformio o gymharu â merched mewn gwyddoniaeth a mathemateg dros amser yng nghyfnod allweddol 2. Nid oes patrwm amlwg a chyson o wahaniaeth nodedig mewn perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim o gymharu â'u cyfoedion.

**Lles: Da**

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn pryderu. Mae safon ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion yn dda. Maent yn gwrtais tuag at ei gilydd ac oedolion, gan ddangos parch, gofal a chonsyrn. Mae medrau cymdeithasol a medrau bywyd llawer o'r disgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r rhan fwyaf yn canolbwyntio am gyfnodau priodol gan gyfrannu'n synhwyrol o fewn gwersi. Maent yn cydweithio'n briodol er mwyn datrys problemau ac mae gallu llawer ohonynt i weithio'n annibynnol ac i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain yn datblygu'n raddol. Mae disgyblion yn gwneud dewisiadau cynyddol werthfawr ynghylch beth, a sut, y maent yn dysgu.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ymwybyddiaeth gadarn ynglŷn â bwyta ac yfed yn iach a phwysigrwydd ymarfer y corff.

Mae'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn cael dylanwad buddiol ar fywyd yr ysgol. Mae aelodau'r cyngor ysgol yn frwd iawn ac yn awyddus i gyfrannu mwy at ddatblygiad yr ysgol. Maent yn falch o'u cyfraniad a'u cyfrifoldeb at y gymuned leol ac at wella amgylchedd ddysgu'r ysgol, er enghraifft wrth godi sbwriel yn y pentref ac wrth gyfrannu eu barn tuag at ddatblygu'r ardal allanol a gwella cyflwyniad yr adeilad. Mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau fel cyngherddau a gwasanaethau yn y pentref a'r gymuned tu hwnt, ac maent yn trefnu gweithgareddau buddiol er mwyn codi arian at elusennau. Mae hyn yn cyfoethogi eu hymwybyddiaeth o'u cynefin ac am eraill sy'n llai ffodus na nhw.

Gan amlaf dros y pedair blynedd ddiwethaf, mae presenoldeb disgyblion wedi cymharu'n ffafriol ag ysgolion tebyg. Ar y cyfan, mae prydlondeb disgyblion yn dda.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynnig ystod o brofiadau buddiol drwy ddarparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni anghenion y disgyblion, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r profiadau gwerthfawr hyn yn cyflawni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol yn effeithiol.

Mae gan yr ysgol gynlluniau priodol ar gyfer ymgorffori gofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae tasgau ar draws y Cyfnod Sylfaen yn rhoi cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion ddatblygu eu medrau siarad ac ysgrifennu yn llwyddiannus, ond nid yw cyfleoedd i ddatblygu medrau darllen yr un mor drylwyr. Yng nghyfnod allweddol 2, mae cynlluniau effeithiol yn eu lle, sy'n arwain at amrywiaeth o gyfleoedd cadarn i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion. Fodd bynnag, lle mae ychydig iawn o'r cynllunio yn llai llwyddiannus, nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm ac i'r disgyblion mwy abl ymestyn eu medrau ysgrifennu ymhellach.

Mae'r adnoddau technoleg amrywiol yn cael eu defnyddio'n effeithiol i hyrwyddo medrau TGCh llawer o ddisgyblion, gan gyfoethogi a chynorthwyo eu gwaith themâu.

Mae’r Gymraeg yn ganolog i fywyd a gwaith yr ysgol, ac yn cael ei datblygu’n llwyddiannus. Mae holl staff yr ysgol yn defnyddio’r Gymraeg yn rheolaidd y tu mewn a thu allan i’r ystafell ddosbarth. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio’r Gymraeg yn naturiol wrth sgwrsio gyda’i gilydd neu drafod gydag ymwelwyr. Trwy weithgareddau’r Urdd ac ymweliadau i wersylloedd preswyl, mae’r ddarpariaeth yn datblygu dealltwriaeth disgyblion o’u treftadaeth Gymreig ac yn cefnogi gwaith y Siarter Iaith yn fedrus. Mae gwaith prosiect gydag artistiaid preswyl, a gwaith celf y disgyblion ar sail artistiaid Cymreig, yn cyfoethogi dealltwriaeth y disgyblion o fyw yng Nghymru yn llwyddiannus.

Mae’r ysgol yn darparu cyfleoedd priodol i ddatblygu dealltwriaeth y disgyblion o agweddau cynaliadwy, er enghraifft drwy gynllun beicio a cherdded i’r ysgol. Mae’n sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd priodol i ddysgu am wledydd eraill a datblygu eu dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang. Mae’r gwaith, fesul dosbarth, ar greu bocs esgidiau i fynd dramor bob Nadolig yn codi ymwybyddiaeth y disgyblion o blant mewn angen ar draws y byd a datblygu eu dealltwriaeth am waith elusennau rhyngwladol yn fuddiol.

**Addysgu: Digonol**

Mae safon yr addysgu yn gyffredinol gadarn ar draws yr ysgol, ond mae gryfaf yn y Cyfnod Sylfaen. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol gynhwysfawr ac mae perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng yr oedolion a'r disgyblion sy’n meithrin parch ac ymddygiad da. Ar draws yr ysgol, mae cydweithio llwyddiannus rhwng yr athrawon a'r cymorthyddion dysgu yn rhoi cefnogaeth effeithiol i unigolion a grwpiau penodol o ddisgyblion. Mae athrawon a staff yn modelu’r iaith Gymraeg yn dda ac mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at safonau iaith lafar y disgyblion. Mae athrawon yn holi cwestiynau treiddgar o fewn y rhan fwyaf o wersi ac yn cynnig cyfleoedd pwrpasol i'r disgyblion weithio mewn parau ac mewn grwpiau bychain. Mewn ychydig o wersi a thasgau lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, mae gorddefnydd o daflenni gwaith parod yn llesteirio gallu’r disgyblion i weithio’n annibynnol. Yn ogystal, nid yw’r tasgau bob amser yn herio’r disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu.

Mae'r athrawon yn rhoi adborth cyson ac adeiladol ar lafar ac yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd, gan gynnig sylwadau ar ddiwedd y gwaith. Lle mae'r marcio fwyaf effeithiol, mae'r sylwadau yn cyfeirio at y meini prawf llwyddiant ac mae’r athrawon yn annog y disgyblion yn gyson i ystyried yr adborth ac yna diwygio eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw hyn yn arfer digon cyson ar draws yr ysgol. Nid yw lleiafrif o sylwadau'r athrawon yn rhoi arweiniad digon pendant er mwyn galluogi’r disgyblion i wybod beth i’w wneud er mwyn gwella safon eu gwaith.

Gan amlaf, mae'r ysgol yn defnyddio profion safonol ac asesiadau athrawon yn briodol wrth asesu gwaith y disgyblion. Yn gyffredinol, mae’r athrawon yn defnyddio'r wybodaeth sy’n deillio o’u hasesiadau yn llwyddiannus i olrhain cynnydd disgyblion ac er mwyn cynllunio'r cam nesaf yn eu dysgu. Maent yn gwneud defnydd addas o ganfyddiadau'r gweithdrefnau hyn i adnabod a chynllunio ar gyfer anghenion penodol grwpiau ac unigolion.

Mae’r athrawon yn darparu adroddiadau buddiol i rieni ynglŷn â chynnydd eu plant ac mae nosweithiau rhieni addas yn cael eu cynnal yn flynyddol.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae’r ysgol yn gymuned gyfeillgar a gofalgar. Mae awyrgylch teuluol yr ysgol, a’r berthynas glos sy’n bodoli rhwng y staff a’r disgyblion, yn hyrwyddo ymddygiad cyson dda'r disgyblion. Mae pwyslais cryf ar ddatblygu iechyd a lles disgyblion gyda system ‘bydis buarth’ yn chwarae rôl werthfawr mewn atgyfnerthu’r ymdeimlad o gymuned hapus a chymwynasgar.

Mae gan yr ysgol drefniadau buddiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach gyda’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dod â byrbryd ffrwyth i’r ysgol yn ddyddiol. Mae amrywiaeth o gyfleoedd pwrpasol yn cyfoethogi datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae’r disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ymwneud â’r celfyddydau, chwaraeon ac amrywiol weithgareddau cerddorol. Cânt gyfleoedd rheolaidd i gystadlu ar lefel sirol a chenedlaethol mewn amrywiol feysydd. Mae gwasanaethau dosbarth pwrpasol yn rhoi cyfleoedd buddiol i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwerthoedd eu hunain a meithrin gwerthoedd fel parch, tegwch a gonestrwydd.

Mae cysylltiadau defnyddiol yn bodoli ag amrywiaeth o wasanaethau arbenigol ac asiantaethau allanol, fel y gwasanaeth iaith a lleferydd a’r nyrs ysgol. Mae’r cysylltiadau hyn yn sicrhau cymorth ac arweiniad gwerthfawr i ddisgyblion a rhieni sy’n cyfrannu’n dda at les a datblygiad y disgyblion.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynhwysfawr. Mae’r ysgol yn gwneud defnydd medrus o weithdrefnau effeithiol er mwyn adnabod anghenion dysgu ychwanegol y disgyblion yn gynnar. Mae rhaglenni ymyrraeth a chymorth pwrpasol yn diwallu anghenion y disgyblion hyn yn effeithiol. Mae’r cynlluniau addysg unigol yn cael eu llunio a’u hadolygu’n drylwyr mewn ymgynghoriad â’r rhieni a’r disgyblion.

Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

## Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae'r ysgol yn cynnig mynediad cyfartal i'r cwricwlwm ac i weithgareddau allgyrsiol i bob disgybl. Mae'n gymuned gynhwysol a chyfeillgar lle mae’r disgyblion yn cael eu trin yn gyfartal. Mae hyn yn seiliedig ar werthoedd sy'n hyrwyddo parch a gofal.

Mae cyflenwad da o adnoddau ar gyfer cyflwyno gwersi a gweithgareddau ar draws y cwricwlwm, gan gynnwys ystod fuddiol o offer TGCh. Mae'r ystafelloedd dosbarth a'r waliau o gwmpas yr ysgol yn lliwgar a deniadol ac yn cynnwys amrywiaeth o arddangosfeydd sy'n dathlu llwyddiannau disgyblion.

Mae'r gofod dysgu o fewn yr adeilad yn cael ei ddefnyddio’n effeithiol ac mae’r ardal allanol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn datblygu’n addas i fodloni anghenion addysgu a dysgu. Mae’r ysgol ar safle braf a gwneir defnydd priodol o'r gofod eang. Mae'r adeilad, y buarth a chaeau'r ysgol mewn cyflwr da, yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n raenus.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir ar gyfer datblygu'r ysgol sydd wedi ei seilio ar ddatblygu medrau bywyd, ac ar gynnal ethos gofalgar yr ysgol a'i lle o fewn y gymuned leol. Mae'r pennaeth yn derbyn cefnogaeth fuddiol gan y dirprwy bennaeth, sy'n creu hinsawdd o weithio sy'n gynyddol effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr yn canolbwyntio'n ddigon penodol ar osod cyfeiriad strategol i'r ysgol fel bod gweithdrefnau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yn arwain yn fwy effeithiol at welliannau ar draws yr ysgol.

Caiff swydd ddisgrifiadau'r staff eu hadolygu yn flynyddol. Maent yn addas ac yn nodi eu cyfrifoldebau'n glir. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi diwygio eu trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad athrawon i sicrhau cysylltiad cryfach rhwng yr amcanion â blaenoriaethau'r ysgol.

Mae'r arweinwyr a'r staff yn canolbwyntio'n gynyddol ar godi a chysoni safonau ar draws y dosbarthiadau. Cynhelir cyfarfodydd staff yn rheolaidd ac maent yn gosod pwyslais priodol ar drafod blaenoriaethau'r ysgol ynghyd â materion sy'n ymwneud â chodi safonau cyflawniad disgyblion a gwella'r ddarpariaeth. Serch hynny, nid yw ychydig o'r gweithdrefnau a osodwyd yn eu lle yn ddiweddar wedi eu sefydlu'n gadarn ac felly nid oes modd mesur eu heffaith yn llawn ar ansawdd y dysgu na'r addysgu.

Mae'r ysgol yn ymateb yn briodol i flaenoriaethau cenedlaethol sy'n cynnwys cyflwyno'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd a dileu effaith tlodi. Mae hyn yn cael effaith gynyddol ar safonau a lles y disgyblion.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i fywyd a gwaith yr ysgol ac yn datblygu eu rôl fel ffrindiau beirniadol ac fel arweinwyr strategol. Maent yn derbyn gwybodaeth gan y pennaeth am ddata perfformiad a chyflawniad disgyblion, sy'n eu galluogi i gwestiynu a herio'r ysgol ynghylch ei pherfformiad yn gynyddol effeithiol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hunanarfarnu, sy'n defnyddio ystod o dystiolaeth addas, sy'n cynnwys dadansoddi data perfformiad disgyblion, craffu ar eu gwaith, ac arsylwi ar wersi. Mae'r athrawon a'r llywodraethwyr yn derbyn cyfleoedd cynyddol werthfawr i gymryd rhan mewn rhai o'r gweithgareddau hyn ac yn ystyried materion perthnasol o safbwynt gwella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Er hyn, ni roddir digon o bwyslais ar ganfod barn dysgwyr na rhieni, nac i gynnwys staff ategol yn y gweithdrefnau hyn.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu a luniwyd gan yr arweinwyr yn gynhwysfawr. Mae'n nodi materion defnyddiol ar gyfer gweithredu, sy'n ymwneud â chodi safonau, a gwella ansawdd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth. Ar y cyfan, er bod yr adroddiad yn cynnwys sylwadau arfarnol, nid yw'r rhain yn cael eu cefnogi digon gan dystiolaeth uniongyrchol.

Mae'r cynllun datblygu yn ddogfen briodol, sy'n llywio gwaith yr ysgol yn ddefnyddiol. Mae’n cynnwys nifer hylaw o flaenoriaethau, gyda meini prawf llwyddiant clir. Mae effaith blaenoriaethau blaenorol yr ysgol yn cael ei mesur yn briodol gan arwain, lle bo’n addas, at bennu targedau newydd. Fodd bynnag, nid yw’n glir sut y mae blaenoriaethau’r cynllun datblygu ysgol yn deillio’n uniongyrchol o’r gweithdrefnau hunanarfarnu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol nifer o bartneriaethau sy’n cyfrannu’n fuddiol at y ddarpariaeth a chefnogi safonau cyflawniad a lles y disgyblion.

Mae’r gymdeithas rhieni ac athrawon yn cynnig cefnogaeth werthfawr i’r ysgol ac yn trefnu gweithgareddau codi arian yn gyson, er enghraifft er mwyn prynu adnoddau a chyfrannu tuag at gludiant ar gyfer ymweliadau addysgol ac Eisteddfodau’r Urdd. Cynhelir digwyddiad cwricwlaidd buddiol i rieni a disgyblion yn flynyddol, er enghraifft drwy gydweithio ag asiantaeth allanol yn y nosweithiau ‘Her Teulu’ gyda ffocws ar y maes gwyddoniaeth a thechnoleg. Mae hyn yn cynyddu brwdfrydedd y disgyblion tuag at y gwyddorau yn effeithiol.

Mae partneriaeth effeithiol yn bodoli rhwng yr ysgol a’r cylch meithrin lleol, sydd wedi’i leoli ar yr un safle. Mae’r athrawon yn cydweithio’n agos ac maent yn rhannu adnoddau i sicrhau profiadau da i’r disgyblion ac yn hwyluso’r broses drosglwyddo i’r ysgol. Mae cynllun pontio sefydledig rhwng yr ysgol â’r ysgol uwchradd. Mae cyfres o sesiynau defyddiol i ddisgyblion Blwyddyn 6 sy’n ffocysu ar agweddau cwricwlaidd, er enghraifft gwyddoniaeth, technoleg, chwaraeon ac ieithoedd modern, sy’n gymorth gwerthfawr i’r disgyblion baratoi ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae’r drefniadaeth ar gyfer anwytho disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol yn un lwyddiannus ac yn cynnig cefnogaeth fuddiol i’r unigolion hynny.

Mae’r ysgol wedi elwa o’r berthynas waith fuddiol sy’n bodoli gydag ysgolion yr ardal. O ganlyniad i’r cydweithio hwn, cynhyrchwyd portffolios rhifedd a phecynnau darllen defnyddiol er mwyn cynorthwyo staff i ddatblygu medrau disgyblion ymhellach. Mae prosesau safoni gwaith yn effeithiol ac yn cyfrannu’n foddhaol tuag at sicrhau ansawdd asesu gwaith y disgyblion yn yr ysgol.

Mae gan yr ysgol bartneriaeth effeithiol gyda phrifysgol ar gyfer derbyn a hyfforddi myfyrwyr cyrsiau addysg. Mae’r ysgol a’r myfyrwyr yn elwa o hyn drwy rannu profiadau â’i gilydd a datblygu rhaglenni gwaith buddiol i’r disgyblion.

Mae’r ysgol yn manteisio’n rheolaidd ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned, er enghraifft y Gwasanaeth Diolchgarwch yn y capel lleol. Manteisia’r ysgol ar arbenigedd aelodau o’r gymuned, er enghraifft wrth ymweld â’r plasty cyfagos dan arweiniad hanesydd lleol. Mae’r cysylltiadau hyn yn hybu dealltwriaeth y disgyblion o’u cymuned ac yn eu datblygu fel dinasyddion cyfrifol.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan yr ysgol ddigon o athrawon sydd â chymwysterau priodol i fodloni gofynion y cwricwlwm. Cefnogir yr athrawon yn dda yn y gwersi a thu hwnt gan staff cynorthwyol gofalgar. Mae gan bob athro amser priodol i gynllunio, paratoi ac asesu.

Mae'r ysgol yn datblygu'n addas fel cymuned ddysgu a cheir diwylliant o gydweithio ynddi. Mae mwyafrif o athrawon wedi ymweld ag ysgolion eraill a chydweithio ar brosiectau penodol. Er enghraifft, mae'r ysgol wedi cydweithio â chlwstwr o ysgolion cynradd eraill i greu adnoddau darllen Cymraeg gwerthfawr. Serch hynny, prin yw'r cyfleoedd i staff gymryd rhan mewn rhwydweithiau dysgu proffesiynol ffurfiol gydag ysgolion eraill.

Mae trefniadau priodol ar waith ar gyfer datblygiad proffesiynol pob aelod o staff. Enghraifft dda o hyn yw'r gefnogaeth i'r staff cymorth i gymhwyso ymhellach ac ennill cymwysterau proffesiynol. Mae'r ysgol wedi cryfhau trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad. Fodd bynnag, tan yn ddiweddar, ni fu cyswllt digon cryf rhwng yr amcanion rheoli perfformiad a blaenoriaethau'r ysgol i sicrhau gwelliannau yn y dysgu a'r addysgu.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro a rheoli'r gyllideb yn effeithiol. Bellach, mae gan yr ysgol arian wrth gefn yn dilyn cyfnod o ddiffyg yn y gyllideb. Mae'r gwarged hwn yn cael ei ddefnyddio'n briodol i wella ansawdd adnoddau a chefnogi blaenoriaethau'r ysgol.

Gwneir defnydd bwriadus o'r Grant Amddifadedd Disgyblion trwy, er enghraifft, gyflogi staff cynorthwyol i ddarparu cefnogaeth llythrennedd a rhifedd i ddisgyblion priodol. Mae hyn yn gyfraniad gwerthfawr at sicrhau cynnydd ym medrau'r disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim.

O ystyried safonau cyflawniad y disgyblion, mae'r ysgol yn darparu gwerth digonol am arian.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6602132 - Ysgol Gynradd Bodedern**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 118 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 18.8 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 12 | 13 | 17 | 11 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 83.3 | 92.3 | 88.2 | 90.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 3 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 13 | 17 | 11 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 91.7 | 92.3 | 88.2 | 90.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 33.3 | 30.8 | 17.6 | 45.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 4 | 1 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 13 | 17 | 11 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 83.3 | 92.3 | 88.2 | 90.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 33.3 | 30.8 | 35.3 | 45.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 2 | 1 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 12 | 13 | 17 | 11 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 92.3 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 75.0 | 38.5 | 41.2 | 81.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 4 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6602132 - Ysgol Gynradd Bodedern**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 118 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 18.8 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 10 | 13 | 9 | 15 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 90.0 | 92.3 | 88.9 | 86.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 3 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 13 | 9 | 15 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 80.0 | 92.3 | 100.0 | 86.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 40.0 | 46.2 | 44.4 | 40.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 13 | 9 | 15 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 80.0 | 92.3 | 88.9 | 86.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 40.0 | 46.2 | 44.4 | 40.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 2 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 13 | 9 | 15 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 90.0 | 92.3 | 88.9 | 86.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 3 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 40.0 | 53.8 | 33.3 | 40.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 3 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 13 | 9 | 15 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 90.0 | 92.3 | 88.9 | 86.7 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 30.0 | 46.2 | 44.4 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 2 | 3 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 52 | 51<br>98%<br>98% | 1<br>2%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 53 | 50<br>94%<br>92% | 3<br>6%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 52 | 51<br>98%<br>97% | 1<br>2%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 53 | 53<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 53 | 52<br>98%<br>96% | 1<br>2%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 48 | 39<br>81%<br>96% | 9<br>19%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 53 | 53<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 53 | 52<br>98%<br>98% | 1<br>2%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 53 | 49<br>92%<br>91% | 4<br>8%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 53 | 51<br>96%<br>95% | 2<br>4%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 50 | 34<br>68%<br>77% | 16<br>32%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 51 | 38<br>75%<br>84% | 13<br>25%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 15 | 4 | 9 | 2 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 27% | 60% | 13% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 15 | 9 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 60% | 40% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 15 | 8 | 6 | 1 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 53% | 40% | 7% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 15 | 5 | 8 | 2 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 33% | 53% | 13% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 11 | 1 | 8 | 1 | 1 | 4 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 9% | 73% | 9% | 9% | | |
| | | 47% | 48% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 13 | 3 | 9 | 1 | 0 | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 23% | 69% | 8% | 0% | | |
| | | 61% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 14 | 4 | 8 | 2 | 0 | 1 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 29% | 57% | 14% | 0% | | |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 12 | 3 | 3 | 5 | 1 | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 25% | 25% | 42% | 8% | | |
| | | 49% | 43% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 13 | 5 | 5 | 2 | 1 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 38% | 38% | 15% | 8% | | |
| | | 60% | 35% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 14 | 4 | 9 | 1 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 29% | 64% | 7% | 0% | | |
| | | 60% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 13 | 5 | 6 | 2 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 38% | 46% | 15% | 0% | | |
| | | 66% | 32% | 2% | 1% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 10 | 3 | 5 | 2 | 0 | 5 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 30% | 50% | 20% | 0% | | |
| | | 56% | 39% | 4% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I am kept well informed about my child's progress. | 15 | 3 | 8 | 4 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 20% | 53% | 27% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 15 | 6 | 8 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 40% | 53% | 7% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 5% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 12 | 3 | 7 | 2 | 0 | 3 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 25% | 58% | 17% | 0% | | |
| | | 48% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 15 | 4 | 10 | 1 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 27% | 67% | 7% | 0% | | |
| | | 58% | 40% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 8 | 2 | 5 | 1 | 0 | 6 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 25% | 62% | 12% | 0% | | |
| | | 52% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 14 | 2 | 5 | 7 | 0 | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 14% | 36% | 50% | 0% | | |
| | | 54% | 39% | 6% | 1% | | |
| The school is well run. | 13 | 4 | 8 | 1 | 0 | 2 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 31% | 62% | 8% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Tony Bate | Arolygydd Cofnodol |
| Susan Jones | Arolygydd Tîm |
| Jeremy Turner | Arolygydd Lleyg |
| Nia Daly | Arolygydd Cymheiriaid |
| Eifion Lloyd Watkins | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

This page is intentionally left blank

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymuned Llanerch-y-medd
# Llanerch-y-medd
# Ynys Môn
# LL71 8DP

## Dyddiad yr arolygiad:  Medi 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 24/11/2015**

## Cyd-destun

Lleolir Ysgol Gymuned Llanerch-y-medd ym mhentref Llanerch-y-medd ac fe'i cynhelir gan awdurdod Ynys Môn. Ar hyn o bryd, mae 132 disgybl ar gofrestr yr ysgol, sy'n cynnwys 20 o ddisgyblion oed meithrin. Fe'u rhennir yn bum dosbarth, sy'n cynnwys pedwar sydd â disgyblion oed cymysg.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae oddeutu 20% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim yn yr ysgol, sydd o gwmpas cyfartaledd ar gyfer Cymru. Daw 80% o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Mae tua 20% o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, sy'n cynnwys ychydig iawn o ddisgyblion gyda datganiad addysgol. Mae ychydig iawn o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol lle mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt. Mae ychydig iawn o ddisgyblion o dan ofal yr awdurdod.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf ym mis Chwefror 2009. Mae'r pennaeth yn ei swydd ers 1999.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymuned Llanerch-y-medd yn 2015-2016 yw £4,574. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yn sir Fôn yw £6,763 a'r lleiafswm yw £2,889. Mae Ysgol Gymuned Llanerchymedd yn y 20fed safle o'r 47 ysgol gynradd ym Môn o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Digonol** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- Bod safonau llafar rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gadarn
- Bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu
- Bod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn yn unol a'u targedau
- Bod cyfradd presenoldeb yr ysgol yn gyson dda ac yn ei gosod yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg dros y tair blynedd diwethaf
- Bod cymorthyddion yn darparu cefnogaeth a chymorth effeithiol iawn i ddisgyblion

Fodd bynnag:

- Nid yw medrau rhifedd ychydig o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 wedi datblygu'n llawn
- Nid yw cynllunio a'r addysgu bob amser yn cynnig y lefel her briodol i ddisgyblion

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

- Bod arweinyddiaeth ofalgar y pennaeth yn sicrhau lles disgyblion a staff yn effeithiol;
- Bod gan arweinwyr yr ysgol ddealltwriaeth addas o berfformiad yr ysgol
- Bod gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella
- Bod cynllun gwella'r ysgol yn nodi'n glir yr agweddau ar gyfer gwelliant

Fodd bynnag:

- Nid yw'r holl strategaethau a roddwyd ar waith yn ddiweddar wedi cael digon o amser i sefydlu a chael effaith ar gyflawniad disgyblion
- Dros gyfnod, nid yw arweinwyr yr ysgol wedi dadansoddi deilliannau monitro'n ddigon manwl er mwyn cynllunio ar gyefr gwelliant
- Nid yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd yn erbyn ychydig o argymhellion yr arolygiad blaenorol

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod cynlluniau manwl yng nghyfnod allweddol 2 ar gyfer datblygu medrau rhifedd disgyblion yn unol â'u gallu

A2 Sicrhau bod yr addysgu yng nghyfnod allweddol 2 yn ymateb yn llawn i anghenion disgyblion mwy abl

A3 Miniogi adborth athrawon ar waith disgyblion i fod yn fwy penodol er mwyn arwain at welliant

A4 Gwella rôl strategol arweinwyr yr ysgol ar bob lefel i fod yn fwy atebol am safonau

A5 Sicrhau bod gweithdrefnau monitro'n effeithiol a bod arweinwyr yr ysgol yn gweithredu ar ddadansoddi deilliannau monitro er mwyn cynllunio ar gyfer gwelliant

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae safonau mwyafrif y disgyblion ar fynediad i'r ysgol yn gadarn. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn o'u man cychwyn yn unol â'u targedau. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r disgyblion ieuengaf yn ymgartrefu'n gyflym ac yn datblygu'n effeithiol fel dysgwyr annibynnol.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwrando'n astud gyda llawer ohonynt yn sgwrsio'n hyderus am eu gwaith gan ddefnyddio cystrawen gadarn a geirfa sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Caiff hyn ei ddatblygu'n llwyddiannus wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n glir yn y ddwy iaith, gan ymuno â thrafodaethau dosbarth yn frwdfrydig iawn. Erbyn diwedd y cyfnod, mae rhan fwyaf yn trafod agweddau o'u gwaith yn ddeallus, gydag ychydig o ddisgyblion mwy abl yn trafod gydag aeddfedrwydd a chan ddefnyddio geirfa ymestynnol. Mae safonau llafar rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gryfder.

Ar frig y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn gynyddol gywir gan ddangos dealltwriaeth gadarn o'r testun. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn ddarllenwyr hyderus, ac yn defnyddio goslef llais yn effeithiol i ddal sylw'r gwrandawyr. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn darllen yn hyderus yn y ddwy iaith gan adalw prif ffeithiau o'r testun. Fodd bynnag. nid yw uwch fedrau ychydig o ddisgyblion mwy abl wedi datblygu'n llawn, er enghraifft wth iddynt ddadansoddi'r tetun.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf yn gwneud cynnydd da yn eu medrau ysgrifennu. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio'u medrau llythrennedd yn llwyddiannus mewn amrywiaeth o ffurfiau ysgrifenedig. Enghraifft o hyn yw adroddiad papur newydd yn seiliedig ar stori'r Cawr Mawr. Mae llawer yn medru datblygu eu syniadau'n synhwyrol gan ddangos gafael gadarn ar ffurf ysgrifenedig ac atalnodi pwrpasol. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn defnyddio ffurf gryno'r ferf ac ansoddeiriau yn gyson i gyfoethogi eu gwaith. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn ysgrifennu'n ddeallus mewn amrywiaeth o ffurfiau, a hynny yn y ddwy iaith gan ddefnyddio amrywiaeth o atalnodi yn gyson i bwrpas. Ar frig yr ysgol, mae llawer o'r disgyblion yn cynhyrchu gwaith ysgrifennu ymestynnol o ansawdd da. Enghraifft o hyn yw'r ymson am gymeriad o nofel Lladron Defaid yn y Gymraeg ac yn y Saesneg wrth fynegi barn o blaid ac yn erbyn defnyddio anifeiliaid mewn ymchwiliadau gwyddonol. Mae medrau TGCh rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn gadarn iawn.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio a chymhwyso eu medrau rhifedd yn hyderus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio strategaethau rhif yn hyderus wrth ddatrys problemau geiriol. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn gallu dod o hyd i berimedr o siâp

yn gywir gan ddefnyddio strategaeth adio. Caiff medrau rhifedd y disgyblion eu datblygu'n llwyddiannus ar draws y meysydd dysgu. Maent yn cyflwyno a dehongli data yn hyderus, er enghraifft wrth gasglu gwybodaeth a llunio graff am gartrefi plant y dosbarth.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae medrau mathemategol rhan fwyaf y disgyblion mewn gwersi a'u llyfrau yn dda. Mae gan lawer o ddisgyblion ymwybyddiaeth gadarn o ffracsiynau o rif, gydag ychydig o ddisgyblion mwy abl yn trosi ffracsiynau i ganrannau ac i ddegolion gyda chywirdeb. Mae bron pob un yn defnyddio ystod eang o strategaethau rhif yn addas wrth ymdrin â phroblemau geiriol gan resymu eu cyfrifon yn synhwyrol. Yng ngwaith thematig y dosbarth, mae'r rhan fwyaf yn darllen graddfa ar fap yn effeithiol, er enghraifft wrth fesur hyd teithiau yn ardal Bethesda wrth iddynt gynllunio ymweliad â'r ardal. Fodd bynnag, nid yw rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio a chymhwyso'r medrau rhifedd maent yn eu dysgu mewn gwersi mathemateg i'r un safon ar draws y cwricwlwm.

Dros y blynyddoedd diwethaf, roedd nifer cymharol fach o ddisgyblion (deg neu lai) yn y grwpiau blwyddyn ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 gan yr ysgol yn aml. Gall hyn effeithio'n sylweddol ar berfformiad meincnod yr ysgol o gymharu ag ysgolion tebyg ac o gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol. Mae perfformiad ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen ar y deilliannau disgwyliedig mewn llythrennedd a datblygiad mathemategol wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf o gymharu ag ysgolion tebyg am dair o'r pedair blynedd ddiwethaf.

Mae tueddiadau mewn perfformiad yng nghyfnod allweddol 2 ar y lefelau disgwyliedig wedi bod ar i fyny yn y ddwy iaith. Dros gyfnos o bedair blynedd, mae perfformiad yr ysgol wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 25% isaf yn y Gymraeg ac yn gyffredinol wedi gosod yr ysgol yn y 25% isaf mewn Saesneg dros yr un amser. Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae tuedd cyffredinol o welliant ym mherfformiad disgyblion mewn mathemateg a gwyddoniaeth.

Yn gyffredinol, nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad merched o'u cymharu â'r bechgyn yn y Cyfnod Sylfaen na chyfnod allweddol 2 ar y deilliannau a'r lefelau disgwyliedig. Fodd bynnag, mae mwy o batrwm ar y lefelau uwch ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 lle mae perfformiad y merched mewn iaith yn uwch dros gyfnod o bedair blynedd.

Er bod patrwm o gynnydd i'w weld, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 ychydig yn is na'u cyfoedion ar y lefelau uwch.

**Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn mwynhau'r ysgol ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel, ac yn gwybod at bwy i droi os ydynt yn pryderu. Maent yn dangos parch a gofal tuag at ei gilydd ac oedolion. Mae gan bron pob un ymwybyddiaeth gref o bwysigrwydd bwyta, yfed dŵr a chadw'n iach. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymryd rhan mewn ystod dda o weithgareddau ymarfer corff sy'n cyfrannu'n effeithiol at eu ffitrwydd.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfrannu'n dda mewn gwersi ac yn llwyddo yn eu gwaith. Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gweithio'n annibynnol ac yn cyfrannu'n effeithiol at eu dysgu eu hunain. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi datblygu'n llawn ar frig yr ysgol. Ar draws yr ysgol, mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth addas o'r hyn sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella eu gwaith.

Mae ymddygiad rhan fwyaf y disgyblion yn dda o fewn y gwersi ac ar y buarth. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cydweithio'n llwyddiannus â'i gilydd ac yn cadw ar dasg am gyfnodau penodol.

Mae presenoldeb yr ysgol yn gyson dda. Mewn cymhariaeth ag ysgolion tebyg, mae'r ysgol wedi bod yn y 25% uchaf am y tair blynedd diwethaf.

Mae'r cyngor ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'u rolau a'u cyfrifoldebau o fewn cymuned yr ysgol. Maent yn hyrwyddo gwelliannau trwy greu wal groeso yn y cyntedd, gosod marciau buarth a newid amseriad amser cinio, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn cynnig profiadau dysgu ysgogol, eang a chytbwys sy'n ymateb yn llawn i'r Cwricwlwm Cenedlaethol, y Cyfnod Sylfaen ac addysg grefyddol. Yn gyffredinol, mae athrawon yn cynllunio gwersi a gweithgareddau diddorol sy'n ysgogi dysgu llwyddiannus. Mae cynlluniau tymor byr yr athrawon yn gynhwysfawr; fodd bynnag, nid yw'r gweithgareddau bob amser yn darparu digon o her i ymateb i anghenion disgyblion mwy abl, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 2.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer llythrennedd wedi ei chynllunio'n llwyddiannus iawn ac mae'n cael ei hymgorffori'n gadarn ym mhrofiadau'r disgyblion. Mae hyn sicrhau eu bod yn gwneud cynnydd da iawn yn eu medrau llythrennedd wrth symud drwy'r ysgol. Caiff medrau TGCh eu datblygu'n llwyddiannus ar draws gwahanol agweddau o'r cwricwlwm. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r cynlluniau ar gyfer datblygiad rhifedd yn drwyadl ac ar lefel briodol i'r disgyblion. Fodd bynnag, nid yw rhifedd ar draws cyfnod allweddol 2 wedi datblygu'n llawn ac nid yw'r gweithgareddau bob amser yn sicrhau lefel briodol o her o gymharu â gallu mathemategol y disgyblion.

Mae agweddau o ddinasyddiaeth fyd-eang yn cael sylw priodol yng nghynlluniau'r ysgol drwy weithgareddau masnach deg a gwaith ynglŷn â Kenya a Phatagonia. Trwy ailgylchu a lleihau gwastraff, mae dealltwriaeth y disgyblion o'r angen i ofalu am yr amgylchedd a'r byd amrywiol y maent yn byw ynddo yn drwyadl.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r cwricwlwm Cymreig yn gadarn. Trwy astudio hanes lleol, a hanes bywyd a gwaith artistiaid o Gymru fel William Morris, mae dealltwriaeth y disgyblion o ddiwylliant Cymru yn datblygu'n dda. Mae hyn yn cael ei atgyfnerthu'n effeithiol iawn trwy ymweliadau i'r ardal leol ac ystod o ymwelwyr a ddaw i'r ysgol.

**Addysgu: Da**

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn cynllunio gwersi'n ofalus sy'n ysgogi diddordeb a brwdfrydedd y disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio ystod eang o adnoddau addysgu cyfoethog i gefnogi'r dysgu. Mewn llawer o'r gwersi, lle mae'r addysgu yn fwyaf effeithiol, mae athrawon yn holi'n dreiddgar er mwyn ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth bron pob disgybl. Yn y gwersi hyn, caiff disgyblion eu hanog i ymestyn a rhesymu eu hatebion. Yn yr ychydig iawn o wersi lle mae'r addysgu'n llai effeithiol, nid yw tasgau bob amser yn herio disgyblion i gyrraedd eu llawn botensial, yn enwedig ar frig yr ysgol. Mae gor-gyfarwyddo gan athrawon yng nghyfnod allweddol 2 yn cyfyngu ar allu'r disgyblion i fod yn ddysgwyr annibynnol.

Mae'r staff yn modelu iaith glir, sy'n cyfrannu'n dda at safonau iaith lafar y disgyblion. Mae perthynas waith effeithiol iawn rhwng oedolion a disgyblion, sy'n meithrin awyrgylch dysgu llwyddiannus.

Ar draws yr ysgol, mae athrawon yn rhannu amcanion dysgu clir gyda'r disgyblion yn rheolaidd. Yn ystod y gwersi, mae athrawon yn rhoi adborth llafar cadarn i'r disgyblion a chaiff gwaith ysgrifenedig ei farcio'n rheolaidd. Yn gyffredinol, mae'r sylwadau'n adeiladol, ond nid ydynt bob amser yn rhoi arweiniad digon clir i'r disgyblion wybod sut i wella eu gwaith.

Mae gan yr ysgol systemau cynhwysfawr ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae'r ysgol yn defnyddio deilliannau profion safonol ac ystod o dasgau asesu priodol eraill i asesu gwaith y disgyblion yn effeithiol. Maent yn defnyddio'r wybodaeth i gynllunio gweithgareddau addas sy'n bodloni anghenion unigolion a grwpiau o ddysgwyr yn llwyddiannus.

Mae adroddiadau blynyddol i rieni yn gynhwysfawr ac yn cynnwys sylwadau pwrpasol ar gynnydd eu plentyn, ynghyd â thargedau gwelliant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gweithredu fel cymuned drefnus a gofalgar sy'n hyrwyddo pwysigrwydd lles disgyblion yn gadarn iawn.

Mae rheolau a gweithdrefnau'r ysgol yn pwysleisio amgylchedd ofalgar a pharchus ac mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth a chanllawiau addas er mwyn hyrwyddo a chefnogi addysg eu plant yn rheolaidd.

Trwy wasanaethau dosbarth, ysgol gyfan a chyfleoedd rheolaidd i fyfyrio, mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad personol, ysbrydol, moesol a chymdeithasol y disgyblion yn dda.

Mae gan yr ysgol nifer o systemau cadarn ar waith i hyrwyddo lles a datblygiad emosiynol disgyblion. Mae hyn yn gryfder yn yr ysgol. Mae cydweithio effeithiol iawn gyda nifer o wasanaethau arbenigol, fel therapydd iaith a'r gwasanaethau cymdeithasol, yn effeithio'n llwyddiannus ar les disgyblion.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gadarn. Mae anghenion disgyblion yn cael eu hadnabod yn gynnar ac mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda ystod o asiantaethau allanol i gefnogi disgyblion bregus. Mae'r cydlynydd addysg dysgu ychwanegol a staff yr ysgol yn darparu cefnogaeth gadarn ar gyfer y disgyblion. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn cael mynediad llawn i bob agwedd o fywyd yr ysgol.

Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plentyn a chânt eu cynnwys yn llawn yn y broses o greu a gwerthuso'r cynlluniau unigol. Mae'r athrawon yn gwerthuso cynnydd disgyblion yn erbyn eu targedau yn drwyadl, gan sicrhau bod y ddarpariaeth yn ymateb i'w anghenion.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ysgol Llanerch-y-medd yn gymuned groesawgar ac mae ethos hapus a gofalgar yn perthyn iddi. Mae pwyslais mawr ar barch ac mae gwerthoedd yr ysgol yn atgyfnerthu hyn yn llwyddiannus. Mae polisïau a gweithdrefnau'r ysgol yn hybu cydraddoldeb a mynediad cyfartal i holl ddisgyblion yr ysgol.

Mae ansawdd yr adnoddau'n dda a chânt eu defnyddio'n bwrpasol i gefnogi dysgu'r disgyblion. Mae'r arddangosfeydd ar waliau'r dosbarth a'r coridorau o ansawdd uchel iawn. Mae cydbwysedd da rhwng gwaith disgyblion ac arddangosfeydd sy'n cefnogi'r addysgu a'r dysgu.

Mae'r ganolfan gymunedol yn cael ei defnyddio'n rheolaidd ar gyfer ystod o weithgareddau'r ysgol a'r gymuned ehangach. Mae'r adeilad a'r ardal allanol o safon dda a chaiff y cae bob tywydd ei ddefnyddio'n rheolaidd i gyfoethogi agweddau o addysg gorfforol o fewn gwaith yr ysgol. Caiff yr adeilad, a'r tir o amgylch, eu cynnal yn lân a thaclus.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae arweinyddiaeth ofalgar y pennaeth yn sicrhau bod lles y disgyblion a'r staff yn ganolog i waith yr ysgol. Mae gan yr arweinwyr ddarlun priodol o gryfderau a gwendidau'r ysgol. Mae'r pennaeth, uwch dim rheoli a'r staff yn cydweithio'n agos. Mae ganddynt ddealltwriaeth addas am berfformiad yr ysgol, sydd wedi arwain at godi safonau, er enghraifft cyrhaeddiad disgyblion mewn Saesneg ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Mae rôl cydlynwyr pwnc yn datblygu'n briodol, a bellach maent yn dechrau cymryd rhan weithredol wrth fonitro safonau'r addysgu a'r dysgu. Mae gan y staff swydd ddisgrifiadau cyfredol, ond nid ydynt yn nodi'n glir gyfrifoldebau'r unigolion yn ddigon penodol.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi gosod nifer o strategaethau newydd ar waith er mwyn codi safonau a gwella'r ddarpariaeth. Mae'r strategaeth i ymateb i waith y

disgyblion yn dechrau dwyn ffrwyth, ac erbyn hyn mae ansawdd y marcio yn dechrau cael effaith ar gyflawniad disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r holl strategaethau strategol sydd ar waith, megis asesu ar gyfer dysgu a datblygu rhifedd ar draws y cwricwlwm wedi ymsefydlu'n ddigon cadarn, nac wedi cael digon o effaith ar safonau perfformiad yr ysgol.

Dros gyfnod, nid yw'r ysgol wedi rhoi digon o sylw i flaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. O ganlyniad, nid yw medrau rhifedd disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 wedi datblygu'n llawn.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn ac yn cyflawni eu dyletswyddau yn gydwybodol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Maent yn dechrau dadansoddi ystod o ddata perfformiad yn briodol ac mae eu dealltwriaeth o sut mae'r ysgol yn perfformio o'u chymharu ag ysgolion tebyg yn effeithiol. Maent wedi dechrau defnyddio'r wybodaeth gadarn sydd ganddynt i herio'r ysgol ynglŷn â'i pherfformiad. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur yr effaith ar berfformiad yr ysgol.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hunanarfarnu. Mae'r trefniadau yn cynnwys casglu tystiolaeth o ystod o ffynonellau, gan gynnwys dadansoddiad o ddata a chasglu barn y disgyblion, y rhieni, arsylwadau gwersi, craffu ar waith disgyblion ac adroddiadau monitro'r consortiwm. Yn ddiweddar, mae'r uwch dîm rheoli a chydlynwyr pwnc wedi dechrau cyfrannu at y broses trwy arsylwi gwersi a chraffu ar lyfrau. Fodd bynnag, nid yw'r adroddiadau bob amser yn ddigon arfarnol ac nid ydynt bob amser yn amlygu'r hyn sydd angen ei ddatblygu ymhellach. Dros gyfnod, nid yw arweinwyr yr ysgol wedi dadansoddi deilliannau monitro'n ddigon manwl er mwyn cynllunio camau strategol ar gyfer gwelliant.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu, er ychydig yn ddisgrifiadol mewn mannau, ar y cyfan yn rhoi darlun priodol o gryfderau a gwendidau'r ysgol. Mae'n nodi cryfderau'r ysgol, ond nid yw'n rhoi sylw digon manwl i'r agweddau sydd angen eu gwella mewn perthynas â'r ddarpariaeth a chyflawniad disgyblion. Mae cyswllt addas rhwng deilliannau'r hunanarfarnu â blaenoriaethau yng nghynllun gwella'r ysgol.

Mae'r cynllun gwella cyfredol yn nodi nifer o flaenoriaethau clir ar gyfer gwella. Mae'n cynnwys llinellau amser rhesymol, yn dosbarthu cyfrifoldebau clir i'w gweithredu, ynghyd â chostau a dangosyddion llwyddiant. Mae'r ddogfen gyfredol yn nodi'n glir yr agweddau ar gyfer gwelliant.

Nid yw'r ysgol wedi gwneud digon o gynnydd yn erbyn ychydig o argymhellion yr arolygiad blaenorol, yn enwedig mewn perthynas â chryfhau'r system fonitro ac adeiladu ar y safonau da gan anelu at ragoriaeth.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol wedi sefydlu nifer o bartneriaethau cadarn sy'n cyfrannu at wella safonau a lles disgyblion yn llwyddiannus iawn. Mae perthynas gref yn bodoli rhwng yr ysgol a'r rhieni. Mae cymdeithas ffrindiau'r ysgol yn weithgar ac yn codi arian yn rheolaidd

ar gyfer prynu adnoddau a chaledwedd TGCh sy'n cyfoethogi'r dysgu yn effeithiol. Caiff gwybodaeth ei rhannu'n effeithiol gyda'r rhieni drwy'r wefan a thrwy lythyron rheolaidd.

Mae gan yr ysgol bartneriaethau effeithiol iawn gydag asiantaethau arbenigol sy'n cefnogi'r ddarpariaeth i ddisgyblion bregus yn dda. Mae partneriaeth yr ysgol gyda'r swyddog lles uwchradd yn un gref ac yn hybu lefel uchel o bresenoldeb yn llwyddiannus.

Mae trefniadau da yn bodoli gyda'r ysgol feithrin i sicrhau bod disgyblion newydd yn ymgartrefu'n gyflym wrth ddechrau yn y Cyfnod Sylfaen. Mae trefniadau trosglwyddo disgyblion hŷn i'r ysgol uwchradd yn effeithiol ac yn eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae cydweithio gydag ysgolion y clwstwr i safoni a chymedroli gwaith disgyblion ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 wedi sicrhau dealltwriaeth briodol yr athrawon wrth lefelu gwaith disgyblion. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi dechrau cydweithio gydag ysgolion lleol eraill er mwyn datblygu medrau mathemateg disgyblion; fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith y cydweithio hwn ar ddeilliannau'r disgyblion.

Mae cysylltiadau eang a gwerthfawr gyda'r gymuned yn effeithiol iawn. Enghraifft o hyn yw'r modd mae'r disgyblion wedi plannu coed yn y pentref a chymryd rhan mewn perfformiadau ac eisteddfodau lleol. Mae hyn yn datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o bwysigrwydd perthyn i gymuned a gweithredu'n gymunedol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n llwyddiannus. Mae nifer addas o athrawon cymwys sydd yn cael eu defnyddio'n effeithiol i wneud y gorau o'u harbenigedd, er enghraifft i ddatblygu cerddoriaeth, gwyddoniaeth ac addysg gorfforol. Mae'r athrawon yn gweithio'n dda fel tîm i sicrhau bod disgyblion yn cael cyfle cyfartal i ddysgu. Mae tîm medrus a brwdfrydig o gymorthyddion yn darparu cymorth effeithiol iawn i ddisgyblion sy'n dylanwadu'n llwyddiannus ar godi safon gwaith a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae penderfyniadau gwariant yr ysgol yn cysylltu'n briodol â blaenoriaethau ar gyfer lles y disgyblion a chodi safonau. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro a rheoli gwariant yn ofalus.

Mae gan yr ysgol drefniadau pwrpasol ar gyfer rheoli perfformiad athrawon sy'n cael eu harwain gan y pennaeth. Fodd bynnag, nid yw amcanion gwella bob amser yn ffocysu'n ddigon clir ar faterion sy'n ymwneud â chodi safonau disgyblion.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llawn i ofynion statudol ar faich gwaith athrawon a gwna'r athrawon ddefnydd addas o'u hamser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu gwaith y disgyblion.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i ymateb i anghenion disgyblion sy'n gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim.

O ystyried cyflawniadau'r disgyblion dros gyfnod, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

# Atodiad 1:  Sylwadau ar ddata perfformiad

**6602157 - Ysgol Gymuned Llannerch-y-medd**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 121 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 20.6 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 16 | 11 | 16 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 93.8 | 100.0 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 16 | 11 | 16 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 93.8 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 43.8 | 45.5 | 37.5 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 16 | 11 | 16 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 93.8 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 37.5 | 27.3 | 43.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 1 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 16 | 11 | 16 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 81.3 | 100.0 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6602157 - Ysgol Gymuned Llannerch-y-medd**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 121 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 20.6 | |
| Grŵp PYD | 3 | (16%<PYD<=24%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 10 | 14 | 16 | 12 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 80.0 | 92.9 | 87.5 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 3 | 3 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 14 | 16 | 12 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 70.0 | 85.7 | 68.8 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 20.0 | 28.6 | 43.8 | 41.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 2 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 14 | 16 | 11 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 90.0 | 100.0 | 87.5 | 81.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 40.0 | 42.9 | 37.5 | 45.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 1 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 14 | 16 | 12 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 80.0 | 92.9 | 87.5 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 3 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 20.0 | 50.0 | 25.0 | 41.7 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 4 | 2 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 10 | 14 | 16 | 12 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 80.0 | 92.9 | 87.5 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 4 | 4 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 40.0 | 50.0 | 37.5 | 41.7 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 3 | 2 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 53 | 52<br>98%<br>98% | 1<br>2%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 53 | 53<br>100%<br>92% | 0<br>0%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 53 | 53<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 53 | 53<br>100%<br>97% | 0<br>0%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 53 | 53<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 53 | 53<br>100%<br>96% | 0<br>0%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 53 | 53<br>100%<br>99% | 0<br>0%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 53 | 53<br>100%<br>98% | 0<br>0%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 49 | 47<br>96%<br>91% | 2<br>4%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 53 | 53<br>100%<br>95% | 0<br>0%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 53 | 51<br>96%<br>77% | 2<br>4%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 53 | 53<br>100%<br>84% | 0<br>0%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i’r holiadur i rieni

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don’t know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 61 | 58 | 3 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 95% | 5% | 0% | 0% | | |
| | | 64% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 61 | 60 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 98% | 2% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 61 | 60 | 1 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 98% | 2% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 61 | 59 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 97% | 3% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 61 | 48 | 13 | 0 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 79% | 21% | 0% | 0% | | |
| | | 48% | 47% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 60 | 57 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 95% | 5% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 36% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 61 | 58 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 95% | 5% | 0% | 0% | | |
| | | 65% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 57 | 49 | 7 | 1 | 0 | 2 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 86% | 12% | 2% | 0% | | |
| | | 50% | 42% | 6% | 2% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 60 | 54 | 6 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 90% | 10% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 61 | 56 | 5 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 92% | 8% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 37% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 61 | 58 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 95% | 5% | 0% | 0% | | |
| | | 67% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs’. | 57 | 53 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 93% | 7% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 61 | 52 | 9 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 61 | 56 | 5 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 92% | 8% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 59 | 49 | 10 | 0 | 0 | 1 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 83% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 49% | 42% | 8% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 61 | 52 | 9 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 48 | 39 | 9 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 53% | 41% | 5% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 61 | 57 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 93% | 7% | 0% | 0% | | |
| | | 55% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 61 | 59 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 97% | 3% | 0% | 0% | | |
| | | 62% | 33% | 3% | 2% | | |

## Atodiad 3

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Anwen Eluned Griffith | Arolygydd Cofnodol |
| Rosemarie Wallace | Arolygydd Tîm |
| Margaret Gwyn Watkins | Arolygydd Lleyg |
| Delyth Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Dylan Williams | Enwebai |

## Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae’r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae’r tabl canlynol yn nodi’r amrediad oedrannau sy’n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy’n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw’r grŵp blwyddyn sy’n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae’r Cyfnod Sylfaen a’r cyfnodau allweddol yn cwmpasu’r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymraeg Morswyn
# Caergybi
# Ynys Môn
# LL65 2TH

## Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2015

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 02/07/2015**

## Cyd-destun

Ysgol gynradd gyfrwng Cymraeg yw Ysgol Morswyn. Mae wedi ei lleoli ar gyrion tref Caergybi, Ynys Môn. Mae'n gwasanaethu'r dref yn bennaf, ond hefyd yn derbyn rhai disgyblion o'r tu hwnt.

Mae cyfanswm o 154 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol, sy'n cynnwys 20 o oed meithrin. Mae'r niferoedd wedi codi'n sylweddol ers yr arolygiad diwethaf a gynhaliwyd yn Hydref 2010. Darparodd yr awdurdod lleol adeilad newydd ym Medi 2012 gyfer y plant dan 5 oed.

Mae chwe dosbarth yn yr ysgol, gyda tri ohonynt yn rhai un oedran. Derbynia'r ysgol y disgyblion yn rhan-amser yn y Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed ac yn amser llawn yn y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed. Mae tua 30% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n dod o gefndir ethnig lleiafrifol neu gymysg.

Defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng addysgu yn y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, addysgir y disgyblion drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae tua 18% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim sy'n agos i'r canran sirol a cenedlaethol. Mae 25% o'r disgyblion ar gofrestr anghenion dysgu ychwanegol yr ysgol, sydd yn uwch na'r ffigwr cenedlaethol. Mae 4 disgybl â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Ebrill 2013 a'r dirprwy ers Medi 2013.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymraeg Morswyn yn 2014-2015 yw £3,610. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd yn Ynys Môn yw £9,552 a'r lleiafswm yw £2,870. Mae Ysgol Gymraeg Morswyn yn y 39ain safle o'r 48 ysgol gynradd yn Ynys Môn o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol yr ysgol | Da |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r ysgol | Da |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad Ysgol Morswyn yn dda gan fod:

- rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd ac yn cyflawni'n dda
- bron pob un yn hyderus ddwyieithog erbyn diwedd cyfnod allweddol 2
- lefelau presenoldeb ac ymddygiad uchel a disgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at eu gwaith
- profiadau dysgu cyfoethog, ansawdd yr addysgu yn dda, a chymorthyddion dosbarth yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol
- darpariaeth effeithiol i hyrwyddo lles ac ethos cynhwysol a chartrefol lle teimla'r disgyblion yn hapus a diogel

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon ar gyfer gwella yn dda gan fod:

- gan y pennaeth weledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel a lles disgyblion
- ddealltwriaeth fanwl gan y corff llywodraethol o'r ysgol a'i pherfformiad sy'n ei alluogi i herio'r ysgol mewn meysydd sydd angen eu gwella yn effeithiol
- holl aelodau staff yr ysgol yn cydweithio'n effeithiol fel tîm
- yr ysgol wedi datblygu prosesau hunanarfarnu cadarn a chynlluniau clir ar gyfer gwella sy'n canolbwyntio ar godi safonau
- ystod dda o bartneriaethau sydd yn cael effaith gadarnhaol ar les a chyflawniad disgyblion

## Argymhellion

A1 Sicrhau mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ymestyn eu medrau ysgrifennu estynedig a’u hymwybyddiaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang

A2 Ymestyn lefel yr her i ddisgyblion o allu uwch

A3 Sicrhau bod disgyblion yn cymryd rhan mwy gweithredol wrth arfarnu eu gwaith eu hunain

A4 Datblygu ymhellach rôl strategol yr uwch dim rheoli

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu ac yn cyflawni'n dda yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Maent yn defnyddio eu medrau yn effeithiol ac yn dangos diddordeb a dyfalbarhad mewn gwersi.

Ar draws yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwrando'n dda ac yn medru adalw dysgu blaenorol yn briodol. O ystyried eu cefndir ieithyddol, mae medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n fuan. Mae llawer o ddisgyblion hŷn y Cyfnod Sylfaen yn cyfathrebu'n dda yn y Gymraeg gan ddefnyddio ystod eang o eirfa briodol sy'n cyd-fynd â'u gwaith a'u thema dosbarth. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfathrebu'n hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg gan fynegi eu hunain yn glir a chywir. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio ystod briodol o eirfa addas wrth fynegi barn a siarad am eu gwaith yn y dosbarth. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn cyrraedd safon uchel o ddwyieithrwydd ac yn medru newid yn rhwydd o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda ar draws yr ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn rhugl ac ystyrlon ac ar lefel sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Defnyddiant strategaethau priodol wrth ddarllen geiriau anghyfarwydd. Mae llawer o'r disgyblion yn medru trafod yn syml eu hoff lyfrau a chymeriadau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn gynyddol gywir a hyderus yn y Gymraeg. Erbyn diwedd y cyfnod, mae rhan fwyaf yn darllen yn rhugl gyda mynegiant a dealltwriaeth dda yn Saesneg. Maent yn cymhwyso eu medrau darllen yn dda i gefnogi eu gwaith mewn ystod o bynciau, er enghraifft wrth gywain gwybodaeth am drychineb Aberfan.

Ar draws yr ysgol, mae medrau ysgrifennu'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n effeithiol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae llawer o'r disgyblion yn ysgrifennu'n effeithiol ac yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o wahanol arddulliau ysgrifennu. Mae mwyafrif y disgyblion yn dangos rhuglder a chywirdeb cynyddol yn eu gwaith. Fodd bynnag, nid yw medrau ysgrifennu estynedig y disgyblion uwch eu gallu yn datblygu'n llawn. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i ysgrifennu mewn gwahanol ffurfiau. Maent yn cynllunio eu gwaith yn ofalus ac yn medru gwneud gwelliannau wrth ailddrafftio. Erbyn diwedd y cyfnod, mae gwaith rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos ymwybyddiaeth dda o nodweddion ffurfiau gwahanol o ysgrifennu. Maent yn ysgrifennu'n hyderus ar draws ystod o destunau yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan atalnodi a pharagraffu eu gwaith yn briodol. Fodd bynnag, nid ydynt yn ymestyn eu medrau ysgrifennu estynedig ar draws y pynciau yn ddigon cyson.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn llwyddiannus ar draws y meysydd dysgu. Er enghraifft, yng ngwaith thema'r tymor, maent yn casglu data a'i gyflwyno'n llwyddiannus ar ffurf graff bar. Mae llawer yn defnyddio geirfa fathemategol gywir wrth drafod eu gwaith. Mae safonau rhan fwyaf

y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 mewn gwersi mathemateg yn dda, ac maent yn defnyddio amrywiaeth briodol o ddulliau cyfrifo yn gywir. Mae llawer ohonynt yn defnyddio amrywiaeth briodol o ddulliau cyfrifo yn y pen ac yn ysgrifenedig yn gywir. Maent yn defnyddio iaith fathemategol yn gynyddol gywir ac yn gwneud defnydd priodol o ddata i gefnogi eu gwaith o fewn y gwahanol themâu. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio a chymhwyso eu medrau rhif a mesur gyda chywirdeb da ar draws y cwricwlwm. Maent yn casglu gwybodaeth mewn amrywiaeth o ffyrdd ac yn cyflwyno eu casgliadau yn gywir ar ffurf tablau a graffiau gwahanol, er enghraifft wrth drafod ymchwiliad i ba ddefnydd yw'r ynysydd gwres gorau.

Mae bron pob disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da mewn perthynas â'r targedau yn eu cynllun addysg unigol. Mae'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd cadarn yn unol â'u gallu. Mae rhan fwyaf y disgyblion o allu uwch yn gwneud cynnydd da yn eu medrau llythrennedd a rhifedd ond nid ydynt bob amser yn cael eu hymestyn ar draws y gweithgareddau dysgu.

Yn y Cyfnod Sylfaen, dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol ar y deilliant 5 disgwyliedig mewn medrau llythrennedd a datblygiad mathemategol gan amlaf wedi bod yn y 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn ystod yr un cyfnod, mae perfformiad y disgyblion ar y deilliant uwch (deilliant 6) gan amlaf wedi gosod yr ysgol yn y 25% uchaf mewn medrau llythrennedd a datblygiad mathemategol. Dros y pedair blynedd diwethaf, o gymharu ag ysgolion tebyg, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel 4 ddisgwyliedig mewn Saesneg wedi codi o'r 50% uwch i'r 25% uchaf. Mewn Cymraeg, mae perfformiad yr ysgol wedi ei gosod yn y 25% uchaf mewn tair o'r pedair blynedd diwethaf. Mewn mathemateg a gwyddoniaeth, mae perfformiad wedi codi o'r 50% is i'r 25% uchaf. Yn ystod yr un cyfnod, mae perfformiad y disgyblion ar y lefel uwch (lefel 5) gan amlaf wedi gosod yr ysgol yn y 50% uwch neu'r 25% uchaf yn y pedwar pwnc.

Nid oes patrwm arwyddocaol o wahaniaeth yng nghyflawniad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim o'u cymharu â'u cyfoedion.

**Lles: Da**

Mae pob un o'r disgyblion yn mwynhau bywyd a gwaith yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel yno. Maent yn ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, ffitrwydd a bwyta ac yfed yn iach. Maent yn cyflawni'n gyson dda yn eu datblygiad personol a chymdeithasol. Mae bron bob disgybl yn frwdfrydig, yn mwynhau eu gwersi ac yn cyfrannu'n eiddgar ymhob agwedd ar eu dysgu.

Mae ymddygiad y disgyblion ar draws yr ysgol yn dda iawn ac maent yn gwrtais a chroesawgar tuag at ymwelwyr. Mae'r disgyblion yn ofalus iawn o'i gilydd ac yn dangos parch at eraill mewn gwersi ac yn ystod amser egwyl. Mae disgyblion o bob oed yn cynnig cymorth a chyfeillgarwch i eraill yn gyson.

Mae lefelau presenoldeb disgyblion yn gyson uchel. Mae hyn wedi gosod yr ysgol ymhlith y 25% uchaf o ysgolion tebyg dros y pedair blynedd diwethaf. Mae prydlondeb yn dda.

Mae llawer o'r disgyblion yn derbyn cyfrifoldebau yn gydwybodol o fewn cymuned yr ysgol. Maent yn elwa'n uniongyrchol o gysylltiadau cadarn sy'n bodoli rhwng yr ysgol ac ymwelwyr, ynghyd ag ymweliadau â'r gymuned leol. Mae llais y disgyblion yn cael sylw gwerthfawr, gyda'r ysgol yn ymateb yn dda i'w syniadau drwy'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco.

Trwy gymryd rhan yn frwdfrydig mewn sawl gweithgaredd cymunedol, mae'r disgyblion yn datblygu'n aelodau cyflawn a chyfrifol o'u cymuned ac yn ymfalchïo yn eu Cymreictod.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n bodloni gofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol. Mae'r cynlluniau ysgol-gyfan yn sicrhau bod disgyblion o bob oedran yn cael ystod o brofiadau cyfoethog yn yr ysgol a thu hwnt. Mae'r ystod o brofiadau dysgu a ddarperir yn bodloni anghenion rhan fwyaf y disgyblion yn llwyddiannus.

Mae cynlluniau gwaith yn rhoi sylw da i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, mae datblygu'r medrau yn rhan amlwg o wersi yn ddyddiol. Mae cynllunio ar gyfer datblygu'r medrau yn dda yn y Cyfnod Sylfaen, yn unol â'r Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd ac yn datblygu'n briodol yng nghyfnod allweddol 2. Er hyn, nid yw'r ddarpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen nac yng nghyfnod allweddol 2 yn sicrhau cyfleoedd cyson i'r disgyblion ymestyn eu medrau ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ymwybyddiaeth o berthyn i'r gymuned a'r dimensiwn Cymreig wedi ei gwreiddio yn ethos yr ysgol ac yn treiddio drwy ei holl weithgareddau. Mae'r ymweliadau addysgol a'r defnydd o'r gymuned leol ac ymwelwyr, megis awduron ac artistiaid Cymru, yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn effeithiol. Mae'r ysgol yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion gystadlu yn yr Eisteddfod leol ac Eisteddfod yr Urdd.

Mae'r disgyblion yn cael amrywiaeth o gyfleoedd da i ddysgu am bwysigrwydd byw yn gynaliadwy ac yn iach. Caiff disgyblion o bob oedran gyfleoedd i weithio yn eu hardal leol ac mae llawer o'r disgyblion hŷn yn manteisio ar y cysylltiad gwerthfawr gydag ysgol yn yr Iwerddon. Er hyn, cyfyng yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am amrywiaeth o ardaloedd a'u lle yn y byd ehangach.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn effeithiol ar draws yr ysgol. Mae'r holl staff yn manteisio ar bob cyfle i gyfoethogi iaith disgyblion sy'n cyfrannu'n llwyddiannus at ei medrau llafaredd. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda, ac yn y rhan fwyaf o wersi maent yn esbonio cysyniadau newydd yn glir. Maent yn defnyddio ystod o ddulliau'n fedrus i sicrhau bod dilyniant o weithgareddau dysgu sy'n ennyn brwdfrydedd ac yn cynnal diddordeb rhan fwyaf y disgyblion. Maent yn holi'n dreiddgar er mwyn ymestyn dealltwriaeth rhan fwyaf y disgyblion. Er hynny, ar

adegau, nid yw'r gweithgareddau dysgu wedi eu haddasu er mwyn sicrhau bod disgyblion o bob gallu, yn enwedig y rhai o allu uwch, yn gwneud cynnydd llawn.

Mae'r holl athrawon yn cynnig adborth llafar gwerthfawr i ddisgyblion. Maent yn marcio eu gwaith yn rheolaidd ac mae'r sylwadau yn cynnig arweiniad priodol ar yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella. Maent yn gosod targedau clir i fodloni anghenion dysgu'r disgyblion. Mae rhan fwyaf yr athrawon yn defnyddio ystod o strategaethau asesu ar gyfer dysgu priodol, ond anghyson yw'r cyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr ar gyfer asesu ac olrhain cynnydd disgyblion. Mae gweithdrefnau lefelu a chymedroli gwaith y disgyblion dros amser yn sicrhau bod asesiadau athrawon yn gadarn. Mae rhieni yn derbyn gwybodaeth fuddiol am gyflawniadau a datblygiad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ddiogel a gofalgar sy'n hyrwyddo lles y disgyblion yn effeithiol. Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae gweithdrefnau a pholisïau'r ysgol yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol yn dda. Mae sesiynau addoli ar y cyd yn gosod naws Gristnogol a moesol gan roi cyfle i greu ethos myfyrgar.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n dda gydag asiantaethau allanol. Mae cymorth effeithiol wedi'i dargedu ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion, ac mae rhaglenni ymyrraeth wedi'u trefnu'n dda i fodloni anghenion y disgyblion hyn.

Mae gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer cefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Mae'r ysgol yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar trwy arsylwi, cyd-drafod â rhieni, athrawon a chymorthyddion dosbarth. Mae'r cynlluniau addysgu unigol ar gyfer y disgyblion hyn yn cynnwys targedau clir, ac mae trefniadau priodol ar gyfer trafod cynnydd â rhieni. Trwy asesiadau rheolaidd, mae'r ysgol yn dilyn cynnydd y disgyblion yn ofalus ac yn sicrhau eu bod yn cyflawni yn unol â'u targedau.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae naws deuluol i'r ysgol ac mae iddi ymdeimlad cartrefol. Mae'n gymuned hapus a chroesawgar gydag awyrgylch cyfeillgar ymhlith y staff a'r disgyblion. Mae'r ethos cynhwysol yn sicrhau bod pob disgybl yn cael hawl gyfartal i holl ddarpariaeth yr ysgol. Mae'r cydweithrediad, y gofal a'r goddefgarwch rhwng oedolion a phlant a rhwng plant a'i gilydd yn llwyddiannus, ac mae sylw teg i gyfraniad pob unigolyn a'i safbwyntiau.

Mae'r adeilad a'r safle yn ddigonol o ran maint ac yn cael ei gynnal a'i gadw yn dda. Mae'r staff yn gwneud defnydd cyson o bob rhan o'r adeilad ac o'r adnoddau awyr

agored i fodloni anghenion y Cyfnod Sylfaen. Mae'r staff wedi creu amgylchedd dysgu deniadol a lliwgar, ac mae arddangosfeydd ym mhob rhan o'r ysgol sy'n dathlu gwaith y disgyblion. Mae cyflenwad helaeth o adnoddau dysgu pwrpasol sydd mewn cyflwr da.

Mae'r ardaloedd awyr agored eang yn darparu amgylchedd diddorol ac amrywiol. Maent yn cynnwys cyfleusterau ar gyfer chwaraeon a hefyd gardd ysgol. Mae'r gweithgareddau hyn yn annog dealltwriaeth y disgyblion o fwyta a byw yn iach yn llwyddiannus.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel a lles disgyblion, a chynnwys yr holl rhanddeiliaid ym mhrosesau'r ysgol. Mae'n defnyddio data'n effeithiol i fonitro a herio perfformiad disgyblion. Yn ddiweddar, mae wedi mynd ati i ddatblygu rôl strategol a chwricwlaidd yr uwch dîm rheoli newydd. Fodd bynnag, mae'n rhy fuan i weld effaith hyn ar safonau gwaith disgyblion a gweithdrefnau'r ysgol.

Mae'r staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau ac wedi dechrau cyfarfod yn rheolaidd i drafod ar y cyd. Er hyn, nid oes ffocws digon clir ar wella safonau ac ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r holl staff yn llwyddo i greu ethos cartrefol a chynhwysol ar gyfer y disgyblion ac yn cydweithio'n dda gyda'i gilydd. Mae trefniadau rheoli perfformiad priodol yn cyfrannu at welliannau mewn dysgu ac addysgu ac yn cynnig cyfleoedd i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff.

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn gydwybodol ac mae ganddynt ddealltwriaeth fanwl o berfformiad y disgyblion. Mae ganddynt rôl strategol clir mewn gweithdrefnau hunanarfarnu a phennu blaenoriaethau ar gyfer gwella. Yn ddiweddar mae'r llywodraethwyr yn monitro blaenoriaethau'r cynllun datblygu. O ganlyniad mae ganddynt wybodaeth gynyddol am gryfderau'r ysgol a meysydd i'w datblygu sy'n eu galluogi i herio'r ysgol mewn meysydd sydd angen eu gwella yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da wrth gyflwyno mentrau sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, fel datblygu strategaethau llythrennedd a rhifedd, lles a'r Siarter Iaith. Mae'r rhain yn cael effaith gadarnhaol ar safon disgyblion.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r pennaeth wedi datblygu gweithdrefnau cadarn ar gyfer hunanarfarnu sy'n defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Maent yn cynnwys dadansoddi data perfformiad, arsylwi gwersi, craffu ar lyfrau a cheisio barn reolaidd staff, rhieni a llywodraethwyr. Mae llais y disgybl yn bwysig gan yr ysgol ac mae'r disgyblion yn cael cyfle i fynegi barn drwy holiaduron perthnasol. Defnyddir y wybodaeth yn effeithiol i adnabod cryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella. Mae'r

adroddiad hunanarfarnu cyfredol yn ddogfen gynhwysfawr ac yn cynnig darlun cywir o'r ysgol. Er hynny, mae'n ddisgrifiadol mewn mannau ac nid yw'n ddigon cryno er mwyn amlygu'n glir yr agweddau sydd angen eu gwella.

Yn dilyn y broses hunanarfarnu, mae'r ysgol yn pennu blaenoriaethau allweddol a meysydd ffocws ar gyfer datblygu'r ysgol. Mae cynllun datblygu yr ysgol yn drylwyr ac yn nodi targedau perthnasol a phenodol, ac mae ynddo feini prawf llwyddiant sy'n canolbwyntio'n dda ar ddeilliannau disgyblion. Mae'n rhoi amlinelliad clir o gyfrifoldebau staff, gofynion cyllidol a dulliau ar gyfer monitro cynnydd.

Mae'r camau gweithredu eisoes yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar wella safonau darllen a rhifedd disgyblion sy'n tangyflawni.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau strategol llwyddiannus sy'n arwain at wella safonau a lles disgyblion.

Mae gan yr ysgol berthynas gref gyda rhieni. Mae staff yn hysbysu rhieni'n dda am faterion cwricwlaidd, yn enwedig am y dulliau cyfredol o gynnal safonau darllen yn y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn eu galluogi i gefnogi dysgu eu plentyn yn effeithiol. Maent hefyd yn cyfrannu'n helaeth at brynu adnoddau a chyfarpar i'r ysgol a chefnogi ymweliadau fel Eisteddfod yr Urdd.

Mae partneriaeth gadarn yn bodoli gyda'r gymuned leol. Mae gweithgareddau cymunedol, fel prosiect 'Glan y Môr Newry', ynghyd â chyfleoedd i ymweld ag atyniadau lleol fel yr Amgueddfa Forwrol, yn cyfoethogi'r profiadau dysgu yn effeithiol. Mae cyfleoedd gwerthfawr i ymweld â chartrefi'r henoed a chynnal gwasanaethau amrywiol yn y capeli. Mae'r profiadau hyn yn hyrwyddo ymdeimlad disgyblion o bwysigrwydd cymuned a'u balchder at eu hardal leol.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â'r Cylch Meithrin sydd ar y safle er mwyn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n fuan yn y dosbarth derbyn. Mae gan yr ysgol bartneriaeth gref gyda'r ysgol uwchradd leol. Mae trefniadau pontio llwyddiannus ac ymweliadau pwrpasol gan aelodau o staff yr ysgol uwchradd yn sicrhau trosglwyddo esmwyth i ddisgyblion ar ddiwedd eu gyrfa yn yr ysgol hon. Mae'r ysgol yn cydweithio'n llwyddiannus gydag ysgolion cynradd ac uwchradd y dalgylch, er enghraifft wrth gyd-safoni a chymedroli gwyddoniaeth er mwyn sicrhau dilysrwydd lefelau ar ddiwedd cyfnod allweddol 2. Mae'r ysgol yn meithrin partneriaeth fuddiol gyda gwasanaethau'r awdurdod lleol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n effeithiol. Mae wedi ei staffio'n briodol a gwneir defnydd da o arbenigedd unigolion i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu. Mae cymorthyddion yn darparu cefnogaeth gadarn i'r athrawon ac maent yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i safonau cyrhaeddiad a lles y disgyblion.

Gwna'r athrawon ddefnydd pwrpasol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu a chaiff y trefniadau ar gyfer hyn eu rheoli'n dda. O ganlyniad i'r broses rheoli perfformiad,

caiff hyfforddiant ei gynllunio'n ofalus mewn perthynas â blaenoriaethau'r ysgol ac anghenion unigolion.

Mae'r ysgol yn datblygu'n gymuned dysgu effeithiol. Mae'r cydweithio llwyddiannus i ddatblygu strategaethau o fewn y clwstwr o ysgolion, fel tasgau rhifedd a chodi safonau llythrennedd, yn datblygu medrau ac arbenigedd staff yn effeithiol.

Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro a rheoli gwariant yn ofalus. Mae'r gwariant wedi'i gysylltu'n dda ag amcanion, targedau a blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i wella ymhellach y ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian o ran deilliannau disgyblion, ansawdd y ddarpariaeth a'r profiadau dysgu.

# Atodiad 1: Sylwadau ar ddata perfformiad

**6602177 - Ysgol Gymraeg Morswyn**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 150 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 24.6 | |
| Grŵp PYD | 4 | (24%<PYD<=32%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 20 | 18 | 18 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 70.0 | 83.3 | 83.3 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 20 | 18 | 18 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 90.0 | 83.3 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 45.0 | 38.9 | 44.4 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 20 | 18 | 18 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 85.0 | 88.9 | 88.9 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 50.0 | 33.3 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 20 | 18 | 18 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 85.0 | 94.4 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 70.0 | 55.6 | 55.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'I gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6602177 - Ysgol Gymraeg Morswyn**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 150 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 24.6 | |
| Grŵp PYD | 4 | (24%<PYD<=32%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 15 | 19 | 17 | 16 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 86.7 | 89.5 | 94.1 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 1 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 15 | 19 | 17 | 16 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 86.7 | 89.5 | 94.1 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 46.7 | 26.3 | 41.2 | 43.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 | 1 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 15 | 19 | 17 | 16 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 93.3 | 94.7 | 94.1 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 40.0 | 26.3 | 47.1 | 43.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 1 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 15 | 19 | 17 | 16 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 86.7 | 89.5 | 94.1 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 33.3 | 26.3 | 47.1 | 43.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 1 | 1 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 15 | 19 | 17 | 16 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 86.7 | 100.0 | 94.1 | 93.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 2 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 26.7 | 26.3 | 47.1 | 43.8 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 1 | 1 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

### Arolwg Cynradd (Pob Disgybl)

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 66 | 66 | 0 | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 66 | 59 | 7 | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 89% | 11% | |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 66 | 63 | 3 | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 95% | 5% | |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 66 | 66 | 0 | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 100% | 0% | |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 66 | 64 | 2 | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 97% | 3% | |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 66 | 57 | 9 | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 86% | 14% | |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 66 | 65 | 1 | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 66 | 64 | 2 | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 97% | 3% | |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 66 | 61 | 5 | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 92% | 8% | |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 66 | 65 | 1 | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 98% | 2% | |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 66 | 58 | 8 | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 88% | 12% | |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 66 | 58 | 8 | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 88% | 12% | |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Strongly Agree Cytuno'n gryf | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | Strongly disagree Anghytuno'n gryf | Don't know Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 32 | 27 | 5 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 84% | 16% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 32 | 29 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 91% | 9% | 0% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 32 | 28 | 4 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 88% | 12% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 32 | 27 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 84% | 16% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 32 | 22 | 10 | 0 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 46% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 32 | 24 | 8 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 75% | 25% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 32 | 27 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 84% | 16% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 32 | 22 | 9 | 0 | 0 | 1 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 69% | 28% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 32 | 25 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 78% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 32 | 27 | 5 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 84% | 16% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 32 | 28 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 88% | 12% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 29 | 20 | 8 | 1 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 69% | 28% | 3% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 31 | 23 | 7 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 74% | 23% | 3% | 0% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 32 | 29 | 2 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 91% | 6% | 3% | 0% | | |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 32 | 26 | 6 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 32 | 25 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 78% | 22% | 0% | 0% | | |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 30 | 19 | 7 | 2 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 63% | 23% | 7% | 0% | | |
| | | 43% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 32 | 23 | 9 | 0 | 0 | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 72% | 28% | 0% | 0% | | |
| | | 54% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 31 | 28 | 3 | 0 | 0 | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 90% | 10% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Mr Edward Goronwy Morris | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Mr Jeremy George Turner | Arolygydd Lleyg |
| Bethan Bleddyn | Arolygydd Cymheiriaid |
| Medwyn Roberts (Pennaeth) | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau.  Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.  Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

CCYSAGauC
Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru
WASACRE
Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education

***Cyfarfod Cymdeithas CYSAGau Cymru, Swyddfeydd y Cyngor Bodlondeb***
***Dydd Gwener, 28 Mehefin 2019***
**10.30a.m. – 3.00p.m.**

**Yn bresennol**

| | | |
|---|---|---|
| **Ynys Môn**<br>Rheinallt Thomas (RT)<br>Dylan Rees (DR)<br><br>**Blaenau Gwent**<br>Paula Webber (PW)<br><br>**Pen-y-bont ar Ogwr**<br>Edward J. Evans (EE)<br>Maggie Turford (MT)<br><br>**Caerffili**<br>Paula Webber (PW)<br><br>**Caerdydd**<br>Maggie Turford (MT)<br><br>**Sir Gaerfyrddin**<br><br>**Ceredigion**<br>Lyndon Lloyd (LL)<br><br>**Conwy**<br>Huw Roberts (HR)<br>Nicholas Richter (NR)<br>Dafydd Ipain (DI)<br>Abdul Khan (AK)<br>Karl Lawson (KL)<br>Iona Evans (IE)<br>Cyng. Owen<br><br>**Sir Ddinbych**<br>Alison Ballantyne (AB) | **Sir y Fflint**<br><br>**Gwynedd**<br>Paul Rowlinson (PR)<br><br>**Merthyr Tudful**<br>Maggie Turford (MT)<br>Ernie Galsworthy (EG)<br>Mark Prewet (MP)<br><br>**Sir Fynwy**<br>Paula Webber (PW)<br>Louise Brown (LB)<br><br>**Castell-nedd Port Talbot**<br>Rachel Samuel (RS)<br><br>**Casnewydd**<br>Paula Webber (PW)<br>Huw Stephens (HS)<br><br>**Sir Benfro**<br><br>**Powys**<br>John Mitson (JM)<br>Sian Fielding (SF)<br><br>**Rhondda Cynon Taf**<br>Maggie Turford (MT) | **Abertawe**<br><br>**Torfaen**<br>Paula Webber (PW)<br><br>**Bro Morgannwg**<br>Maggie Turford (MT)<br><br>**Wrecsam**<br>Libby Jones (LJ)<br>Vaughan Salisbury (VS)<br><br>**Sylwedyddion**<br>Rudolf Elliot Lockhart, REC<br>Gwyneth M Hughes, CSYM<br><br>**Cyflwynwyr**<br>Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru<br><br>**Cofnodion**<br>Gill Vaisey (GV) |

**Cofnodion y cyfarfod**

## 1. Cyflwyniad a chroeso

Cyn y cyfarfod, bu'r aelodau'n mwynhau cyflwyniadau gan ddisgyblion a staff Ysgol Glan Gele. Rhoddodd y Pennaeth, Julia Buckley Jones, gyflwyniad ar y cwricwlwm newydd. Rhannodd y disgyblion eu profiadau o Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd yn eu hysgol. Fe ddywedon nhw fod yr ysgol yn eiddgar i roi cynnig ar y cwricwlwm newydd i Gymru. Yna canodd y disgyblion ddwy gân.

Croesawyd pawb i Swyddfeydd y Cyngor ym Modlondeb gan Dafydd Owen, y Cyfarwyddwr Addysg Dros Dro.

Croesawyd pawb i Gonwy gan Is Gadeirydd CYSAG Conwy, Abdul Khan a chyfeiriodd ef at y gymysgedd o gobl sy'n rhan o'u CYSAG. Pwysleisiodd pa mor bwysig yw bod pawb yn parchu safbwyntiau a chredoau ei gilydd. Mynegodd ei bryderon am y diffyg swyddogion addysg sy'n arbenigo mewn AG. Mynegodd ei ddiolch i Phil Lord a arferai roi cefnogaeth i GYSAG Conwy ond a symudwyd o'r swydd hon.

## 2. Adfyfyrio tawel

Soniodd EE am grŵp o ddarpar athrawon y bu'n eu hannerch yn ddiweddar. Cyfeiriodd at y dywediad 'dysgu yw cyffwrdd â bywyd am byth'.

Myfyriodd am ddywediadau eraill hefyd, megis 'anelwch am y lleuad a hyd yn oed os ydych yn methu, fe gyrhaeddwch chi'r sêr'; a 'mae'r athro cyffredin yn dweud, mae'r athro da yn esbonio, mae'r athrawon gorau yn dangos, ac mae'r athro mawr yn ysbrydoli'.

Gwahoddodd yr aelodau i ystyried nad ydym byth yn gwybod pa effaith mae ein geiriau a'n gweithredoedd yn eu cael ar eraill, ac y dylem gofio hyn bob amser.

## 3. Ymddiheuriadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan

Kathy Riddick (Blaenau Gwent), Alison Lewis (Abertawe), Mathew Maidment (RCT), Jennifer Harding-Richards (Abertawe), Andrew Jones (Sir Fynwy), Michelle Gosney (Estyn) Tania ap Sion (Wrecsam), Huw George (Sir Benfro),

## 4. Cyflwyniad PYCAG: Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru

**'Y Ffordd Gywir: Addysg yng Nghymru o Safbwynt Hawliau Plant.'**

Pwysleisiodd Sally'r ffaith ei bod hi'n annibynnol ac nad yw'n gweithio i un sefydliad arbennig.

Atgoffodd yr aelodau fod gan blant bedwar deg dau o hawliau 'waeth beth'. Mae gan blant yr hawl i addysg sy'n caniatáu iddynt gyrraedd eu potensial. Pan maent yn cael dewis o 'gardiau hawliau', mae plant yn aml yn dewis y cerdyn 'yr hawl i gael fy nghrefydd fy hun'.

Ymateb ei swyddfa i'r ymgynghoriad ar y cwricwlwm newydd oedd eu bod yn teimlo y dylai fod mwy o bwyslais ar gydraddoldeb profiadau ar draws Cymru ac y dylai pob plentyn gael cyfle i ddysgu am bobl cred ledled Cymru ac nid y rhai yn eu hardal yn unig. Cyfeiriodd Sally at ddeunydd yr oeddent wedi'i gynhyrchu am Islamoffobia a'r adborth gan rai ysgolion a ddywedodd na fyddent yn defnyddio'r adnoddau hyn gan nad oedd ganddynt unrhyw Fwslimiaid yn eu hysgol!

Roedd hi'n cytuno â rhoi hawl i dynnu'n ôl o AG yn y chweched dosbarth ond yn teimlo y dylai disgyblion gael y dewis i dderbyn AG os ydynt yn dymuno hynny.

Roedd hi'n cefnogi cael gwared ar yr hawl i rieni dynnu eu plant yn ôl o AG gan ei bod yn teimlo ei fod yn rhan o hawl plentyn i addysg lawn sy'n cynnwys AG ac addysg am berthnasoedd a rhyw.

Mae angen i bob plentyn ddysgu am eu hawliau dynol a gwybod fod hawl ganddynt i'w cael nhw gan wybod hefyd y dylent gefnogi hawliau pobl eraill. Dylent ddod yn ddinasyddion sy'n gweithredu dros hawliau dynol.

Mae pum egwyddor graidd i gefnogi gweithredu'r pedwar deg dau hawl:

1. Gwreiddio'r CCUHP ym mhopeth y mae ysgolion yn ei wneud – gan sicrhau fod y 42 hawl yn cael eu hadlewyrchu drwy fywyd yr ysgol

2. Cydraddoldb a pheidio â gwahaniaethu - edrych ar beth mae'r plant yn ei ddweud am eu profiadau o deimlo'u bod yn cael eu cynnwys

3. Grymuso plant - mae'n rhaid i blant wybod am eu hawliau er mwyn gallu eu harfer. (Mae clip defnyddiol ar wefan Sally o ysgol yn Abertawe a oedd wedi edrych yn arbennig ar hawl 19 - yr hawl i fod yn ddiogel. Siaradodd y plant â'r athrawon am rai gweithgareddau y tu allan i'r ysgol yr oeddent yn eu mynychu lle nad oedd y plant yn teimlo'n ddiogel. Aethant â'r pryder hwn at y Pennaeth, a wrandawodd a gweithredodd lle nad oedd y rhieni wedi gwneud.

4. Cyfranogiad – diwylliant o gyfranogi – myfyrwyr sy'n teimlo fod ganddynt berchnogaeth dros werthoedd, moeseg, cyfeiriad eu hysgol ochr yn ochr â rhieni ac athrawon. Mae'n werth ystyried pa mor effeithiol yw cynghorau ysgol mewn ysgolion.

5. Atebolrwydd – mae Sally wedi bod yn gofyn i Lywodraeth Cymru ers pedair blynedd i gynnwys plant yn y broses ymgynghori ar y cwricwlwm ac roedd hi'n falch o ddweud fod hyn newydd ddigwydd o'r diwedd yr wythnos honno – er ei bod yn hwyr iawn yn y broses.

Mae swyddfa Sally yn gofyn i hawliau plant fod yn amlwg o fewn y cwricwlwm newydd. Mae'n teimlo fod hyn yn amlwg iawn yn barod ym Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau ac i raddau hefyd ym MDaPh Iechyd a Lles.

Byddai hi'n dymuno gwneud AG ac Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yn orfodol gan fod yr addysg yma yn rhan o hawliau plant.

Mynegodd aelod o Ynys Môn bryder am y diffyg safon addysg i'r rheiny sy'n cael eu haddysgu gartref gan nad yw hyn yn ei le ar hyn o bryd.

Roedd Sally'n cydnabod fod cynnydd gwirioneddol yn nifer y disgyblion sy'n cael ysgol gartref ac yn cydnabod fod amryw o resymau dros hyn. Mae'r Llywodraeth wedi derbyn ei 'thri phrawf' - gwybod ymhle mae pob plentyn, fod pob hawl yn cael eu derbyn yn cynnwys

addysg addas, fod pob plentyn yn cael eu gweld ac yn cael ymweliad gan swyddogion fel bod cyfle i'w lleisiau gael eu clywed. Mae'r Llywodraeth yn cynnig cronfa ddata o blant yn hytrach na chofrestr. Nid oes awydd yn y DU i ragnodi cwricwlwm ar gyfer ysgol gartref (fel sy'n digwydd yn Jersey). Disgwylir ymgynghoriad ar ganllawiau llywodraeth statudol yn fuan.

Nid yw Sally'n cytuno â gosod y geiriau 'hawliau a chyfrifoldebau' gyda'i gilydd yn awtomatig gan fod gan blant hawliau 'waeth beth'. Mae pobl yn dal i feddu ar eu hawliau dynol waeth beth y maent wedi'i wneud. (Ar hyn o bryd mae un ar hugain o blant mewn carchar yng Nghymru ac maent i gyd yn cadw eu hawliau o dan y CCUHP, er eu bod wedi cyflawni troseddau difrifol).

Mae cwmni o'r enw Dynamix wrthi'n cynnal grwpiau ffocws ac mae'r llywodraeth wedi creu arolwg ar-lein ar y cwricwlwm. Mae hwn ar gael i'r holl blant a phobl ifanc er bod tri mis wedi mynd ers dechrau'r ymgynghoriad presennol.

Mewn ateb i gwestiwn am y cymal presennol ynghylch yr hawl i dynnu'n ôl o AG, cynigiodd Sally anfon gwybodaeth bellach (darn o'i hymateb i ymgynghoriad y llywodraeth).

Diolchodd EE a'r aelodau i gyd i Sally am ei chyflwyniad diddorol iawn oedd o gymorth mawr.

**5. Diweddariadau ar y Cwricwlwm i Gymru**

Adroddodd PW fod PYCAG a CCYSAGauC wedi bod yn gweithio y diwrnod cynt ar ymateb i'r ymgynghoriad. Mae angen mwy o waith ar hwn cyn y bydd yn derfynol. Y dyddiad cau yw 19 Gorffennaf. Bydd yr ymateb drafft yn cael ei anfon i aelodau Pwyllgor Gwaith CCYSAGauC ac aelodau PYCAG i ddechrau cyn terfynu'r ymateb ar y cyd.

Cynhaliwyd cyfarfodydd CYSAGau rhanbarthol hefyd i ystyried yr ymgynghoriad.

Mae Vaughan Salisbury wedi ymateb ar ran y Cyngor Eglwysi Rhyddion ac mae hwn ar gael i'w weld ar wefan yr Eglwysi. Mae Vaughan wedi rhannu dogfennau gyda Libby Jones i CCYSAGauC.

Pwysleisiodd PW bwysigrwydd ymateb a dywedodd ei fod yn agored i bob sefydliad, ac i unigolion.

**6. Diweddariad ar Fframwaith Cefnogi AG**

Atgoffodd LJ yr aelodau yr ymgynghorwyd â ChYSAGau ynghylch a ddylid cynhyrchu Fframwaith Cefnogi. Adroddodd fod y broses o ysgrifennu'r Fframwaith Cefnogi wedi dechrau ym mis Chwefror gydag amrywiaeth o arbenigwyr proffesiynol o bob cwr o Gymru. Mae'r ddogfen yn dechrau siapio erbyn hyn er bod dal angen mwy o waith. Pwysleisiodd y medrau sydd eu hangen i gynhyrchu'r fframwaith hwn gan fod angen ystyried y pwyslais ar ddatganoli yn y cwricwlwm newydd. Mae peidio â bod yn benodol yn her ond mae athrawon yn ddiolchgar am y canllawiau a roddir gan arbenigwyr AG. Bydd y Fframwaith Cefnogi drafft yn cael ei rannu gyda ChYSAGau drwy gyfarfodydd a drefnir gan Lywodraeth Cymru cyn bo hir.

Y gobaith yw y bydd CYSAGau yn mabwysiadu'r Fframwaith Cefnogi fel eu Maes Llafur Cytûn. Bydd yn cynnwys cyfeiriadau at y newidiadau mewn deddfwriaeth sydd yn cynnwys cyflwyno

AG i ddisgyblion o 3 blwydd oed. Y nod yw cynnig cyngor a gwybodaeth a allai fod ar hyn o bryd yng Nghylchlythyr Cymru 10/94 ac sydd dal yn briodol.

Diolchodd EE i PW a LJ am y gwaith enfawr y maent yn ei wneud ar ran CCYSAGauC a Chymru.

Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd fod cynrychiolaeth o HCA ar weithgor y fframwaith yn ffurf Rachel Bendall sydd ar y panel ymgynghorol o arbenigwyr.

Codwyd cwestiwn am le hanes crefydd yng Nghymru a hanes diwylliannol Cymru ac a yw hyn yn cael ei gynnwys yn y cwricwlwm. Dywedodd Rachel Samuel fod cyfle i ysgolion ddewis yr hyn maent yn ei gynnwys yn eu haddysgu; fodd bynnag dylai hyn gynnwys hanes lleol.

Pwysleisiodd PW, fodd bynnag, nad yw'r cwricwlwm yn 'unrhyw beth i unrhyw un' ac y bydd yn cyfeirio athrawon i fynd i'r afael â chysyniadau allweddol dwfn penodol, defnyddio sgiliau penodol ac ennill gwybodaeth gyfoethog drwy brofiadau.

Tynnodd LJ sylw at y ffaith fod MDaPh Iechyd a Lles hefyd yn mynd i'r afael â phrofiadau dysgu cyfoethog ochr yn ochr â'r Meysydd eraill. Yn sail i'r Meysydd Dysgu a Phrofiad i gyd mae'r Pedwar Diben, sy'n anelu at baratoi disgyblion at fyd gwaith.

**7. Cefnogaeth AG broffesiynol i GYSAGau**

Gwahoddwyd CCYSAGauC i ysgrifennu papur i argymell i'r Gweinidog fod pedwar cynghorydd – un i bob rhanbarth – yn cael eu cyflogi i wasanaethau CYSAG pob consortiwm.

Awgrymodd VS hefyd na ddylem o reidrwydd gyfyngu'n cais i LlLC i bedwar cynghorydd yn unig.

Adroddodd RT fod yr angen i bob consortiwm gyflogi cynghorydd AG arbenigol wedi cael ei godi mewn cyfarfod diweddar o'r Fforwm Cymunedau Ffydd hefyd.

Cyflogwyd cynghorydd herio i gefnogi'r CYSAG ond nid yw hyn yn gweithio gan nad oes ganddi amser i fynychu cyfarfodydd PYCAG.

Nododd rhai aelodau yr angen am athrawon a chynghorwyr AG dwyieithog. Soniodd LJ am y broblem fod diffyg athrawon dwyieithog yn gyffredinol a bod goblygiadau gan hyn i AG. Mae hyn yn broblem ymhob pwnc.

Holodd LJ ymhle y gallem ddod o hyd i arbenigwr mewn AG sydd hefyd yn ddwyieithog ac yn meddu ar y sgiliau i weithredu fel cynghorydd a gyflogir gan y Consortia. Cydnabuwyd hefyd mai dim ond un rhan o'r ateb yw dyrannu cyllid i gyflogi pedwar cynghorydd; mae angen hefyd rhoi cefnogaeth i hyfforddi arbenigwyr AG i ddod yn gynghorwyr i GYSAGau.

Cyfeiriodd HS at yr angen i recriwtio cynghorydd ar gyfer goruchwylio fod maes llafur cytûn yn cael ei fabwysiadu. Cytunodd LJ y bydd angen cynghorydd arbenigol i gefnogi Cynhadledd Maes Llafur Cytûn wrth ystyried p'un ai i fabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Cefnogi yn 2021. Unwaith y mae'r Maes Llafur Cytûn yn ei le, bydd dal angen cefnogi athrawon i'w weithredu.

**8. Dysgu Proffesiynol i AG**

Rhannodd PW ganlyniadau'r cyfarfod â chynrychiolydd Llywodraeth Cymru - Kevin Palmer. O ganlyniad i'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mehefin, cytunwyd ar gyllid ar gyfer pecyn dysgu proffesiynol, sef cyfres o adnoddau yn benodol i AG, ynghyd â hyfforddiant i bawb oedd yn cymryd rhan mewn dysgu AG a hyfforddi myfyrwyr HCA. Adnabuwyd hefyd yr angen am hyfforddiant ar gyfer lleoliadau nas cynhelir.

**9. Diweddariadau:**

Adroddodd LJ ar gyfarfod PYCAG y diwrnod cynt a'i phryder am y nifer isel a oedd yn bresennol yn y cyfarfod - roedd chwe aelod yn y bore a dim ond tri yn y prynhawn. Nid yw hyn yn bresenoldeb digonol pan mae cymaint o faterion pwysig sydd angen sylw. Bydd Maggie Turford yn gadael ei swydd gyflogedig gan y CSC gan nad yw hi'n dymuno parhau wedi i'w chytundeb ddod i ben ar 31 Awst. Bydd hyn yn effeithio ar bum CYSAG.

Cyfeiriodd LJ at y cyfarfodydd cydweithredol sydd i fod i gefnogi ymgynghori ar y cwricwlwm.

Bydd PW a LJ yn cwrdd â'r Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru i ddweud wrthynt am y Fframwaith Cefnogi i AG. Gobeithir y bydd hyn yn help i'r fframwaith gael ei fabwysiadu ym mhob Awdurdod Lleol yng Nghymru.

Mae PYCAG yn dymuno gwahanu Addoli ar y Cyd ac Addysg Grefyddol o Gylchlythyr 10/94 i ddwy ddogfen ar wahân. Gallai'r adrannau sy'n berthnasol i AG wedyn fynd i'r Fframwaith Cefnogi.

Cynigiwyd cael hyfforddiant i gefnogi cynghorwyr newydd i GYSAGau ayb. Bydd angen cynnig hyn i CCYSAGauC yn ffurfiol a chael cytundeb mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Gellid gwerthuso cyfansoddiadau'r 22 CYSAG gyda golwg ar ystyried a ellir cael cyfansoddiad yr un fath i GYSAGau ar draws Cymru.

Soniodd aelodau PYCAG hefyd am y posibilrwydd o ysgrifennu 'Briff her i AG' a allai fod yn rhan o Fagloriaeth Cymru os yw AG Ôl-16 yn cael ei dynnu fel gofyniad cyfreithiol.

Bydd LlC yn ymgynghori ar Addoli ar y Cyd ar wahân yn 2020.

Bydd y Fframwaith Cefnogi AG drafft yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ym mis Ionawr 2020.

**10.** Adroddiad o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 14 Mai 2019

Ni chofnodwyd

**11. Y CYSAG Effeithiol**

Ni chofnodwyd

**12. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 26 Mawrth 2019**

Ni chofnodwyd

**13. Materion yn codi**

Ni chofnodwyd

**14. Gohebiaeth**

Ni chofnodwyd

**15. Dangos a dweud**

Ni chofnodwyd

**16. Unrhyw fater arall**

Ni chofnodwyd

**17. Dyddiad y cyfarfod nesaf:**

**Hydref 2019 –** Ceredigion I'w gadarnhau

Gwanwyn 2020 – Merthyr Tudful

Diolchodd EE i bawb a gymerodd ran yn y cyfarfod ac yn arbennig i:

Y Pennaeth, Julia Buckley Jones, disgyblion a staff Ysgol Fabanod Glan Gele; Dafydd Owens, Cyfarwyddwr Addysg Dros Dro; Abdul Khan, Is Gadeirydd CYSAG Conwy a Yona Evans Awdurdod Lleol Conwy.

CCYSAGauC
Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol Cymru
WASACRE
Wales Association of Standing Advisory Councils on Religious Education

***Wales Association of SACREs meeting, at Bodlondeb Council Offices***

***Friday, 28th June 2019***

**10.30a.m. – 3.00p.m.**

**Attendance**

| | | |
|---|---|---|
| **Ynys Môn / *Anglesey***<br>Rheinallt Thomas (RT)<br>Dylan Rees (DR)<br><br>**Blaenau Gwent**<br>Paula Webber (PW)<br><br>**Pen-y-bont ar Ogwr / *Bridgend***<br>Edward J. Evans (EE)<br>Maggie Turford (MT)<br><br>**Caerffili/ *Caerphilly***<br>Paula Webber (PW)<br><br>**Caerdydd / *Cardiff***<br>Maggie Turford (MT)<br><br>**Sir Gaerfyrddin / *Carmarthenshire***<br><br>**Ceredigion**<br>Lyndon Lloyd (LL)<br><br>**Conwy**<br>Huw Roberts (HR)<br>Nicholas Richter (NR)<br>Dafydd Ipain (DI)<br>Abdul Khan (AK)<br>Karl Lawson (KL)<br>Iona Evans (IE)<br>Cllr Owen<br><br>**Sir Ddinbych / *Denbighshire***<br>Alison Ballantyne (AB) | **Sir y Fflint / *Flintshire***<br><br>**Gwynedd**<br>Paul Rowlinson (PR)<br><br>**Merthyr Tudful / *Merthyr Tydfil***<br>Maggie Turford (MT)<br>Ernie Galsworthy (EG)<br>Mark Prewet (MP)<br><br>**Sir Fynwy / *Monmouthshire* Sir**<br>Paula Webber (PW)<br>Louise Brown (LB)<br><br>**Castell-nedd Port Talbot /*Neath and Port Talbot***<br>Rachel Samuel (RS)<br><br>**Casnewydd / *Newport***<br>Paula Webber (PW)<br>Huw Stephens (HS)<br><br>**Sir Benfro / *Pembrokeshire***<br><br>**Powys**<br>John Mitson (JM)<br>Sian Fielding (SF)<br><br>**Rhondda Cynon Taf**<br>Maggie Turford (MT) | **Abertawe / *Swansea***<br><br>**Torfaen**<br>Paula Webber (PW)<br><br>**Bro Morgannwg / *Vale of Glamorgan***<br>Maggie Turford (MT)<br><br>**Wrecsam / *Wrexham***<br>Libby Jones (LJ)<br>Vaughan Salisbury (VS)<br><br>**Sylwedyddion / *Observers***<br>Rudolf Elliot Lockhart, REC<br>Gwyneth M Hughes, CSYM<br><br>**Cyflwynwyr/*Presenters***<br>Sally Holland, Children's Commissioner for Wales<br><br>**Minutes**<br>Gill Vaisey (GV) |

**Minutes of the meeting**

## 1. Introduction and welcome

Prior to the meeting members enjoyed presentations from pupils and staff from Ysgol Glan Gele Infant School. Headteacher, Julia Buckley Jones gave a presentation on the new curriculum. Pupils shared their experiences of RE and Collective Worship in their school. They talked about the school being excited about trying out the new curriculum for Wales. Pupils then performed two songs.

Dafydd Owens, Acting Director of Education, welcomed everyone to Bodlondeb Council Offices.

Vice Chair of Conwy SACRE, Abdul Khan welcomed everyone to Conwy and referred to the mix of people that make up their SACRE. He stressed how important it is that everyone respects each other's different views and beliefs. He referred to his concerns about the lack of specialist religious education officers. He expressed his thanks to Phil Lord who used to support Conwy SACRE but was taken away from this post.

## 2. Quiet reflection

EE shared thoughts about a group of prospective headteachers he recently addressed. He referred to the saying 'to teach is to touch a life forever'.

He reflected on other sayings such as 'reach for the moon and even if you miss you will reach the stars'; and 'the mediocre teacher tells, the good teacher explains, the superior teacher demonstrates, and the great teacher inspires'.

He invited members to consider that we never know what effect our words and actions can have on others and we should always be mindful of this.

## 3. Apologies

Apologies were received from

Kathy Riddick (Blaenau Gwent), Alison Lewis (Swansea), Mathew Maidment (RCT), Jennifer Harding-Richards ( Swansea), Andrew Jones (Monmouthshire), Michelle Gosney (Estyn) Tania ap Sion (Wrexham), Huw George (Pembrokeshire),

## 4. NAPfRE presentation: Sally Holland, Children's Commissioner for Wales

**'The Right Way: A Children's Rights Approach to Education in Wales.'**

Sally stressed that she is independent and does not work for one particular organisation.

She reminded members that there are forty-two rights that children have 'no matter what'. Children have a right to an education that allows them to achieve their potential. When offered a selection of 'rights cards', children often pull out the card 'right to have my own religion'.

Her office's response to the consultation on the new curriculum was that it felt there should be more emphasis on parity of experience across Wales and that all children should have access to learning about all people of belief across Wales and not those just in their locality. Sally referred to material they had produced around Islamophobia and the feedback from some schools who said that they wouldn't use these resources as they didn't have any Muslims in their school!

She supported the withdrawal of compulsory RE in sixth form but felt that pupils should have the choice to receive RE if they wish.

She supported the removal of the right for parents to withdraw their child(ren) from RE as she feels it is part of a child's right to a full education including RE and relationships and sex education.

Every child needs to learn about their human rights and know they are entitled to them whilst also knowing that they should support the rights of others. They should become citizens who act for human rights.

There are five key principles to support the implementation of the forty-two rights:

1. Embedding the UNCRC in everything schools do – ensuring all the forty-two rights are reflected throughout school life

2. Equality and non-discrimination – look at what children say about their experiences of feeling included

3. Empowering children – children must know about their rights in order to be able to take them up. (There is a useful clip on Sally's website from a school in Swansea which had particularly explored article 19 – the right to be safe. The children talked with teachers about some out -of-school activities they were attending where the children did not feel safe. They took this concern to their Headteacher who listened and acted where their parents had not.

4. Participation – culture of participation – students who feel they have ownership of their school values, ethics, direction alongside parents, teachers. It is worth considering how effective schools councils are in schools.

5. Accountability – Sally has been asking WG for the last four years to involve children in the curriculum consultation process and is pleased that this has finally occurred this week – although very late in the process.

Sally's office is asking for children's rights to be evident within the new curriculum. It feels this is already strongly evident in the Humanities AoLE and also to a certain extent in the Health and Wellbeing AoLE.

She would wish to make RE and Relationships and Sex education compulsory as this education is part of children's rights.

A Ynys Mon member raised concerns about the lack of a standard of education for those who are home schooled as this is not currently in place.

Sally recognised a real rise in the number of pupils receiving home schooling and recognises there are a variety of reasons for this. The Government has accepted her 'three tests' – to know where every child is, that all rights are being received including suitable education, that

all children should be seen and visited by officials so that they have an opportunity for their voices to be heard. The Government proposes a data base of children rather than a register. There is no appetite in the UK to prescribe a curriculum for home schooling (as there is in Jersey). A consultation on statutory government guidance is expected soon.

Sally does not agree with the automatic coupling of the words ‘rights and responsibilities’ because children have their rights ‘no matter what’. People still have their human rights no matter what they have done. (There are currently twenty one children in Wales in prison and they all retain their rights under the UNCRC, even though they have committed serious crimes).

A company called Dynamix is carrying out focus groups and the government has created an online survey on the new curriculum available for all young people and children albeit three months into the current consultation.

In answer to a question regarding the current clause relating to the right of withdrawal from RE, Sally offered to send further information (extract from her consultation response to the government consultation).

EE and all members thanked Sally for her very interesting and helpful presentation.

**5. Updates on the Curriculum for Wales**

PW reported that yesterday NAPfRE and WASACRE jointly worked on a response to the consultation. This needs further work before finalising. The deadline is 19th July. The draft response will be sent to members of the WASACRE Executive and NAPfRE members first before finalising the joint response.

There have also been regional meetings of SACREs to consider the consultation.

Vaughan Salisbury has responded on behalf of the Free Church Council and this is available to view on the Churches website. Vaughan has shared documents with Libby Jones for WASACRE.

PW stressed the importance of responding and it is open to all organisations, and individuals.

**6. Update on RE Supporting Framework**

LJ reminded members that SACREs had been consulted on whether to produce a Supporting Framework. She reported that the process of writing the Supporting Framework started in February with a variety of professional experts from all over Wales. The document is now beginning to take shape although still needs more work. She emphasised the skill needed in producing this framework since the emphasis on subsidiarity for the new curriculum must be taken into account. Non specificity is a challenge but teachers are grateful for the guidance being given by the RE specialists. The draft Supporting Framework will be shared with SACREs through Welsh Government organised meetings before long.

The hope is that SACREs will adopt the Supporting Framework as their Agreed Syllabus. It will include references to the changes in legislation including the inclusion of RE for pupils

from 3 years old.  The aim is to include advice and information that might currently be in the Welsh Circular 10/94 and still applicable.

EE thanked both PW and LJ for the enormous amount of work that they are carrying out on behalf of WASACRE and Wales.

In response to a question, it was confirmed that there is representation from ITT on the framework working group in the form of Rachel Bendall who is on the consultation panel of experts.

A question was raised about the place of the history of religion in Wales and Welsh cultural history and whether this is included in the curriculum.  Rachel Samuel advised that there is opportunity for schools to choose what they include in their teaching; however this should include local history.

However, PW stressed that the curriculum is not a 'free for all' and will direct teachers to address specific deep key concepts, utilise specific skills and gain rich knowledge through experiences.

LJ highlighted the fact that the AoLE for Health and Wellbeing also addresses rich leaning experiences alongside the other AoLEs.  All the AoLEs are underpinned by the Four Purposes which aim to prepare pupils for the world of work.

**7.  Professional RE support for SACREs**

WASACRE has been invited to write a paper to recommend to the Minister that four advisers – one for each region – are employed to serve each consortia's SACRES.

VS also suggested that we should not necessarily limit our ask of the WG to just four advisers.

RT reported that at a recent meeting of the Faith Community Forum, the need for each consortium to employ a specialist RE adviser was raised also.

Challenge adviser employed to support the SACRE but it is not working as she does not have time to attend NAPfRE meetings.

Some members noted the need for bilingual RE teachers and advisers.  LJ highlighted the issue of a lack of bilingual teachers generally and this also has an implication for RE.  This is an issue across all subjects.

LJ questioned where we might find a specialist in RE who is also bilingual and has the skills to act as an adviser employed by the Consortia.  It was also acknowledged that being allocated funding to employ four advisers is just one part of the situation; there is also a need to provide support to train RE specialists to become advisers to SACREs.

HS referred to the need to recruit an adviser in relation to overseeing th adoption of an agreed syllabus.  LJ agreed that a specialist adviser will be needed to support an Agreed Syllabus Conference in considering whether to adopt or adapt the Supporting Framework in 2021.  Once the Agreed Syllabus is in place there will still be a need to support teachers in its implementation.

## 8. Professional Learning for RE

PW shared the outcomes of the meeting with Welsh Government representative – Kevin Palmer. As a result of the meeting held on 18th June there has been funding agreed for a professional learning package for a suite of resources specifically for RE, plus training for all those involved in teaching RE and training of ITT students. The need for training for non-maintained settings specifically was also recognised.

## 9. Up-dates:

LJ reported on the NAPfRE meeting from yesterday and her concern at the low number that attended yesterday's meeting – there were six members in the morning and only three in the afternoon. This is not adequate attendance when there are so many important issues that need to be dealt with. Maggie Turford will be leaving her role as employed by CSC as she does not wish to continue once her contract finishes on 31st August. This will affect five SACREs.

LJ referred to the collaborative meetings aimed to support consultation on the curriculum.

PW and LJ will be meeting with the Association of Directors of Education in Wales to inform them about the Supporting Framework for RE. It is hoped that this will support the adoption of the framework across all LAs in Wales.

NAPfRE wish to separate CW and RE guidance from Circular 10/94 into two separate documents. The relevant RE sections could then go into the Supporting Framework.

Training has been proposed to support new advisers to SACREs etc. This will have to be proposed to WASACRE formally and agreed at a future meeting.

Constitutions of the 22 SACREs could be evaluated with a view to consideration whether uniformity of SACRE constitutions across Wales could be achieved.

NAPfRE members also talked about the possibility of writing a 'Challenge brief for RE' which could be part of the Welsh Baccalaureate if Post 16 Re is removed as a legal requirement.

Collective Worship will receive a separate consultation by WG in 2020.

The draft Supporting Framework for RE will be published for consultation in January 2020.

**10.** Report from the executive Committee held on 14th May 2019

Not covered

## 11. The Effective SACRE

Not covered

## 12. Minutes of meeting held in Cardiff on 26th March 2019

Not covered

**13. Matters arising**

Not covered

**14. Correspondence**

Not covered

**15. Show and tell**

Not covered

**16. Any other business**

Not covered

**17. Date for next meeting:**

**Autumn 2019 –** Ceredigion TBA

Spring 2020 – Merthyr Tydfill

EE gave thanks to all involved in the meeting with special thanks to:

Headteacher, Julia Buckley Jones, pupils and staff from Ysgol Glan Gele Infant School; Dafydd Owens, Acting Director of Education; Abdul Khan, Vice Chair of Conwy SACRE and Yona Evans Conwy LA.

**4. Cyflwyniad PYCAG yng Nghyfarfod CCYSAGauC 28 Mehefin 2019:**

**Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru**

**Atodiad:** Barn y Comisiynydd Plant am hawl rhieni i dynnu eu plant yn ôl o Addysg Grefyddol (AG) ac Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACR):

Fel Comisiynydd Plant Cymru, fy swyddogaeth bennaf i yw diogelu hawliau a lles plant a phobl ifanc, ac felly rwy'n cefnogi'r cynnig i gael gwared ar hawl rheini i dynnu eu plant yn ôl o AG ac ACR. Isod ceir y darn perthnasol o'm hymateb ymgynghoriad i'r llywodraeth yn ei gyfanrwydd :

*"Ni ddylid cadw hawl rheini i dynnu plentyn yn ôl o AG ac ACR. Mae cadw deddfwriaeth sy'n caniatáu i rieni dynnu person ifanc yn ôl o'r pynciau hyn yn gwrthod eu hawliau eu hunain i blant a phobl ifanc, ac nid yw'n caniatáu i berson ifanc optio i mewn i addysg cydberthynas a rhywioldeb cyn oed cydsynio cyfreithiol.*

*Gan fod y cynigion a argymhellir yn datgan na fydd ACR ac AG yn elfen orfodol o'r cwricwlwm ar ôl 16 oed, golyga hyn na fydd rhai plant a phobl ifanc yn cael unrhyw addysg cydberthynas a rhywioldeb o gwbl, a gellid dweud yr un peth am AG.*

*Mae hyn yn anghydnaws â hawliau dynol plant o dan ddeddfwriaeth ddomestig Deddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol. Mae hefyd yn anghydnaws â'r ymrwymiad yng Nghymru i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a sicrheir gan Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.*

*Mae'r CCUHP yn darparu ar gyfer:*

- *yr hawl i gael eu clywed, mynegi barn a chymryd rhan mewn penderfyniadau (Erthygl 12);*

- *yr hawl i ryddid mynegiant (Erthygl 13).*

*Yn ogystal, mae gan blant yr hawliau canlynol o dan y CCUHP sy'n cefnogi darparu Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac Addysg Grefyddol, sef:*

- *yr hawl i beidio â chael eu gwahaniaethu (Erthygl 2)*

- *yr hawl i gyrchu gwybodaeth a fydd yn caniatáu i blant wneud penderfyniadau am iechyd (Erthygl 17)*
- *yr hawl i brofi'r iechyd gorau posibl, mynediad at gyfleusterau iechyd, gofal iechyd ataliol, ac addysg a gwasanaethau cynllunio teulu (Erthygl 24)*

- *yr hawl i addysg sy'n cynorthwyo pob plentyn i ddatblygu a chyrraedd eu llawn botensial a pharatoi plant i ddeall a dangos goddefgarwch at eraill (Erthygl 29)*

- *yr hawl i ddisgwyl i'r llywodraeth eu gwarchod rhag camdriniaeth a cham-fanteisio rhywiol (Erthygl 34).*

*Mae'r hawliau cyfreithiol traddodadwy canlynol yn gymwys hefyd o dan y Ddeddf Hawliau Dynol a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol:*

- *yr hawl i ryddid meddwl, cydwybod a chrefydd (Erthygl 9).*

- *yr hawl i ryddid mynegiant (Erthygl 10)*

- *yr hawl i beidio â chael eu gwrthod rhag addysg (Erthygl 2, Protocol 1)*

*Mae Erthygl 2 o Brotocol 1 yn cydnabod hawliau pwysig i rieni:*

*"Ni wadir hawl i addysg i unrhyw berson. Wrth ymarfer unrhyw swyddogaethau mae'n eu cymryd mewn cysylltiad ag addysg ac addysgu, bydd y Wladwriaeth yn parchu hawl rhieni i sicrhau bod y fath addysg ac addysgu'n cydymffurfio â'u credoau crefyddol ac athronyddol eu hunain."*

*Yng ngoleuni hyn mae'n bwysig nodi fod canllawiau Llys Hawliau Dynol Ewrop o amgylch Erthygl 2 o Brotocol 1 yn ei gwneud yn glir fod hawliau'r rhiant o dan y ddarpariaeth hon yn ategiad i'r hawl sylfaenol i addysg ac nid yw'n mynnu fod y Wladwriaeth yn cynnig eithriadau cyffredinol. Sefydlwyd hyn drwy gyfraith achos oedd yn ymwneud â darparu ACR, er enghraifft Dojan ac eraill v. Yr Almaen 201121, a ddyfarnodd nad oedd gwrthodiad y Wladwriaeth i eithrio'r plant o ddosbarthiadau a gweithgareddau yr oedd eu rhieni'n ystyried yn anghydnaws â'u hargyhoeddiadau crefyddol, yn torri Erthygl 2 o Brotocol Rhif 1.*

*Oherwydd y dull cwricwlwm a bennir yn Dyfodol Llwyddiannus, lle mae profiadau dysgu integredig yn cynnwys datblygu gwybodaeth a sgiliau a hynny mewn perthynas â gwahanol feysydd cwricwlwm, bydd tynnu plant yn ôl o ACR ac AG yn gwadu iddynt hefyd fynediad at eu hawliau i addysg mewn meysydd cwricwlwm eraill. O fewn model sybsidiaredd o ddatblygu a chyflwyno'r cwricwlwm, bydd hi'n heriol iawn hefyd i ysgolion bennu pa elfennau o'u darpariaeth sy'n rhan o raglen astudiaeth y Cwricwlwm Cenedlaethol fel y'i pennwyd yn Neddf Addysg 1996; a pha elfennau nad ydynt.*

*Rwy'n pwyso ar Lywodraeth Cymru i fod yn gryf yn eu hymrwymiad i'r CCUHP a sicrhau nad yw'r ddeddfwriaeth hon yn gwrthod hawliau plant a phobl ifanc. Mae hyn yn bwysig iawn er mwyn diogelu lles holl bobl ifanc Cymru. Mae'r orfodaeth ddeddfwriaethol i hyn yn gryf iawn yn barod, ond caiff ei chryfhau ymhellach os cynhwysir sylw dyledus i'r CCUHP ar wyneb y Bil."*

Fel y nodwch yn eich llythyr, mae cynnwys hawliau dynol plant a phobl ifanc yn y ddeddfwriaeth drwy ddyletswydd sylw dyledus yn ganolog i'm galwadau ynghylch y cwricwlwm. Eglurir hyn yn fanwl yn fy mhapur sefyllfa, yma: https://www.childcomwales.org.uk/our-work/policy-positions/curriculum-reform/

## 4. NAPfRE presentation at WASACRE Meeting 28$^{th}$ June 2019:

### Sally Holland, Children's Commissioner for Wales

**Appendix:** Children's commissioner's view on parental right to withdrawal from RE and Relationships and Sexuality Education:

As the Children's Commissioner for Wales my principal role is to safeguard the rights and welfare of children and young people, and as such I am in support of the proposal to remove the right of parents to withdraw their children from RE and RSE. Below is the relevant section of my consultation response to government in its entirety:

*"The parental right to withdraw a child from RE and RSE should not be retained. Retaining legislation that allows parents to withdraw a young person from these subjects denies children and young people their own rights, and does not allow a young person to opt in to relationships and sexuality education before the legal age of consent.*

*As the proposals outlined state that RSE and RE will not be a compulsory element of the curriculum after aged 16, this means that some children and young people will receive no relationships and sexuality education at all, and the same could apply in relation to RE.*

*This is incompatible with the human rights of children under both the domestic legislation of the Human Rights Act 1998 and the European Convention on Human Rights (ECHR). It is also incompatible with the commitment in Wales to the UNCRC guaranteed by the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011.*

*The UNCRC provides for:*

- *the right to be heard, express opinions and be involved in decision-making (Article 12);*

- *the right to freedom of expression (Article 13).*

*In addition, children have the following rights under the UNCRC that support the provision of Relationships and Sexuality Education and Religious Education specifically:*

- *the right to non-discrimination (Article 2)*

- *the right to access information that will allow children to make decisions about health (Article 17)*

- *the right to experience the highest attainable health, access to health facilities, preventative health care, and family planning education and services (Article 24)*

- *the right to an education that support all children to develop and reach their full potential and prepare children to be understanding and tolerant to others (Article 29)*

- *the right to government protection from sexual abuse and exploitation (Article 34).*

*The following justiciable legal rights also apply under the Human Rights Act and the European Convention on Human Rights (ECHR):*

- *the right to freedom of thought, conscience and religion (Article 9).*

- *the right to freedom of expression (Article 10)*

- *the right not to be denied education (Article 2, Protocol 1)*

*Article 2 of Protocol 1 also recognises important parental rights:*

*"No person shall be denied the right to education. In the exercise of any functions which it assumes in relation to education and to teaching, the State shall respect the right of parents to ensure such education and teaching in conformity with their own religious and philosophical convictions."*

*In light of this it is important to note that the European Court of Human Rights guidance around Article 2 of Protocol 1 makes clear that the rights of the parent under this provision is an adjunct to the fundamental right to education and does not require the State to offer blanket exemptions.  This has been established through case law relating to the provision of RSE, for example Dojan and Others v. Germany 201121, which ruled that the refusal of the State to exempt the children from classes and activities that were regarded by their parents as incompatible with their religious convictions was not in breach of Article 2 of Protocol No. 1.*

*Due to the curriculum approach specified in Successful Futures, in which integrated learning experiences include the development of knowledge, skills and related to different curriculum areas, withdrawing children and young people from RSE and RE will also deny them access to their entitlements to education in other curriculum areas.   Within a subsidiarity model of curriculum development and delivery it will also be very challenging for schools to determine which elements of their provision are part of the National Curriculum programme of study as specified in the 1996 Education Act; and which elements are not.*

*I urge Welsh Government to be strong in their commitment to the UNCRC and ensure that this legislation does not deny the rights of children and young people.  This is very important to safeguard the welfare of all young people in Wales.  The legislative mandate for this is already very strong, but will be strengthened further if a due regard duty to the UNCRC is included on the face of the Bill."*

As you point out in your letter, including the human rights of children and young people in the legislation through a due regard duty is central to my calls around the curriculum.  This is explained in detail in my position paper, here:  https://www.childcomwales.org.uk/our-work/policy-positions/curriculum-reform/